

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU



NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

Bydd cyfarfod AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU yn cael ei gynnal DDYDD LLUN 20 EBRILL 2026 yn rhithwir trwy Zoom am 09:30.

Sylwer, bydd Sesiwn Hyfforddi ynghylch Atal yn cael ei gyflwyno cyn y cyfarfod hwn, gan ddechrau am 09:00.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens, Clerc

AGENDA

1. Ymddiheuriadau
2. Datganiadau o Fuddiant
3. Hysbysiad o Faterion Brys
Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.
4. Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026

Eitemau Agenda Sefydlog

5. Adroddiad y Cadeirydd a Gwahoddiad i Ddathlu 30 mlynedd
6. **Adroddiad Diweddarau'r Hyrwyddwyr Diwylliannol, er sicrwydd**
7. **Diweddariad am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, er sicrwydd**
8. Diweddariad am Ganolfan Hyfforddi Hwb Awen, er gwybodaeth

Adroddiadau a Ystyriwyd yn Flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio, y Panel Gweithredol a'r Bwrdd Pensiwn Lleol

9. Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27, er sicrwydd
10. Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026/30, i'w chymeradwyo
11. Datganiad Polisi Tâl 2026/27, i'w gymeradwyo

Parhad...

12. Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27, i'w gymeradwyo
13. Datganiad Polisi Dewisol Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân, i'w gymeradwyo
14. Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2025/26 a Chylch Gorchwyl 2026/27, i'w gymeradwyo

Eitemau i'w Hystyried

15. Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2026-27, er gwybodaeth
16. Penodi Aelod(au) Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau
17. Alldro Dros Dro Chwarterol 2025/26, er sicrwydd
18. Materion Brys
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

19. Rôl y Trysorydd (Adran 151), i'w gymeradwyo

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Dydd Llun 19 Ionawr 2026 yn rhithwir trwy Teams. Dechreuodd y cyfarfod am 09.00.

| | |
|--|----------------------------------|
| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes (gadawodd am 09:48) | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones (gadawodd am 09:53) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gwynfor Owen (gadawodd am 09:47) | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Gareth Williams | Cyngor Gwynedd |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |

Hefyd yn bresennol:

| | |
|-----------------|---------------------------------------|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matt Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Elgan Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Llinos Evans | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Lee Bourne | Rheolwr Ardal Hyfforddiant a Datblygu |
| Elin Hughes | Hyrwyddwr Diwylliant |
| Tom Weston | Hyrwyddwr Diwylliant |
| Tim Owen | Rheolwr Trawsnewid y Gwasanaeth |
| Heledd Davies | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00 gyda sesiwn hyfforddi ynghylch tanau gwylt.

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|------------------|----------------------------------|
| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

YN ABSENNOL

| | |
|------------|----------------------------------|
| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1. Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

4 COFNODION CYFARFOD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWDYD AR 20 HYDREF 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2025 i'w cymeradwyo.

4.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio bellach wedi'i benodi, y Cynghorydd Tina Claydon. Roedd Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd hefyd wedi'i benodi, y Cynghorydd Arwyn Roberts.

4.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar yr adolygiad o lywodraethiant awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, roedd Ysgrifennydd y Cabinet bellach wedi cynnig y byddai awdurdodau tân ac achub yn y dyfodol yn cynnwys un aelod o bob awdurdod lleol, gyda thraean o'r aelodaeth yn cynnwys aelodau annibynnol. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd yr oedd gan y Senedd 40 diwrnod i'w phasio. Nid oedd yn hysbys a fyddai hyn yn cael ei basio cyn yr etholiadau a oedd i'w cynnal yn 2026.

4.4 PENDERFYNWYD:

- i) cymeradwyo cofnodion ATA o 20 Hydref 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau i roi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ynddynt yn eu capasiti swyddogol rhwng Hydref a Rhagfyr 2025.

5.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Mark Young, am ei waith tra roedd y Cadeirydd i ffwrdd. Nodwyd bod y Dirprwy Gadeirydd wedi ymweld â'r Ystafell Reoli a chriw y Rhyl ar Ddydd Nadolig a oedd wedi'i hepgor o'r adroddiad.

5.3 PENDERFYNWYD:

i) **Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.**

6 AROLWG TEULU TÂN AC ADRODDIAD DIWEDDARIAD HYRWYDDWYR DIWYLLIANNOL

6.1 Crynhodd y PST Docx gynnwys yr Arolwg Teulu Tân ac Adroddiad Diweddarau Hyrwyddwyr Diwylliant. Rhoddodd y papur hwn y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau Arolwg Staff Teulu Tân, ynghyd â throsolwg o weithgarwch a ffrydiau gwaith diweddar dan arweiniad yr Hyrwyddwyr Diwylliant.

6.2 Nododd y Cadeirydd fod cyfradd ymateb o 68% ar gyfer yr Arolwg Staff Teulu Tân yn galonogol.

6.3 Diolchodd Aelod i'r Hyrwyddwyr Diwylliant am eu cyfraniadau hyd yma. Gofynnwyd beth oedd y weledigaeth hirdymor mewn perthynas â diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ac ymatebodd y PST fod strwythurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod materion a godwyd yn flaenorol a materion newydd yn cael eu trin mewn modd adeiladol.

6.4 PENDERFYNWYD:

i) Nodi canfyddiadau cychwynnol yr Arolwg Staff Teulu Tân, gan gydnabod y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r meysydd allweddol sydd angen ffocws pellach, a chefnogi'r camau nesaf; a

ii) **Nodi'r rhaglen welliannau sy'n mynd rhagddi a chefnogi'r camau nesaf a amlinellir yn yr adroddiad hwn gan yr hyrwyddwyr diwylliant.**

7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

7.1 Cyflwynodd y PSTC Anthony Jones bapur yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a roddodd ddiweddariad i Aelodau'r Awdurdod ar waith y gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) a sefydlwyd mewn ymateb i'r argymhelliad o gyfarfod 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrrff cynrychioladol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

7.2 Nododd y PST fod y cyflwyniad cynharach ar danau gwyllt wedi dangos pa mor hanfodol oedd bod gan y Gwasanaeth Injan Tân ar gael mewn ardaloedd gwledig. Diolchodd yr aelodau i swyddogion am eu gwaith caled yn y maes hwn.

7.3 PENDERFYNWYD:

- i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;
- ii) Nodi bod y cydgytundeb peilot a lofnodwyd gan y PST ac Undeb y Brigadau Tân bellach ar waith yn llawn o 1 Ionawr 2026; a
- iii) Nodi bod y cydgytundeb yn cael ei fonitro a'i adolygu'n **barhaus, a bydd data pellach yn cael ei gyflwyno ynglŷn â'i** berfformiad.

8 PENNU CYLLIDEB 2026/27

8.1 Cyflwynodd Elgan Roberts bapur Gosod Cyllideb 2026/27 a roddodd yr asesiad cynllunio ariannol i'r Aelodau er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27 a gofynnodd am gymeradwyaeth i gyfathrebu'r ardoll derfynol y cytunwyd arni i awdurdodau lleol cyfansoddol.

8.2 Diolchwyd i aelodau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb am eu gwaith caled yn cefnogi'r tîm cyllid i roi'r gyllideb hon at ei gilydd.

8.3 Gofynnodd Aelod beth oedd y cynllun i sicrhau bod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl, ac atebodd Elgan mai dim ond ar gyfer gwariant untro y defnyddir y cronfeydd wrth gefn.

8.4 Diolchodd y Trysorydd i'r Tîm Cyllid am y gwaith caled a aeth i gynhyrchu'r gyllideb, nododd fod y gyllideb a gyflwynwyd yn briodol ac awgrymodd ei chymeradwyo.

8.5 PENDERFYNWYD:

- i) Cymeradwyo canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27;
- ii) Cymeradwyo'r asesiad cynllunio ariannol cyfredol o ofyniad cyllideb refeniw o £54.375m a chyllideb gyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27;
- iii) Cymeradwyo'r cynnig i ddefnyddio £0.271m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2026/27; a
- iv) Cymeradwyo cyfathrebu'r ardoll ariannol derfynol o 54.104m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

9 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI'R TRYSORLYS CH2 2025/26

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch2 2025/26, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Awdurdod ar weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2025 i 30 Medi 2025.

9.2 PENDERFYNWYD:

- i) **Nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus** ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2025 a 30 Medi 2025.

10 ACHOS BUSNES AMLINELLOL CANOLFAN HYFFORDDI HWB AWEN

10.1 Cyflwynodd y PSTC Evans Achos Busnes Amlinellol Canolfan Hyfforddi Hwb Awen i'r Aelodau a gofynnodd am gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam datblygu nesaf, a fyddai'n canolbwyntio ar sicrhau cyllid a phenderfynu ar fforddiadwyedd.

10.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r PSTC Evans am gynnal sesiynau gwybodaeth i sicrhau bod yr Aelodau'n cael y wybodaeth yn llawn. Roeddent wedi bod yn fuddiol.

10.3 Roedd sawl Aelod yn teimlo bod y datblygiad hwn yn hanfodol ac fe wnaethant annog y rhai a oedd yn bresennol i gymeradwyo'r datblygiadau fel yr amlinellwyd yn yr argymhellion.

10.4 Dywedodd Hyrwyddwr Aelodau Hwb Awen fod hwn yn gyfle anhygoel ar gyfer buddsoddiad hirdymor yng Ngogledd Cymru ac anogodd yr Aelodau i gefnogi ac annog y datblygiad hwn wrth symud ymlaen.

10.5 PENDERFYNWYD:

- i) Nodi cynnwys yr Achos Busnes Amlinellol;
- ii) Cymeradwyo symud i ddatblygu Achos Busnes Llawn; a
- iii) Cefnogi ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru i sicrhau ariannu cyfalaf.

11 ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2024/25

11.1 Cyflwynodd y PSTC Evans Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024/25 a roddai gipolwg ar ddata cyflog ar 31 Mawrth 2025, yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Dangosodd yr adroddiad gynnydd parhaus o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar draws y Gwasanaeth.

- 11.2 Gofynnodd Aelod sut oedd yr ystadegau ynghylch cynrychiolaeth fenywod ar 22% yn cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill, ac ymatebodd y PSTC Evans, er nad oedd ganddo'r ffigurau hynny wrth law, bod y Gwasanaeth yn cymharu'n dda ag eraill. Cytunwyd y byddai'r data'n cael ei gasglu d'i drosglwyddo i'r Aelodau.
- 11.3 Cadarnhaodd y PST fod y Gwasanaeth yn un o'r gwasanaethau uwch eu perfformiad mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond bod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn.
- 11.4 PENDERFYNWYD:
- i) Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024/25 ar wefan y Gwasanaeth, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

12 ADRODDIAD ASESIAD O GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYHNHWYSIANT BLYNYDDOL 2024/25

- 12.1 Cyflwynodd y PSTC Evans Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Blynnyddol 2024/25 a roddodd drosolwg o'r cynnydd yn erbyn Strategaeth pum mlynedd y Gwasanaeth. Dangosodd sut mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ymgorffori cynhwysiant yn ei ddiwylliant sefydliadol, gwella amrywiaeth y gweithlu, a chynnig gwasanaethau cynhwysol i gymunedau.
- 12.2 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith partneriaeth a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.
- 12.3 Gofynnodd Aelod a oedd gan swyddogion unrhyw syniadau ar sut i ymgorffori'r gwaith sy'n cael ei wneud, ac ymatebodd y PSTC Evans fod newidiadau sylweddol wedi bod mewn prosesau recriwtio ac ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n dangos bod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i bawb.
- 12.4 PENDERFYNWYD:
- i) Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynnyddol 2024/25 ar wefan y Gwasanaeth.

13 ALLDRO DROS DRO 2025-26

- 13.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur bapur Alldro Dros Dro 2025-26 a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar y rhagolwg ar refeniw a gwariant cyfalaf ar gyfer 2025/26, ar 30 Tachwedd 2025.
- 13.2 Nododd y Trysorydd fod sawl ffactor yn gysylltiedig â chynnal alldro cytbwys a diolchodd i swyddogion am y gwaith a wnaethpwyd yn y maes hwn.

13.3 Gofynnodd y Cadeirydd pam fod Heddlu Gogledd Cymru yn bilio mwy na chost chwyddiant mewn perthynas â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y ddarpariaeth Cyfleusterau, ac a fyddai hynny'n parhau. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod hwn yn ddigwyddiad untro sy'n ymwneud yn bennaf â dyfarniadau cyflog ac na fyddai'n parhau ymlaen i'r blynyddoedd i ddod.

13.4 PENDERFYNWYD:


- i) **Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a** ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad;
- ii) **Nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydabod** bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a
- iii) **Nodi'r symudiad arfaethedig o £0.548m i gronfeydd wrth gefn ar** gyfer ad-daliad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

14 MATERION BRYD

14.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben: 10:45

| | | |
|-------------------|--|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Amherthnasol | |
| Swyddog Cyswllt | Gwasanaethau Aelodau (members.services@northwalesfire.gov.wales) | |
| Pwnc | Adroddiad y Cadeirydd | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

- 3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
 - i) **nodi'r wybodaeth a roddwyd.**

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.


GWYBODAETH

- 5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.
- 6 Ar 7 Ionawr eisteddodd y Cadeirydd ar Banel Cwynion i ddyfarnu ar gŵyn Cam Tri.
- 7 Ar 9 Ionawr cymerodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ran mewn gweithdy ar-lein ar gyfer prosiect y Ganolfan Hyfforddi.
- 8 Ar 15 Ionawr cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â chynrychiolwyr o Undeb y Brigadau Tân (FBU) i drafod papurau agenda cyfarfod llawn yr Awdurdod.

- 9 Ar 30 Ionawr, bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod ar-lein o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
- 10 Ar 4 Chwefror, bu'r Cadeirydd, ynghyd â'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), y Cynghorydd Arwyn Roberts, mewn cyfarfod hybrid o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.
- 11 Ar 6 Chwefror ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân yr Wyddgrug i gymryd rhan mewn Seremoni Wobrwyo Ffenics mewn perthynas â disgyblion Ysgol Maes Garmon.
- 12 Ar 24 Chwefror aeth y Dirprwy Gadeirydd i ddigwyddiad Cymraeg Tanio Sgwrs a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug.
- 13 Ar 26 Chwefror, aeth y Cadeirydd, ynghyd â'r PST a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) Helen MacArthur, i gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.
- 14 Ar 10/11 Mawrth roedd y Cadeirydd, ynghyd â'r PSTC Helen MacArthur, wedi cymryd rhan mewn Cynhadledd Tân ac Achub LGA a gynhaliwyd ym Manceinion.
- 15 Ar 13 Mawrth cymerodd y Cadeirydd ran mewn cyfarfod ar-lein o Banel Gweithredol CLILC.
- 16 Ar 20 Mawrth ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Llanfairfechan i fod yn bresennol mewn Seremoni Wobrwyo Ffenics mewn perthynas â disgyblion Ysgol Tryfan.
- 17 Ar 25 Mawrth bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod ar-lein o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.
- 18 Ar 26 Mawrth, eisteddodd y Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd Gareth Sandilands, ar banel cyfweld i ddewis Aelod Annibynnol newydd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.
- 19 Ar 27 Mawrth cymerodd y Cadeirydd ran mewn cyfarfod ar-lein o Banel Gweithredol CLILC. Yn ddiweddarach yr un diwrnod, cyfarfu'r Cadeirydd, ynghyd â'r PST â'r PSTC Justin Evans, â Rhun ap Iorwerth AS, i'w friffio am y risgiau presennol ac yn y dyfodol sy'n wynebu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

GOBLYGIADAU

| | |
|--|--|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

| | | |
|-------------------|---|---|
| Adrodd i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Dawn Docx, Prif Swyddog Tân | |
| Swyddog Cyswllt | Elin Hughes a Tom Weston, Hyrwyddwyr Diwyll | |
| Pwnc | Adroddiad Diweddarau'r Hyrwyddwyr Diwylliant | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r gweithgareddau a'r ffrydiau gwaith diweddar dan arweiniad yr Hyrwyddwyr Diwylliant.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant bellach wedi bod yn y swydd ers chwe mis ac yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella Diwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Diwylliant CREST.
- 3 Ers eu penodi, mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant wedi sefydlu dulliau o ymgysylltu, wedi cyfrannu at ffrydiau gwaith allweddol, ac wedi cryfhau trefniadau llywodraethiant ac adrodd i gefnogi gwelliant diwylliannol.
- 4 Mae rhaglen o ymweliadau â gorsafoedd wedi dechrau i'w galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff, gyda'r adborth cynnar yn rhoi dealltwriaeth werthfawr o brofiad a blaenoriaethau staff.
- 5 Mae Cynllun Gwella Diwylliant diwygiedig a manwl bellach ar waith, wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethiant, perchnogaeth ac adrodd clir. Mae cynnydd yn parhau i gael ei adrodd drwy **bwyllgorau'r Gwasanaeth ac i'n budd-ddeiliad** allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) diwylliant drafft wedi'u datblygu fel bod staff yn gallu gweld cynnydd yn well.
- 6 Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant hefyd yn arwain gwaith cydweithredu **cenedlaethol drwy Grŵp Diwylliant Cymru Gyfan**, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd, i ddod â phartneriaid at ei gilydd.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 7 Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i chyflwyno o'r blaen i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

ARGYMHELLIAD

8 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

- i) **Nodi'r rhaglen o welliannau sy'n mynd rhagddi dan arweiniad yr Hyrwyddwyr Diwylliant.**

CEFNDIR

- 9 Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am eu ffrydiau gwaith yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, y Bwrdd Gwella Diwylliant, y Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Sefydliad, a'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Thrafod.
- 10 Mae'r diweddariadau hyn yn cefnogi sicrwydd a goruchwyliaeth drwy ddangos cynnydd yn nhaith ddiwylliannol y Gwasanaeth, y Cynllun Gwella Diwylliannol, ac o ran y dangosyddion sy'n dod i'r amlwg o newid a gwelliant yn ein diwylliant.

GWYBODAETH

- 11 Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant wedi bod yn y swydd ers chwe mis, **gyda'u seondiadau wedi'u hymestyn tan fis Medi 2026 i gefnogi cyflawni'r Cynllun Gwella Diwylliant a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Diwylliant CREST.** Fe'u penodwyd i gefnogi ymateb y Gwasanaeth i'r adolygiad ac i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r cynllun.
- 12 Mae rôl yr Hyrwyddwyr Diwylliant yn cynnwys ymgysylltu â staff, rhoi cymorth i gyflawni camau gwella, cyfrannu at drefniadau llywodraethiant, a sicrhau bod gweithgarwch i newid diwylliant yn cael ei lywio gan adborth staff a blaenoriaethau sefydliadol. Ers eu penodi, **mae'r ffocws wedi bod ar sefydlu dulliau o ymgysylltu, cefnogi ffrydiau gwaith allweddol, a chryfhau monitro ac adrodd.**
- 13 Mae rhaglen o ymweliadau â gorsafoedd wedi dechrau i gefnogi ymgysylltiad uniongyrchol â staff. Mae ymweliadau cychwynnol â saith gorsaf amser llawn wedi cael derbyniad cadarnhaol, gan roi **mewnwelediad gwerthfawr i ganfyddiadau'r staff a'u blaenoriaethau, sy'n cyfrannu at y gwaith sy'n mynd rhagddo.**
- 14 Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant yn parhau i gyfrannu at weithgorau allweddol, gan gynnwys y Gweithgor Arolwg Teulu Tân a'r Gweithgor Staff Cefnogol sy'n Profi Cam-drin Ar-lein, ac maent yn ymgysylltu â rhwydweithiau staff i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithgarwch gwella diwylliant ehangach.

- 15 Mae Cynllun Gwella Diwylliant manwl diwygiedig bellach ar waith i gynllunio gweithgarwch a chofnodi cynnydd dros y flwyddyn ariannol nesaf 2026/2027. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan fecanweithiau llywodraethiant, perchnogaeth ac adrodd clir ar draws pwyllgorau perthnasol y Gwasanaeth. Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant yn cyfarfod â pherchnogion camau gweithredu i adolygu cynnydd a blaenoriaethau, gan sicrhau bod diweddariadau'n cael eu cofnodi a chyfathrebu yn cael ei gryfhau.
- 16 Ar lefel genedlaethol, cadeiriodd yr Hyrwyddwyr Diwylliant ail Gyfarfod Diwylliant Cymru Gyfan yn ddiweddar, gan ddod â sefydliadau golau glas ynghyd i rannu dysgu ac arfer gorau. Canolbwyntiodd y cyfarfod diweddaraf ar waith yn ymwneud ag arolygon staff a diogelwch seicolegol.
- 17 Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) drafft ar gyfer diwylliant wedi'u datblygu a'u rhannu gyda Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gael eu hadborth, gyda'r nod o wella monitro ac adrodd a gwneud cynnydd yn fwy amlwg i'r staff.

GOBLYGIADAU

| | |
|--|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithgaredd gwella diwylliannol yn cyfrannu at weithlu iach a brwdfrydig ac yn cefnogi cynaliadwyedd sefydliadol hirdymor. |
| Cyllideb | Mae gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fewn cyllidebau presennol. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion cyflogaeth, cydraddoldeb a llywodraethiant sefydliadol. |
| Staffio | Nod y gwaith gwella diwylliannol sy'n mynd rhagddo yw gwella ymddiriedaeth, hyder arweinyddiaeth, galluogi a thriniaeth deg, gan gynorthwyo i gadw staff a chefnogi llesiant ac effeithiolrwydd y gweithlu. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae gweithgarwch gwella diwylliannol yn hyrwyddo ymgysylltu â staff, tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith. Mae gweithgarwch cyfathrebu, gan gynnwys defnyddio Hwb Tân, yn parhau i adlewyrchu safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Gall methu â chynnal momentwm neu ddangos dilyniant clir i ymateb i adborth staff effeithio ar ymddiriedaeth, ymgysylltiad a hyder yn yr arweinyddiaeth. |

| | |
|-------------------|---|
| Adrodd i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 |
| Swyddog Arweiniol | Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Swyddog Cyswllt | Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid |
| Pwnc | Y diweddaraŵ am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys |



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraŵ i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) mewn ymateb i'r argymhelliad o gyfarfod 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi atebion amgen gyda chyrrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, i fynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ers ei sefydlu yn 2025, mae grŵp yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu a chytuno ar Gydgytundeb (CA) sy'n dangos hunan-wydnwch o fewn y system ddyletswydd bresennol ar draws yr 8 gorsaf Amser Cyflawn (WDS)/Criw Dydd. Mae'r CA wedi caniatáu i swyddi eraill o fewn y sefydliad gael eu hymgorffori mewn cynllun peilot i roi model mwy effeithiol ac effeithlon o ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru gyfan. Mae'r Peilot llawn bellach yn ei bedwerydd mis o weithredu.
- 3 Er mai dim ond gwerth chwarter blwyddyn o ddata llawn oedd ar gael cyn yr adroddiad hwn, mae arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod gwelliant cyffredinol wedi bod yn nifer y peiriannau sydd ar gael yn ddyddiol ers dechrau'r cynllun peilot, a gostyngiad yn nifer yr oriau sy'n cael eu talu am oramser am bresenoldeb mewn gorsafoedd i sicrhau argaeledd.
- 4 Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi bod yng nghanran yr oriau bob wythnos y cynhelir gorchudd tân gwledig yn Nolgellau a Phorthmadog.

ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;
- ii) Nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth lansio cynllun peilot llawn y CA ar 1 Ionawr 2026; a
- iii) Gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl bartion i fonitro ac adolygu'r peilot yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas

CEFNDIR

- 6 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Ionawr 2025, cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Aelodau, yn amlinellu'r datblygiadau ers eu penderfyniad yng nghyfarfod Rhagfyr 2023. Fe wnaethant gytuno y byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol i ddatblygu datrysiadau o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.
- 7 Dechreuodd Gweithgor sy'n cynnwys swyddogion Undeb y Brigadau Tân (FBU) a swyddogion o'r Tim Trawsnewid gyfarfod o 21 Ionawr 2025 ar gam nesaf prosiect yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Fe wnaethant gyfarfod â'r nod o adfywio cynnig gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y gallai'r 178 swydd yn y 22 gwylfa ar draws yr 18 gorsaf System Dyletswydd Amser Cyflawn/Criw Dydd presennol fod yn hunangynhaliol a dibynnu llai ar yr 18 swydd arall yn y nifer presennol o swyddi i lenwi absenoldebau. Byddai hyn yn ei dro yn caniatáu i'r swyddi hyn gael eu defnyddio'n wahanol i gefnogi cynlluniau peilot i leoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn y lleoliadau gwledig a nodwyd yn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn at ddrafftio CA fel sail i dreialu cynlluniau peilot o 1 Medi 2025 i ddechrau, tan fis Chwefror 2027.
- 8 Cytunodd y CA hefyd i dreialu cysoni amseroedd cychwyn shifftiau ar draws pob un o'r wyth gorsaf ac ymestyn y shifft ddydd yng Nglannau Dyfrdwy, y Rhyl a Wrecsam i 10 awr i gynyddu gwydnwch gan ganiatáu i bersonél o bob gorsaf gynnig darpariaeth frys ar unrhyw orsaf amser cyflawn arall os oes angen yn ystod y shifft dydd.
- 9 Rhoddir diweddariadau ym mhob cyfarfod y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi (JCNC) er mwyn i'r cyrrff cynrychioliadol eraill gael gwybod.

GWYBODAETH

- 10 Mae'r Grŵp Gweithredu Cytundeb Cydweithredol (CAIG) bellach wedi cytuno ar gyfres bolisi sy'n manylu ar egwyddorion ac arferion gwaith y cytundeb cydweithredol mewn perthynas â gweithdrefnau gwydnwch, ac sy'n cynnwys cyfres bolisi newydd ar gyfer y rhestr ddyletswyddau amser cyflawn. Aeth y dogfennau hyn trwy'r drefn ymgynghori ffurfiol ym mis Hydref 2025 ac maent wedi'u cymeradwyo.
- 11 Rydym wedi mynd ati i symud ein byrddau dyrchafu ar gyfer rheolwyr goruchwyllo i ganiatáu i bersonél ymgymryd â swyddi newydd ar ddechrau'r flwyddyn gwyliau blynyddol newydd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hehangu i bob lefel reoli yn ystod 2026 er mwyn cefnogi'r cydgytundeb yn llawn.
- 12 Mae rhaglen fudo wedi'i chyflwyno i swyddogion ar alwad i fynd i swyddi llawn amser i gefnogi criwio'r gorsafoedd cnewyllog yn Nolgellau a Phorthmadog, gan roi cyfleoedd cyflogaeth i'n personél sy'n byw yn yr ardaloedd gwledig hynny.
- 13 Mae rhaglen i griwio fframwaith personél System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig yn llawn hefyd wedi'i chwblhau i sicrhau y gallant gynorthwyo gorsafoedd presennol a chnewyllog mewn ardaloedd gwledig ymhellach i wella gwydnwch a'r ddarpariaeth tân.
- 14 Dechreuodd y cynllun peilot ar gyfer darparu dwy orsaf cnewyllyn ym Mhorthmadog a Dolgellau i wella darpariaeth tân gwledig ar 2 Medi 2025. Mae sawl ymweliad gan y Pennaeth Ymateb a swyddogion allweddol eraill ochr yn ochr â'r tîm cyfleusterau wedi'u cynnal i sicrhau bod lles staff wedi cael ei flaenoriaethu drwy gydol y newidiadau. Mae'r tîm cyfleusterau wedi drafftio cyfres o gynlluniau ar gyfer gwelliannau i'r ddwy orsaf i gefnogi'r model criwio cnewyllyn newydd yn well.
- 15 Mae'r CA hefyd yn dangos meysydd eraill lle mae newid wedi digwydd megis cynnal mwy o hyfforddiant ar ddiwrnodau dyletswydd i leihau faint o amser i ffwrdd sy'n cronni a chyfeiriadau at y Polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer Rhestr Ddyletswyddau'r System Amser Cyflawn sy'n anelu at roi mwy o gadernid i'r trefniadau gwyliau a llenwi lleoedd gwag ar shifftiau.
- 16 Mae storfa ganolog o wybodaeth a dogfennau canllawiau, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin (FAQs), wedi'i gosod ar y fewnrwyd fewnol, Hwb Tân, er budd yr holl bersonél a bydd yn cael ei ddiweddarau ar ôl pob cyfarfod monitro ac adolygu peilot.

- 17 Mae agenda safonol i adolygu'r peilot yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol wedi'i chytuno gyda Undeb y Brigadau Tân i sicrhau bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei gasglu ac i ganfod a yw'r peilot yn perfformio'n llwyddiannus, neu a oes angen cyflwyno diwygiadau pellach ar y cyd. Er ei bod yn dal yn gynnwys i'r peilot llawn, mae'r data cychwynnol a gasglwyd wedi dangos cynnydd bach mewn argaeledd cyffredinol ac argaeledd sylweddol yn yr ardaloedd gwledig a nodwyd.
- 18 Disgwylir i adolygiad ffurfiol cyntaf y CA rhwng y Prif Swyddog Tân ac Undeb y Brigadau Tân gael ei gynnal ar 21 Ebrill 2026.

GOBLYGIADAU

| | |
|--|--|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw ddatrysiaid fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn parhau i weithio gyda staff a'u cyrff cynrychioladol. Rhoddir diweddariadau rheolaidd yn y JCNC a thrwy'r Crynodeb Wythnosol yn ogystal â thrwy ymweliadau â gorsafoedd gan Swyddogion. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol gydag adborth yn cael ei gasglu ynghylch hyn hefyd. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |

| | |
|-------------------|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 |
| Swyddog Arweiniol | Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Swyddog Cyswllt | |
| Pwnc | Diweddariad ar Brosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen |



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 I roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd Prosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen, gan gynnwys gweithgaredd llywodraethiant, statws y safle, cynllunio ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu, ac ystyriaethau allanol sy'n dod i'r amlwg.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Prosiect y Ganolfan Hyfforddi, Hwb Awen, yn parhau i wneud cynnydd trwy'r trefniadau llywodraethiant y cytunwyd arnynt, gyda chyfarfod mwyaf diweddar y Bwrdd Prosiect ar 1 Ebrill 2026. Yn dilyn cwblhau'r gwaith o glirio'r safle, mae'r safle bellach wedi dychwelyd i reolaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ac mae gweithgaredd lliniaru ecolegol wedi ailgychwyn, gan gynnwys rheoli parhaus y Madfallod Dŵr Cribog.
- 3 Mae'r prosiect yn symud ymlaen tuag at Gam 2 RIBA, a fydd yn rhoi mwy o eglurder mewn perthynas â datblygu'r dyluniad, costau a rhaglen a bydd yn llywio cam nesaf y gwaith. Ochr yn ochr â hyn, mae'r gwaith yn parhau i archwilio cyllid allanol ac opsiynau buddsoddi.

ARGYMHELLIAD

- 4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Phrosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen.**

CEFNDIR

- 5 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Gwasanaeth yn bwrw ymlaen â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Canolfan Hyfforddi newydd i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd hyfforddi bresennol, nad ydynt bellach yn diwallu anghenion gwasanaeth tân ac achub modern. Mae'r prosiect yn cael ei oruchwylio trwy Fwrdd Prosiect pwrpasol y Ganolfan Hyfforddi, gyda chefnogaeth trefniadau llywodraethiant mewnol sefydledig.

GWYBODAETH

6 Llywodraethiant a Chynnydd y Prosiect

Cyfarfu Bwrdd Prosiect y Ganolfan Hyfforddi (y Bwrdd) ar 1 Ebrill 2026 gan dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect, cerrig milltir, problemau a risgiau. Fel rhan o'r diweddariad hwn, ystyriodd y Bwrdd ddigwyddiadau iawndal yn deillio o gynnydd yng nghwmpas y prosiect a gytunwyd yn flaenorol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Mae'r digwyddiadau iawndal hyn wedi'u hadolygu trwy drefniadau llywodraethiant y prosiect a'u cymeradwyo gan y Bwrdd, gan sicrhau bod goblygiadau'r newidiadau i'r cwmpas y cytunwyd arnynt yn cael eu hystyried yn llawn ac yn aros o fewn goddefiannau'r prosiect.

Mae'r prosiect yn parhau i gael ei reoli yn unol â fframwaith RIBA, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd tuag at Gam 2 RIBA. Bydd y cam hwn yn rhoi mwy o eglurder mewn perthynas â datblygu'r dyluniad, y costau a'r rhaglen, a bydd yn llywio cam nesaf y gwaith a'r adroddiadau i'r Aelodau yn y dyfodol yn unol â'r trefniadau llywodraethiant y cytunwyd arnynt.

7 Statws ac Ecoleg y Safle

Ar ôl cwblhau'r gwaith o glirio'r safle, mae'r safle bellach wedi'i ddychwelyd yn ffurfiol i reolaeth y Gwasanaeth. Ailgychwynnodd gwaith lliniaru ecolegol yr wythnos hon ac mae'n cynnwys parhau i reoli'r Madfallod Dŵr Cribog yn unol â gofynion statudol a'r cynllun rheoli ecolegol y cytunwyd arno. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu ochr yn ochr â rhaglen ehangach y prosiect i leihau'r risg ac osgoi oedi diangen.

8 Yr Anghenion Hyfforddi a'r Risg Sefydliadol

Mae'r Bwrdd yn parhau i gydnabod bod cyfleusterau hyfforddi presennol y Gwasanaeth yn cyflwyno risgiau gweithredol a risgiau diogelu ac nad ydynt yn diwallu anghenion gwasanaeth tân ac achub modern. Mae datblygu Canolfan Hyfforddi newydd yn parhau i fod yn ganolog i fynd i'r afael â'r risgiau hyn ac i gefnogi hyfforddiant diogel, effeithiol a gallu gweithredol yn y dyfodol.

9 Gweithgaredd Cyllido:


Mae Is-grŵp Cyllid pwrpasol yn parhau i archwilio cyllid allanol a chyfleoedd buddsoddi, gan gynnwys ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Dylai Aelodau nodi bod ansicrwydd o hyd ynglŷn ag amseru ac argaeledd unrhyw gyllid posibl gan Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r ffaith bod etholiad ar y gweill a'r posibilrwydd y bydd newidiadau'n digwydd i rolau allweddol y llywodraeth. Cydnabyddir hefyd, ar ôl yr etholiad, y gallai fod cyfnod o oedi tra bod blaenoriaethau cyllido yn cael eu cadarnhau a threfniadau gweinidogol a swyddogol newydd yn cael eu sefydlu. Mae'r ansicrwydd hwn yn cael ei ystyried wrth gynllunio'r prosiect a rheoli risg, a bydd yr Aelodau yn cael eu hysbysu wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach.

10 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae cynllunio cyfathrebu yn parhau ochr yn ochr â'r ffrydiau gwaith technegol a llywodraethiant i gefnogi ymgysylltiad clir, cyson ac amserol. Mae deunyddiau cyfathrebu a briffio drafft wedi'u paratoi i gefnogi ymgysylltu strwythuredig ag arweinwyr gwleidyddol cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu'n briodol am gyd-destun strategol y Gwasanaeth, materion sy'n dod i'r amlwg ac anghenion yn y dyfodol. Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gydlynu i sicrhau cydymffurfiaeth â llywodraethiant y prosiect, cysondeb negeseuon a chydymffurfiaeth â didueddrwydd gwleidyddol ac ystyriaethau cyn etholiad.

GOBLYGIADAU

| | |
|--|--|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect yn cefnogi amcanion llesiant y Gwasanaeth trwy wella amgylcheddau hyfforddi, cryfhau gallu'r gweithlu a gwella gwydnwch sefydliadol hirdymor, wrth fynd i'r afael â risgiau sy'n deillio o gyflwr ac addasrwydd y ddarpariaeth hyfforddiant bresennol. |
| Cyllideb | Nid oes unrhyw gymeradwyaeth gyllidebol ychwanegol yn cael ei geisio trwy'r adroddiad hwn. Bydd goblygiadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan yr Aelodau wrth i'r prosiect ddatblygu ac opsiynau cyllido ddod yn gliriach. |
| Cyfreithiol | Mae gofynion statudol a rheoleiddiol, gan gynnwys rhwymedigaethau amgylcheddol ac ecolegol, yn parhau i gael eu bodloni. Cymerir cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen mewn perthynas ag ystyriaethau llywodraethiant, caffael a chyllido. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau staffio uniongyrchol sy'n deillio o'r diweddariad hwn. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae ystyriaethau cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Gymraeg yn parhau i gael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio'r prosiect a gweithgareddau cyfathrebu. |
| Risgiau | Mae risgiau allweddol yn parhau i fod o dan reolaeth weithredol trwy drefniadau llywodraethiant sefydledig y prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd ynghylch amseru penderfyniadau cyllid allanol, yn enwedig yng nghyd-destun cylch etholiad Llywodraeth Cymru, dibyniaeth ar raglenni ac oedi posibl sy'n deillio o ffactorau allanol fel ecoleg, a risgiau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflwr ac addasrwydd cyfleusterau hyfforddi presennol. |

| | | |
|-------------------|---|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | |
| Swyddog Cyswllt | Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael | |
| Pwnc | Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27 | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r strategaethau a'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2026/27 i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod): y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP). Mae'r dogfennau hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi cyfalaf, benthyca ac ad-dalu dyled.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r strategaethau yn darparu dull yr Awdurdod o ymdrin â gwariant cyfalaf, cyllido, benthyca, buddsoddi, ac isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer 2026/27.
- 3 Maent yn sicrhau y cydymffurfir â Deddf Llywodraeth Leol 2003, Cod Materion Ariannol CIPFA, a Chod Rheoli Trysorlys CIPFA.
- 4 Nodir y goblygiadau ariannol, y dangosyddion darbodus, y trefniadau llywodraethu, a'r dull rheoli risg ar gyfer 2026/27 yn yr adroddiadau cysylltiedig.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 5 Cafodd y strategaethau eu craffu gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2026. Nododd yr aelodau'r gofyniad statudol ar gyfer y strategaethau a chymeradwyo'r argymhelliad i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

ARGYMHELLION

- 6 Gofynnir i'r Aelodau:
 - i) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf;
 - ii) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion darbodus; a
 - iii) Cymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol 2026/27.

CEFNDIR

- 5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bob blwyddyn gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a Datganiad MRP. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf hirdymor yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, a bod gweithgareddau benthyca a buddsoddi yn cael eu rheoli o fewn fframwaith rheoli cadarn.

GWYBODAETH

- 6 Mae'r Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth), a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf a ragwelir ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a gofynion ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys, am y 3 blynedd nesaf.
- 7 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi gwariant cyfalaf arfaethedig, ffynonellau cyllido, a blaenoriaethau buddsoddi hirdymor.
- 8 Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn amlinellu'r dull o ymdrin â benthyca, buddsoddiadau, rheoli llif arian, a dangosyddion darbodus cysylltiedig.
- 9 Mae'r Datganiad MRP yn cadarnhau'r dull ar gyfer cyfrifo'r tâl darbodus i reffeniw ar gyfer ad-dalu dyled.
- 10 Darperir yr holl fanylion ategol yn yr adroddiadau llawn sydd ynghlwm.

GOBLYGIADAU

| | |
|--------------------------------------|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r strategaethau yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor trwy sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn galluogi darparu gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. |
| Cyllideb | Mae costau ariannu sy'n deillio o fenthyca a MRP wedi'u hadlewyrchu yng nghyllideb reffeniw 2026/27. |
| Cyfreithiol | Mae'r strategaethau yn bodloni gofynion statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chodau CIPFA perthnasol. |
| Staffio | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol. |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27

*ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING*

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Datganiad Strategaeth a Chynllun Rheoli'r Trysorlys 2026/27 | 3 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyd-destun Allanol | 4 |
| Cyd-destun Lleol | 4 |
| Strategaeth Fenthyca | 6 |
| Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys | 8 |
| Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys | 10 |
| Materion Perthnasol | 11 |
| Goblygiadau Ariannol | 12 |
| Opsiynau Eraill a Ystyrir | 12 |
| Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose – Chwefror 2026 | 13 |
| Atodiad B – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru | 15 |
| Atodiad C – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru | 15 |
| Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2026/27 | 17 |
| Cyflwyniad | 17 |
| Gwariant Cyfalaf ac Ariannu | 17 |
| Rheoli Trysorlys | 19 |
| Ymrwymadau | 21 |
| Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw | 21 |
| Gwybodaeth a Sgiliau | 22 |
| Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw 2026/27 | 23 |



Datganiad Strategaeth a Chynllun Rheoli'r Trysorlys 2026/27

Cyflwyniad

Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Awdurdod, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Awdurdod wedi benthycu symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddiwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae dynodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus yr Awdurdod.

Mae rheoli risg trysorlys yn yr Awdurdod yn cael ei wneud o fewn fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Argraffiad 2021* (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2019 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau LIC.

Strategaeth ddiwygiedig: Yn unol â Chanllawiau LIC, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig os bydd y tybiaethau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod neu yn lefel ei falans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r broses paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd y flwyddyn.

Cyd-destun Allanol

Cefndir economaidd: Disgwylir y bydd y canlynol ymhlith yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ar strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2026/27: dylanwad Cyllideb Hydref 2025 y llywodraeth; cyfraddau llog tymor byr is ynghyd â chyfraddau tymor canolig a hirdymor uwch; twf economaidd arafach, ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynghylch yr economi fyd-eang; tueddiadau'r farchnad stoc; a materion geowleidyddol.

Fe wnaeth Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr (BoE) dorri'r Gyfradd Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025, yn ôl y disgwyl. Cafwyd pleidlais 5-4 o blaid torri, gyda'r gwrthwynebwyr o blaid cynnal y gyfradd ar 4.0%. Roedd yr aelodau a oedd o blaid torri o'r farn bod chwyddiant yn arafu, a'r rhai a oedd o blaid cynnal y Gyfradd Banc fel ag yr oedd yn dadlau bod risgiau chwyddiant yn parhau i fod yn ddigon sylweddol i beidio â newid y gyfradd ar hyn o bryd.

Rhagolygon y gyfradd llog: Cadwyd Cyfradd y Banc ar 3.75% ym mis Chwefror, ond mae toriad yn ystod Ch1 2026 yn parhau'n debygol yn dilyn safiad mwy dof gan y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Mae Arlingclose, cynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod, yn disgwyl y bydd Cyfradd y Banc yn cael ei gostwng i 3.25% erbyn canol 2026. Ceir rhagolwg manylach ar yr economi a chyfraddau llog gan Arlingclose yn Atodiad A.

At ddibenion gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd / cynnyrch cyfartalog o 3.95%, ac y bydd benthyciadau hirdymor newydd yn cael eu benthycia ar gyfradd gyfartalog o 4.61%.

Cyd-destun Lleol

Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan yr Awdurdod £14.30m o fenthyciadau a £1.96m o fuddsoddiadau trysorlys. Mae hyn wedi'i nodi mewn mwy o fanylder yn **Atodiad B**. Dangosir y newidiadau a ragwelir yn y symiau hyn yn y dadansoddiad mantolen yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb a rhagolwg o'r fantolen

| | 31.3.25 Gwirioneddol £m | 31.3.26 Amcangyfrif £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|--|--|---|--|--|--|
| Gofyniad ariannu cyfalaf | 31.00 | 35.20 | 39.50 | 46.40 | 49.80 |
| Llai: Rhwymedigaethau dyledion eraill * | | | | | |
| CFR Benthyciadau | 31.00 | 35.20 | 39.50 | 46.40 | 49.80 |
| Llai: Benthycia allanol ** | -19.10 | -14.30 | -12.10 | -10.30 | -9.10 |
| Benthycia mewnol | 11.90 | 20.90 | 27.40 | 36.20 | 40.70 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -14.50 | -21.00 | -17.50 | -17.00 | -16.50 |
| Buddsoddiadau net y Trysorlys a Benthyciadau newydd | 2.50 | 0.10 | -9.90 | -19.10 | -24.20 |

* prydlesi a rhwymedigaethau PFI sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyledion yr Awdurdod

** yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt ac yn eithrio ailariannu dewisol

Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r symiau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewanol.

Mae gan yr Awdurdod CFR cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ond ychydig iawn o fuddsoddiadau ac felly bydd gofyn iddo fenthyca hyd at £24.2m dros y cyfnod a ragwelir.

Mae *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* y CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyled yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf a ragwelir dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2026/27.

Meincnod atebolrwydd: Er mwyn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod atebolrwydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon â thabl 1 uchod, ond bod balansau arian parod a buddsoddiad yn cael eu cadw i isafswm o £2m ar ddiwedd pob blwyddyn i gynnal hylifedd digonol ond lleihau risg credyd.


Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny. Mae'r meincnod atebolrwydd ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gael i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a referniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod atebolrwydd

| | 31.3.25 Gwirioneddol £m | 31.3.26 Amcangyfrif £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|----------------------------------|--|---------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| CFR Benthyciadau | 31.00 | 35.20 | 39.50 | 46.40 | 49.80 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -14.50 | -21.00 | -17.50 | -17.00 | -16.50 |
| Gofyniad benthyciadau net | 16.60 | 14.10 | 22.00 | 29.40 | 33.30 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| Meincnod atebolrwydd | 18.60 | 16.10 | 24.00 | 31.40 | 35.30 |

Yn dilyn y rhagolygon tymor canolig sydd yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf cronol yn cael ei ariannu drwy fenthyca £22.0m yn 2026/27, £29.4m yn 2027/28 a £33.3m yn 2028/29.

Mae'r darpariaeth isafswm referniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar eu hoes ased ar gyfer y dosbarth asedau ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:



Bydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn fenthyciwr gan nad yw'r awdurdod yn dal buddsoddiadau na chronfeydd wrth gefn i ariannu'r cynllun cyfalaf. Mae'r llinell las yn dynodi'r angen i ariannu gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthycia.

Strategaeth Fenthyca

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod £14.30 m o fenthyciadau, gostyngiad o £4.77 miliwn ar y balans ar 31 Mawrth 2025, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol. Mae rhagolwg y fantolen yn nhabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl benthycia hyd at £9.90m yn 2026/27. Gall yr Awdurdod hefyd fenthyca symiau ychwanegol i ragariannu gofynion blynyddoedd i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthycia, sef £35.30m.

Amcanion: Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chael sicrwydd ynghylch y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

Strategaeth: O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn arbennig i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion. Mae cyfraddau llog tymor byr wedi gostwng

dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae disgwyliad iddyn nhw ostwng ychydig eto. O ganlyniad, mae hi'n debygol o fod yn fwy cost-efeithiol dros y tymor canolig naill ai i ddefnyddio adnoddau mewnol neu i gael benthyciadau tymor byr. Bydd risgiau'r dull hwn yn cael eu rheoli trwy gadw amlygiad yr Awdurdod i gyfraddau llog o fewn y terfyn a osodwyd yn y dangosyddion darbodus rheoli trysorlys, gweler isod.

Drwy wneud hynny, mae'r Awdurdod yn gallu lleihau costau benthycia net a lleihau risg gyffredinol y trysorlys. Bydd manteision benthycia tymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer ysgwyddo costau ychwanegol drwy ohirio benthycia i'r blynyddoedd i ddod pan ragwelir y bydd cyfraddau benthycia hirdymor yn codi'n gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r dadansoddiad 'cost cario' ac adennill costau hwn. Gall ei allbwn benderfynu a fydd yr Awdurdod yn benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2026/27 gyda'r bwriad o gadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr.

Mae'r Awdurdod eisoes wedi codi ei holl fenthyciadau hirdymor oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ond bydd yn ystyried benthyciadau hirdymor o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, er mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell ariannu yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi ar gyfer arenillion yn bennaf; mae'r Awdurdod yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn parhau i gael mynediad at fenthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

Fel arall, gall yr Awdurdod drefnu benthyciadau cychwyn ymlaen llaw, lle mae'r gyfradd llog wedi'i gosod ymlaen llaw, ond bod yr arian parod yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd diweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost heb ddiodef cost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal, gall yr Awdurdod fenthycia rhagor o fenthyciadau tymor byr i dalu am brinder llif arian nas cynlluniwyd.

Ffynonellau benthycia: Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthycia hirdymor a byrdymor yw:

- cyfleuster benthycia Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus Trysorlys EF (y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn y gorffennol)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall a awdurdodwyd i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Clwyd - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)
- cwmnïau pwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyflenwi bondiau awdurdodau lleol

Ffynonellau cyllid dyled eraill: Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf trwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- prydlesu
- gwerthu ac adlesu
- cyllid tebyg sy'n seiliedig ar asedau

Benthyciadau byrdymor a chyfradd amrywiol: Mae'r benthyciadau hyn yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o godiadau cyfradd llog tymor byr ac felly maent yn amodol ar y terfynau cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli'r risg cyfradd llog hon (gweler yr adran isod).

Aildrefnu dyled: Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd a thalu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau adbrynu cynamserol. Gall yr Awdurdod fanteisio ar hyn a rhoi benthyciadau newydd yn lle rhai benthyciadau, neu ad-dalu benthyciadau heb eu disodli, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai mwy o gyfleoedd ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad trysorlys yr Awdurdod wedi amrywio rhwng £1.034m a £13.733m.

Amcanion: Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LLC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarvoudus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion neu'r arenillion uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdlu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel. Lle y disgwylir buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu i sicrhau cyfanswm elw sy'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol neu'n uwch na hynny, er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddiwyd. Nod yr Awdurdod yw bod yn fuddsoddwyr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

Strategaeth: Fel y dangosir gan y meincnod atebolrwydd uchod, nid yw'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys newydd yn cael eu gwneud yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

Polisi ESG: Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn ffactor cynyddol wrth i fuddsoddwyr byd-eang wneud penderfyniadau, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu ac felly nid yw polisi ESG yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnwys sgoriau ESG neu feini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Net Sero a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

Gwrthbartion cymeradwy: Gall yr Awdurdod fuddsoddi ei arian dros ben gydag unrhyw un o'r gwrthbartion yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau a ddangosir.

Tabl 3: Gwrthbartion a therfynau buddsoddi'r trysorlys

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|--|--------------|-------------------|---------------|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | amherthnasol |
| Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth | 25 mlynedd | £2m | Diderfyn |
| Banciau (anwarantedig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |

| | | | |
|---|--------------|-----|----------|
| Cymdeithasau adeiladu (anwarantedig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Darparwyr cofrestredig (anwarantedig) * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |
| Cronfeydd marchnad arian * | amherthnasol | £1m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |

Mae'n rhaid darllen y tabl hwn ar y cyd â'r nodiadau isod

*** Isafswm sgôr credyd:** Bydd buddsoddiadau'r trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A-. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddsbarth penodol o fuddsoddiad. Fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

Llywodraeth y DU: Buddsoddiadau mewn sterling gyda neu a warentir yn benodol gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Cyfleuster Adneuo Cyfrif Banciau a Rheoli Dyledion, biliau'r trysorlys a giltiau. Ystyrir bod y rhain yn sero risg credyd oherwydd gallu'r llywodraeth i greu arian cyfred ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth: Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol eraill, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun mechnïo (*bail-in*), ac yn gyffredinol mae'r risg ansolfedd yn is, er nad ydynt yn risg sero.

Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (anwarantedig): Cyfrifon, adneuron, tystysgrifau adneuron a bondiau diwarant uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg o golli credyd drwy fechnïo (*bail-in*) pe bai'r rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

Cronfeydd marchnad arian: Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod neu'n fyr rybudd ac ansefydlogrwydd isel iawn neu ddim o gwbl o ran prisiau drwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddynt y fantais dros gyfrifon banc o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfeydd proffesiynol yn gyfnewid am ffi fach. Er nad oes terfyn sector yn berthnasol i gronfeydd y farchnad arian, bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylifol ar draws amrywiaeth o ddarparwyr er mwyn sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

Buddsoddiadau eraill: Mae'r categori hwn yn cwmpasu buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol diwarant a benthyciadau diwarant i gwmnïau a phrifysgolion. Ni ellir rhoi '*bail-in*' i gwmnïau nad ydynt yn fanciau ond gallant fynd yn fethdalwyr gan roi buddsoddiad yr Awdurdod mewn perygl.

Cyfrifon banc gweithredol: Gall yr Awdurdod achosi datguddiadau gweithredol, er enghraifft drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr, i unrhyw fanc yn y DU sydd â statws credyd heb fod yn is na BBB- ac sydd ag asedau sy'n fwy na £25 biliwn. Nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau ond maent yn dal i fod yn agored i risg o fechnïaeth banc, ac felly bydd balansau'n cael eu cadw o dan £5m fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan, os bydd methiant, bod banciau ag asedau o fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o gael eu hachub drwy fechnïaeth (*bailed-in*) na'u gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r siawns y bydd yr Awdurdod yn cynnal parhad gweithredol.

Aseiad risg a statws credyd: Caiff statws credyd ei sicrhau a'i fonitro gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, a fydd yn rhoi gwybod am newidiadau mewn graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Rhestrir yr asiantaethau statws credyd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys. Pan fo statws credyd endid wedi'i israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- bydd buddsoddiadau presennol y gellir eu hadalw neu eu gwerthu heb unrhyw gost yn cael eu hadalw neu eu gwerthu, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti y'r effeithir arno.

Pan fydd asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "wylidwriaeth negyddol") fel y gall ddisgyn yn is na'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw tan cyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dynodi cyfeiriad hirdymor yn hytrach na newid graddfa sydd ar fin digwydd.

Agweddau ar enw da: Mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gallai buddsoddiad gyda rhai gwrthbartion, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

Rheoli hylifedd: Mae'r Awdurdod yn cynnal rhagolygon llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarvoudus ar ei gyfer. Mae'r rhagolwg yn cael ei lunio ar sail ddarvoudus i leihau'r risg y bydd yr Awdurdod yn cael ei orfodi i fenthycu ar delerau anffafriol i gwrdd â'i ymrwymadau ariannol. Mae terfynau ar fuddsoddiadau hirdymor yn cael eu gosod trwy gyfeirio at gynllun ariannol tymor canolig yr Awdurdod a rhagolwg llif arian.

Bydd yr Awdurdod yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf ddau ddarparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod modd cael mynediad at arian parod os bydd anawsterau gweithredol gydag unrhyw un darparwr.

Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Diogelwch: Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau credyd drwy fonitro statws credyd cyfartalog ei bortffolio buddsoddiadau, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth. Mae hyn yn cael ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifydddeg, wedi'i bwysoli gan faint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt wedi eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | |
|------------------------------|---------------|
| Dangosydd risg credyd | Targed |
| Credyd cyfartalog portffolio | A |

Hylifedd: Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau hylifedd trwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn pob cyfnod treigl o dri mis, heb fenthycia ychwanegol.

| | |
|---|---------------|
| Dangosydd risg hylifedd | Targed |
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £2m |

Amlygiad i gyfraddau llog: Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risgiau cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog fydd:

| | |
|---|---------------|
| Dangosydd risg cyfraddau llog | Terfyn |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | -£0.030m |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog | £0.030m |

Cyfrifir effaith newid mewn cyfraddau llog ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu disodli gan rai ar gyfraddau marchnad newydd.

Strwythur aeddfedrwydd benthyciadau: Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthycia fydd:

| Dangosydd risg cyfradd ailariannu | Terfyn uchaf | Terfyn isaf |
|--|---------------------|--------------------|
| O dan 12 mis | 30% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 30% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 40% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 30% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

Materion Perthnasol

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

Deilliadau ariannol: Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, rhagolygon, blaendrafodion ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, a bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

Cyfarwydddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol: Mae'r Awdurdod wedi cadw statws cleient manwerthu gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid

a rheolwyr cronfeydd, gan ganiatáu iddo gael mynediad at ystod lai o wasanaethau ond gyda'r diogelwch rheoleiddiol ehangach a roddir i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod, mae swyddogion yr Awdurdod o'r farn mai dyma'r statws mwyaf priodol.

Canllawiau'r Llywodraeth: Mae materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllawiau LLC wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod bortffolio buddsoddi ac felly nid oes ganddo gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi. Mae'r unig incwm a gynhyrchir yn ymwneud â chadw arian parod sy'n weddill dros nos, ac mae cyllideb o £0.037m wedi'i gosod ar ei gyfer ar gyfer 2026/27.

Y gyllideb ar gyfer llog dyled a dalwyd yn 2026/27 yw £0.876m, yn seiliedig ar bortffolio dyled cyfartalog o £21.224m ar gyfradd llog gyfartalog o 3.95%. Os bydd lefelau gwirioneddol buddsoddiadau a benthycia, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, bydd perfformiad yn erbyn y gyllideb yn gyfatebol wahanol.

Opsiynau Eraill a Ystyrir

Nid yw Canllawiau LLC na Chod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Cred Trysorydd yr Awdurdod fod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg ac effeithiolrwydd cost. Mae rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi'u rhestru isod.

| Amgen | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|--|--|
| Buddsoddi mewn ystod fwy cyfyng o wrthbartion a/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o siawns o golledion o ganlyniad i ddiffyg dalu'n ymwneud â chredyd, er gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn fwy |
| Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartion a/neu am gyfnodau hwy | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffyg dalu'n ymwneud â chredyd, ond gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn llai |
| Benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog ar ddyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwysu hyn gan incwm buddsoddi uwch | Cydbwysedd buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith yn achos diffyg dalu; fodd bynnag gallai costau llog hirdymor fod yn fwy sicr |
| Benthyciadau byrdymor neu amrywiol yn lle rhai â chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael ei wrthbwysu i raddau gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall y costau hirdymor fod yn llai sicr |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae arbedion ar log dyledion yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Llai o gydbwysedd buddsoddi yn arwain at effaith is os bydd diffyg dalu; fodd bynnag gall costau llog hirdymor fod yn llai sicr |

Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose – Chwefror 2026

Tybiaethau sylfaenol:

- Er i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) gydymffurfio â disgwyliadau eang y farchnad drwy gadw Cyfradd y Banc heb ei newid ar 3.75% ym mis Chwefror, arweiniodd y naws bendant o ysgafnhau polisi a fabwysiadwyd wrth gyhoeddi'r penderfyniad at ailasesu disgwyliadau cyfraddau llog gan fuddsoddwyr. Pleidleisiodd pedwar aelod o'r Pwyllgor o blaid gostwng cyfraddau, ac awgrymodd dau arall o'r mwyafrif cul oedd o blaid cadw'r gyfradd fel ag yr oedd y byddent yn debygol o gefnogi toriad yn fuan.
- Bydd polisiau'r Gyllideb a'r effeithiau sylfaenol yn lleihau cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn fecanyddol yn 2026, yn ychwanegol at y pwysau i lawr sy'n deillio o dwf economaidd gwan a marchnad lafur llacach. Ar ôl adolygu dadansoddiad newydd ar dwf cyflogau, mae'n ymddangos bod mwy o lunwyr polisi bellach o'r farn y bydd twf cyflogau uchel yn lleihau wrth i'r farchnad lafur barhau i wanhaus, gan danseilio'r pryderon blaenorol ynghylch parhad chwyddiant. Er bod disgwyliadau chwyddiant aelwydydd yn parhau'n gymharol uchel, mae consensws cynyddol y bydd y rhain yn lleddfu wrth i chwyddiant penawdol ddychwelyd at y targed, yn unol â phrofiad hanesyddol. Mae hyn yn dod â safbwynt y Pwyllgor yn nes at ein barn ni.
- Mae rhywfaint o ddata economaidd wedi bod yn gryfach na'r disgwyl, megis twf GDP ym mis Tachwedd a datganiadau diweddar y PMI. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dilyn cyfnod hir o wendid cyson ers Ch1 2025, pan gafodd twf GDP ei gefnogi gan fuddsoddi a gwariant ymlaen llaw cyn cyhoeddiadau tariffau Trump. Er y gallai data gweithgarwch fod yn sefydlogi, nid yw hyn yn ymddangos yn arwain at fwriadau recriwtio cryfach, gyda thystiolaeth arolwg yn awgrymu bod busnesau'n parhau i leihau niferoedd staff. Bydd hyn yn arwain at wendid pellach mewn gwariant wrth i aelwydydd barhau i fabwysiadu agwedd ofalus.
- Mae'r risgiau i ragolygon twf a chwyddiant yn pwysu i'r cyfeiriad i lawr, a allai, yn y pen draw, arwain at Gyfradd Banc is na'r achos canolog a ragwelir gennym. Serch hynny, mae'r trothwy ar gyfer toriadau pellach y tu hwnt i 3.25% yn gymharol uchel, gan y bydd llunwyr polisi'n dod yn fwy gofalus wrth i bolisi ariannol lacio ymhellach.
- Mae symudiadau diweddar wedi arwain at gromlin cynnyrch serthach, wrth i fuddsoddwyr brisio llwybr is ar gyfer cyfraddau tymor byr. Fodd bynnag, bydd lefelau uchel o fenthyca parhaus ar draws economïau datblygedig, perfformiad cymharol gryfach economi'r Unol Daleithiau, symudiad Swyddfa Rheoli Dyledion y DU (DMO) tuag at gyhoeddi mwy o giltiau tymor byr, ac amheuan parhaus ynghylch cynlluniau cyllidol y llywodraeth, yn cadw cynnyrch tymor byr i ganolig uwch na'r lefelau a awgrymir gan ddisgwyliadau cyfraddau llog y DU yn unig.
- At hynny, er bod y ffocws wedi symud yn ddiweddar i ffwrdd oddi wrth sefyllfa gyllidol llywodraeth y DU, gallai newidiadau posibl yn yr arweinyddiaeth wleidyddol arwain at lwybr uwch ar gyfer cynnyrch giltiau pe bai tîm newydd yn mabwysiadu agwedd llai cadarn o ran disgyblaeth gyllidol.

Rhagolwg:

- Cafodd Cyfradd y Banc ei gynnal ar 4.0% ym mis Tachwedd. Rydym yn parhau i ragweld toriad o 0.25% yn y gyfradd ym mis Rhagfyr, i 3.75%.

- Mae Cyllideb y DU yn drobwynt a allai newid y rhagolygon cyfradd llog yn sylweddol. Byddwn yn adolygu ein rhagolwg cyfradd llog ymhellach ar ôl y digwyddiad hwn; os yw'n cyd-fynd â'n disgwyliadau, bydd ein rhagolwg canolog ar gyfer Cyfradd Banc yn debygol o ostwng o dan 3.75%.
- Mae cynnyrch byr wedi gostwng i adlewyrchu llwybr is ar gyfer Cyfradd y Banc.
- Mae cynnyrch gilt tymor canolig a hirdymor hefyd wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn uchel am wahanol resymau, rhai domestig yn ogystal â rhyngwladol. Efallai na fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn gyflym, ond bydd Cyllideb y DU yn sbardun allweddol i'r farchnad.

| | Current | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 | Dec-26 | Mar-27 | Jun-27 | Sep-27 | Dec-27 | Mar-28 | Jun-28 | Sep-28 | Dec-28 |
|----------------------------------|---------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central Case | 3.75 | 3.50 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central Case | 3.79 | 3.55 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.35 | 3.35 | 3.35 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 3.91 | 3.85 | 3.80 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.80 | 3.80 | 3.80 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 4.54 | 4.40 | 4.35 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.35 | 4.35 | 4.35 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 5.24 | 5.10 | 5.05 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.00 | 5.05 | 5.05 | 5.05 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 4.90 | 4.80 | 4.75 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.70 | 4.75 | 4.75 | 4.75 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |

PWLB Standard Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 1.00%; PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%
 PWLB HRA Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.40%; National Wealth Fund Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.40%

Cyfradd safonol PWLB = Arenillion giltiau + 1.00%

Cyfradd sicrwydd PWLB = Arenillion giltiau + 0.80%

Cyfradd HRA PWLB = Arenillion giltiau + 0.40%

Cyfradd y Gronfa Gyfoeth Genedlaethol (NWF) = Cynnyrch gilt + 0.40%

Atodiad B – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

| | Ionawr-26 Gwirioneddol Gwirioneddol £m | Ionawr-26 Cyfradd Gyfartalog % |
|---|--|--------------------------------------|
| Benthyca allanol: Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus Awdurdodau Lleol Cyfanswm y benthyca | 14.80 14.80 | 3.92% |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill: Lesoedd Cyllid Cyfanswm dyled allanol gros | 0.00 14.80 | |
| Buddsoddiadau trysorlys Llywodraeth y DU Banciau (ansicredig) Cyfanswm buddsoddiadau'r trysorlys | 2.10 1.03 3.13 | |
| Dyled Net | 11.67 | |

Atodiad C – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllawiau Buddsoddi diwygiedig yn Nhachwedd 2019 sydd yn gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys yr Awdurdod hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

Cyfraniad: Mae buddsoddiadau'r Awdurdod yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaethau a/neu hyrwyddo lles fel a glyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,

Newid hinsawdd: Mae penderfyniadau buddsoddi'r Awdurdod yn ystyried risgiau hirdymor i'r hinsawdd er mwyn cefnogi economi carbon isel i'r graddau y bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Net Sero a/neu Côt Stiwardiaeth y DU.

Buddsoddiadau penodol: Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodol fel rhai:

- a fynegir mewn punnoedd sterling,
- sydd i fod i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant oni bai bod y gwrthbarti'n awdurdod lleol,
- nas diffinnir fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, ac

- a fuddsoddir gydag un o'r canlynol:

- ◊ Llywodraeth y DU
- ◊ awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, neu
- ◊ gorff neu gynllun buddsoddi ag "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliad a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â statws credyd A- neu uwch sydd yn hanu o'r DU neu wlad dramor gyda sgôr sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd y farchnad arian a chronfeydd cronedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â sgôr credyd o A- neu uwch.

Benthyciadau: Mae Canllawiau LLC yn diffinio benthyciad fel cytundeb llafar neu ysgrifenedig pan fo'r awdurdod yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, menter ar y cyd, is-endid neu gyswllt sydd yn cytuno ar ad-daliad yn unol â thelerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan mai awdurdod lleol arall yw'r trydydd parti.

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau ym mherchnogaeth lwyf a mentrau ar y cyd.

Buddsoddiadau amhenodol: Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau amhenodol.

Buddsoddiadau nad ydynt yn ariannol: Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau nad ydynt yn ariannol.

Ymgynghorwyr buddsoddi: Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae ansawdd y gwasanaethau hyn yn cael ei reoli drwy adolygu mewnol.

Capasiti a sgiliau: Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff proffesiynol cymwys a phrofiadol mewn swyddi uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthycia a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Trysorydd, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gyfrifwyr cymwys sydd â blynyddoedd lawer o brofiad.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflogi Arlingclose Limited fel cynghorwyr rheoli trysorlys. Mae'r dull hwn yn fwy cost-ffeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i barodrwydd i dderbyn risg.

Mae Arlingclose wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio, sydd â chyfrifoldeb am adolygu gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

Llywodraethiant corfforaethol: Adroddir ar holl weithgarwch y trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân, bob chwarter. Cyflwynir yr adroddiadau gan y Trysorydd neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid & Adnoddau). Caiff yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, yn dilyn y cyflwyniadau.

Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2026/27

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd â throsolwg o sut y rheolir y risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae wedi'i ysgrifennu yn syml er mwyn ei gwneud yn haws i aelodau ddeall y meysydd hyn a all fod yn dechnegol ar brydiau.

Bydd penderfyniadau a wneir eleni ar reoli cyfalaf a thrysorlys yn arwain at ganlyniadau ariannol i'r Awdurdod am flynyddoedd lawer yn y dyfodol. O ganlyniad, maen nhw'n ddarostyngedig i fframwaith rheoleiddio cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o hynny.

Gwariant Cyfalaf ac Ariannu

Gwariant cyfalaf yw pan fydd yr Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis tir, eiddo, offer neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwariant ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, yn ogystal â benthyciadau a grantiau i gyrff eraill sy'n eu galluogi i brynu asedau.

O ran gwariant cyfalaf 2026/27, mae'r Awdurdod yn bwriadu gwario £6.661m ar wasanaethau'r Gronfa Gyffredinol a £2.100m ar Hwb Awen (Canolfan Hyfforddi). Mae hyn yn cael ei ddangos isod:

Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau

| | 2024/25 Gwirioneddol | Blaenamcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|-----------------------------------|-------------------------|-----------------------|---------------------|---------------------|---------------------|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 3.821 | 6.103 | 6.661 | 9.654 | 7.200 |
| Hwb Awen | 2.714 | 1.333 | 2.265 | 20.564 | 24.748 |
| Cyfanswm | 6.535 | 7.436 | 8.926 | 30.218 | 31.948 |

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn cynnwys: prosiectau adeiladu; y fflyd, gan gynnwys cerbydau arbenigol; offer; technoleg gwybodaeth; a gweithgareddau datgarboneiddio. Mae'r bwriad i adeiladu canolfan hyfforddi ganolog, Hwb Awen, wedi'i gynnwys ar wahân. Cafodd yr Awdurdod Tân gymeradwyaeth i gwblhau gwaith galluogi, ond mae angen cymeradwyaeth derfynol a chyllid ar gyfer cyfnod adeiladu 2027/28 ymlaen.

Llywodraethiant: Erbyn mis Medi bob blwyddyn, mae rheolwyr yn cyflwyno ceisiadau i gynnwys prosiectau yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Y Pennaeth Cyllid sy'n casglu'r cynigion ac yn cyfrifo'r cyllid angenrheidiol a'r gost i'w cynnwys o fewn rhagdybiaethau gosod cyllideb. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn gwerthuso pob cais trwy gymharu blaenoriaethau strategol ac amcanion adrannol, materion lliniaru risg, a'r effaith yn erbyn lles cenedlaethau'r dyfodol, ac yna maen nhw'n gwneud

argymhellion o ran pa gynlluniau i'w cynnwys yn y cynllun cyfalaf. Yna, caiff y rhaglen gyfalaf derfynol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ym mis Rhagfyr, ac i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Ionawr bob blwyddyn.

- Mae manylion llawn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod i'w cael yn yr Adroddiad MTRS

Rhaid i'r holl wariant cyfalaf gael ei ariannu, naill ai o ffynonellau allanol (grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill), neu adnoddau'r Awdurdod ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbynion cyfalaf), neu ddyled (benthycu, prydlesu a Menter Cyllid Preifat). Mae'r cyllid a gynlluniwyd ar gyfer y gwariant uchod fel a ganlyn:

Tabl 2: Cyllid cyfalaf mewn £ miliynau

| | 2024/25 Gwirioneddol | Blaenamcan 2025/26 | Cyllideb * 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|---------------------|---------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0.049 | 1.379 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau refeniw | 1.459 | 1.451 | 1.000 | 1.250 | 1.500 |
| Dyled | 4.108 | 3.746 | 6.139 | 8.404 | 5.700 |
| Grantiau | 0.918 | 0.860 | 0.500 | 20.564 | 24.748 |
| Cyfanswm | 6.535 | 7.436 | 8.926 | 30.218 | 31.948 |

Mae'r ddyled a'r Grant uchod yn cynnwys y ganolfan hyfforddi newydd, fel y manylir yn Nhabl 1.

Dim ond ffynhonnell gyllid dros dro yw dyled, gan fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau a phrydlesi, ac felly caiff hyn ei ddisodli dros amser gan gyllid arall, fel arfer o refeniw a elwir yn ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP). Fel arall, gellir defnyddio'r elw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbynion cyfalaf) i gymryd lle cyllid dyled. Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw a'r defnydd o dderbynion cyfalaf a gynlluniwyd fel a ganlyn:

Tabl 3: Amnewid cyllid dyledion blynyddoedd blaenorol mewn £ miliynau

| | 2024/25 Gwirioneddol | Blaenamcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|-----------------------------------|---------------------------------|-------------------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) | 1.957 | 2.015 | 2.241 | 2.564 | 2.944 |
| Derbynion Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 1.957 | 2.015 | 2.241 | 2.564 | 2.944 |

- Mae datganiad darpariaeth isafswm refeniw llawn yr Awdurdod ar gael fel rhan o'u Strategaeth Rheoli Trysorlys

Mae swm cronol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y gofyniad ariannu cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gyda darpariaeth isafswm refeniw a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir i'r CFR gynyddu £4.30m yn ystod 2026/27. Yn seiliedig ar y ffigurau uchod ar gyfer gwariant ac ariannu, amcangyfrifir bod CFR yr Awdurdod fel a ganlyn:

Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Ofyniad Ariannu Cyfalaf mewn £ miliynau

| | 2024/25 Gwirioneddol | Blaenamcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|-----------------------------------|-------------------------|-----------------------|---------------------|---------------------|---------------------|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 31.00 | 35.20 | 39.50 | 46.40 | 49.80 |

Nid yw'r ddyled uchod yn cynnwys y ganolfan hyfforddi newydd, fel y manylir yn Nhabl 1, gan fod disgwyliad iddi gael ei hariannu gan gyllid grant yn llwyr.

Rheoli Asedau: Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd yn y tymor hir, mae'r Awdurdod yn datblygu strategaeth Ystadau.

Gwarediadau asedau: Pan nad oes angen ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu fel y gellir gwario'r enillion, a elwir yn dderbynion cyfalaf, ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn cynhyrchu derbynion cyfalaf. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu cael unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Rheoli Trysorlys

Mae rheoli trysorlys yn ymwneud â chadw digon o arian parod, ond nid gormod, ar gael i ddiwallu anghenion gwario'r Awdurdod, gan reoli'r risgiau dan sylw ar yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys rheoli benthycia i ariannu gwariant cyfalaf yn ogystal â rheoli arian parod refeniw o ddydd i ddydd. Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi hyd nes y bydd ei angen, tra bydd prinder arian yn cael ei ddatrys drwy fenthycia, er mwyn osgoi balans credyd neu orddrafft gormodol yn y cyfrif cyfredol yn y banc. Mae'r Awdurdod fel arfer â digon o arian yn y tymor byr gan fod incwm refeniw yn cael ei dderbyn cyn iddo gael ei wario. Serch hynny, does dim digon o arian yn y tymor hir gan fod gwariant cyfalaf yn cael ei wario cyn cael ei ariannu. Mae'r gwargedau arian refeniw yn cael eu gwrthbwysu yn erbyn diffygion arian cyfalaf er mwyn lleihau benthycia cyffredinol.

Oherwydd penderfyniadau'r gorffennol, ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi benthycy £14.80m ar gyfradd llog gyfartalog o 3.92%.

Strategaeth fenthycia: Prif amcanion yr Awdurdod wrth fenthycy yw sicrhau cyllid ar gost isel ond penodol, gan gadw hyblygrwydd pe bai cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn aml yn gwrthdaro, ac felly mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng benthyciadau tymor byr rhatach a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

Nid yw'r Awdurdod yn benthycia i fuddsoddi â'r prif ddiben o sicrhau enillion ariannol, ac felly mae'n cadw mynediad llawn i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn dangos rhagamcan o gyfanswm y dyledion sy'n weddill gan yr Awdurdod (gan gynnwys benthycia, rhwymedigaethau PFI, prydlesi a dyled wedi'i throsglwyddo) ac yn ei gymharu â'r gofyniad ariannu cyfalaf (gweler uchod).

Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf mewn £ miliynau

| | 31.3.2025 Gwirioneddol | Blaenamcan 31.3.2026 | * Cyllideb 31.3.2027 | * Cyllideb 31.3.2028 | * Cyllideb 31.3.2029 |
|------------------------------------|-----------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|---------------------------------|
| Dyled (gan gynnwys Lesoedd Cyllid) | 19.07 | 14.26 | 22.12 | 24.92 | 33.55 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 31.00 | 35.20 | 39.50 | 46.40 | 49.80 |

*Mae'r ddyled a'r Grant uchod yn cynnwys y ganolfan hyfforddi newydd, fel y manylir yn Nhabl 1. Tybir y bydd y cyfnod adeiladu yn cael ei ariannu'n llawn gan grantiau.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir o dabl 6, mae'r Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

Meincnod atebolrwydd: Er mwyn cymharu benthycia gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod atebolrwydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthycia. Mae hyn yn tybio bod balansau arian a buddsoddi yn cael eu cadw i isafswm o £2m ar ddiwedd pob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r meincnod hwn yn £16.10m a rhagwelir y bydd yn codi i £35.30m dros y tair blynedd nesaf.

Nid yw'r meincnod atebolrwydd yn cynnwys cost adeiladu ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

Tabl 7: Benthycia a'r Meincnod Atebolrwydd mewn £ miliynau

| | 31.3.2025 Gwirioneddol | Blaenamcan 31.3.2026 | Cyllideb 31.3.2027 | Cyllideb 31.3.2028 | Cyllideb 31.3.2029 |
|----------------------|-----------------------------------|---------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|
| Benthyciadau Dyledus | 19.07 | 14.26 | 22.12 | 24.92 | 33.55 |
| Meincnod atebolrwydd | 18.60 | 16.15 | 23.98 | 31.41 | 35.33 |

Mae'r tabl yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl y bydd ei fenthyciadau yn aros o dan ei feincnod atebolrwydd.

Terfyn benthycia fforddiadwy: Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod terfyn benthycia fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd yn cael ei gosod fel lefel rhybudd pe bai'r ddyled yn nesáu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol mewn £ miliynau

| | Terfyn 2025/26 | Terfyn 2026/27 | Terfyn 2027/28 | Terfyn 2028/29 |
|---------------------------------|---------------------------|---------------------------|---------------------------|---------------------------|
| Terfyn awdurdodedig – benthycia | 30.99 | 38.12 | 42.42 | 49.32 |
| Ffin weithredol – benthycia | 28.99 | 36.12 | 39.42 | 45.32 |

- Mae rhagor o fanylion am fenthycia yn y strategaeth rheoli trysorlys.

Strategaeth fuddsoddi'r Trysorlys: Mae buddsoddiadau trysorlys yn deillio o dderbyn arian cyn iddo gael ei dalu allan eto. Yn gyffredinol, nid yw buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu elw ariannol pur yn cael eu hystyried yn rhan o reoli trysorlys.

Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch ac felly mae'n gosod gwarged arian parod tymor byr mewn cyfrifon banc cyfredol â llog uwch (bank call accounts) neu gyda Swyddfa Rheoli Dyledion y DU nes bod angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau o ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled.

Rheoli risg: Mae rheoli risg yn effeithiol yn un o brif amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod. Felly, mae'r strategaeth rheoli trysorlys yn nodi gwahanol ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu ar i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn eithrio gofyniad benthycy cyfnod adeiladu Hwb Awen hyd nes y ceir cadarnhad o gyllid grant llawn.

Mae'r dangosyddion darbodus a gyfer rheoli trysorlys wedi'u cynnwys yn y strategaeth rheoli trysorlys

Llywodraethiant: Mae penderfyniadau ar fuddsoddiad a benthycy rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud bob dydd, ac yn cael eu dirprwyo i Brif Swyddog Tân Cynorthwyol a swyddogion o ganlyniad. Rhaid i'r dirprwyon hyn weithredu yn unol â'r strategaeth rheoli trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod. Mae adroddiadau ar weithgarwch rheoli trysorlys yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am graffu ar benderfyniadau rheoli trysorlys.

Ymrwymadau

Efallai y bydd angen i'r Awdurdod dalu costau unrhyw newidiadau i reoliadau pensiwn diffoddwyr tân. Os na fydd cyllid ychwanegol i'w gael, bydd yn defnyddio'r gronfa bensiynau wrth gefn i reoli unrhyw dreuliau ychwanegol ac i gyfyngu ar gynnydd i'r ardoll.

Llywodraethiant: Mae'r Pennaeth Cyllid yn gwneud penderfyniadau ar ysgwyddo rhwymedigaethau disgresiynol newydd mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol. Mae'r risg o rwymedigaethau yn crisialu a'r Awdurdod yn gorfod talu amdanynt yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'i adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân. Pan fydd rhwymedigaethau newydd sy'n fwy na £1m, mae'r Awdurdod yn cael adroddiad i'w hysbysu fel y bo'n briodol.

- Mae rhagor o fanylion am rwymedigaethau i'w cael ar dudalennau 43 a 65 o [ddatganiad cyfrifon 2024/25](#)

Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw

Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac MRP yn cael ei godi ar refeniw. Gelwir y tâl blynyddol net yn gost ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r llif refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

Tabl 11: Dangosydd Darbodus: Cyfran costau ariannu i'r llif refeniw net

| | 2024/25 Gwirioneddol | Blaenamcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|---------------------------|-------------------------|-----------------------|---------------------|---------------------|---------------------|
| Costau ariannu (£m) | 3.189 | 4.407 | 4.501 | 5.200 | 5.900 |
| Cyfran y llif refeniw net | 6.48% | 8.41% | 8.16% | 9.2% | 10.0% |

- Mae rhagor o fanylion am oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf wedi'u manylu yng nghyllideb refeniw 2026/27 [yma](#).

Cynaliadwyedd: Oherwydd bod gwariant cyfalaf a phenderfyniadau ariannu yn effeithio ar gyllidebau ymhell i'r dyfodol, bydd gan wariant y blynyddoedd nesaf oblygiadau refeniw am hyd at 50 mlynedd. Mae ychwanegu'r ganolfan hyfforddi newydd yn creu heriau ariannol oherwydd ei maint a'r costau cysylltiedig; fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r effaith ar ariannu cyfalaf wedi'i gyfyngu i'r cam cyn-adeiladu, a hynny oherwydd ein bod yn ceisio grant cyfalaf llawn ar gyfer y cam adeiladu.

Gwybodaeth a Sgiliau

Mae'r Awdurdod yn ymddiried penderfyniadau cyfalaf, benthyca a buddsoddi i staff â chymwysterau proffesiynol ac sydd â phrofiad helaeth, gan gynnwys cyfrifwyr mewn swyddi allweddol, e.e. y Trysorydd a'r Pennaeth Cyllid. Mae'n cefnogi gweithwyr sy'n dilyn ardystiadau perthnasol fel CIPFA ac AAT. Mae arbenigwyr allanol yn ategu ein harbenigedd mewnol, gan gynnwys Arlingclose Limited ar gyfer rheoli trysorlys ac ymgynghorwyr Rheoli Cyfleusterau sy'n cael eu cyflogi trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae'r strategaeth hon yn gost-effeithiol ac yn sicrhau bod sylfaen sgiliau'r Awdurdod yn cyd-fynd â'i anghenion rheoli risg.

Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw 2026/27

Pan fydd yr Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf drwy ddyled, rhaid iddo neilltuo adnoddau i ad-dalu'r ddyled honno mewn blynyddoedd diweddarach. Gelwir y swm a godir ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP), er na fu isafswm statudol ers 2008. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2003* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i *Canllawiau ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw Llywodraeth Cymru* (Canllawiau LLC) a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn 2018.

Nod eang canllawiau LLC yw sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros gyfnod sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion drosto, neu, yn achos benthyca a gefnogir gan Grant Cynnal Refeniw y Llywodraeth, sy'n rhesymol gymesur â'r cyfnod sy'n ymhyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.


Mae Canllawiau LLC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Blynyddol o'r MRP bob blwyddyn ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad canlynol yn cynnwys opsiynau a argymhellir yn y Canllawiau:

- Ar gyfer gwariant cyfalaf ar ôl 31 Mawrth 2008, bydd MRP yn cael ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthnasol mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Bydd MRP ar brynu tir rhydd-ddaliadol yn cael ei godi dros 50 mlynedd. Bydd MRP ar wariant nad yw'n gysylltiedig ag asedau sefydlog ond sydd wedi'i gyfalafu gan reoleiddio neu gyfarwyddyd yn cael ei godi dros 20 mlynedd.
- Ar gyfer asedau a gaffaelwyd trwy brydlesi neu unrhyw Fenter Cyllid Preifat, bydd MRP yn cael ei bennu fel un sy'n hafal i'r elfen o'r rhent neu'r tâl sy'n mynd i ddibrisio rhwymedigaeth y fantolen.
- Lle mae prydlesi gweithredu blaenorol wedi'u dwyn i'r fantolen oherwydd mabwysiadu safon cyfrifo Prydlesi IFRS 16, a bod gwerthoedd yr asedau wedi'u haddasu ar gyfer cronïadau, rhagdaliadau, premiymau a/neu gymhellion, yna bydd y taliadau MRP blynyddol yn cael eu haddasu fel na fydd y safon newydd yn effeithio ar gyfanswm y tâl ar y gyllideb refeniw.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2026/27 yn destun tâl MRP tan 2027/28 neu'n hwyrach.

Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf yr Awdurdod o'i ofyniad ariannu cyfalaf (CFR) ar 31 Mawrth 2026, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i gosod fel a ganlyn:

| | Amcangyfrif CFR 31.03.2026 £m | Amcangyfrif MRP 2026/27 £ |
|---------------------------|--|--|
| Cronfa Gyffredinol | 35.2 | 2.2 |

| | | |
|-------------------|---|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | |
| Swyddog Cyswllt | Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael | |
| Pwnc | Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-30 | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2026–2030, gan gyflwyno i'r Aelodau y fframwaith ariannol sy'n cefnogi darpariaeth Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2024–2029 ac sy'n nodi rhagolygon ariannol, risgiau a rhagdybiaethau cynllunio tymor canolig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r SATC yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn sicrhau'r adnoddau ar gyfer cyflawniad y CRhRC dros y cyfnod 2026–2030, gan sicrhau aliniad rhwng blaenoriaethau gweithredol, y cyllid sydd ar gael a chyfrifoldebau statudol.
- 3 Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol oherwydd chwyddiant, ansicrwydd cyflogau, pwysau ariannu cyfalaf a chyflwyniad costau Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (RhGB).
- 4 Er gwaethaf y pwysau hyn, mae sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn parhau i fod yn gynaliadwy, wedi'i chefnogi gan arbedion effeithlonrwydd wedi'u cynllunio, y defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn a dull strwythuredig o reoli risg ariannol.
- 5 Darperir gofynion ardoll dangosol a rhaglen gyfalaf i gefnogi blaengynllunio gan awdurdodau lleol cyfansoddol a byddant yn destun cymeradwyaeth a chraffu blynyddol.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 6 Cyflwynwyd y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-2030 i'r Pwyllgor Archwilio i'w graffu yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2026. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y strategaeth i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

- i) Gymeradwyo Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026 - 2030

CEFNDIR

- 8 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod osod cynllun ariannol cytbwys, cynaliadwy sy'n cefnogi cyflawniad y CRhRC.
- 9 Mae'r SATC yn darparu'r cyd-destun ariannol tymor canolig, gan nodi rhagdybiaethau ar gyflogau, prisiau, cyllid cyfalaf, cronfeydd wrth gefn a chyllid disgwylidig. Mae'n sicrhau tryloywder ar gyfer Aelodau ac awdurdodau cyfansoddol ac yn llywio'r broses gosod y gyllideb flynyddol.

GWYBODAETH

- 10 Mae'r Strategaeth yn cadarnhau'r pecyn ariannol arfaethedig ar gyfer 2026–2030, gan gynnwys:
 - o y ffactorau pennaf sy'n rheoli costau (cyflogau, chwyddiant, ystadau, fflyd, RhGB)
 - o effeithiau'r rhaglen gyfalaf, gan gynnwys datblygu Hwb Awen (yn amodol ar gyllid allanol)
 - o y strategaeth cronfeydd wrth gefn a'r proffil tynnu i lawr wedi'i gynllunio
 - o modelu ardoll dangosol ar gyfer awdurdodau cyfansoddol
- 11 Mae'r cynllun cyfalaf 10 mlynedd yn parhau i fod yn elfen allweddol o gynllunio tymor canolig, gyda rhagolygon am wariant sylweddol yn 2027/28 a 2028/29.
- 12 Mae'r Strategaeth yn ymwreiddio ymagwedd strwythuredig tuag at effeithlonrwydd, gyda gwelliannau mewn cynhyrchiant ac arbedion nad ydynt yn arian parod ac sy'n rhyddhau arian parod targedig.
- 13 Mae'r holl ragdybiaethau manwl, tablau a modelu wedi'u cynnwys yn y ddogfen SATC lawn.

GOBLYGIADAU

| | |
|--------------------------------------|--|
| Amcanion Llesiant | Mae'r SATC yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth trwy sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu halinio â lleihau risg hirdymor, effeithiolrwydd gweithredol a chynaliadwyedd. |
| Cyllideb | Mae'r SATC yn gosod y paramedrau cynllunio ar gyfer cyllidebau'r dyfodol, gan ymgorffori chwyddiant, cyflogau, cyllid cyfalaf a chostau'r RhGB, ochr yn ochr ag effeithlonrwydd a'r defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb fantoledig bob blwyddyn o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r SATC yn tanategu'r gofyniad cyfreithiol hwn trwy ddarparu fframwaith cynllunio tymor canolog cadarn. |
| Staffio | Mae dros 70% o wariant yn ymwneud â staffio. Mae dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio a chynllunio'r gweithlu yn parhau i fod yn ystyriaethau ariannol allweddol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan annatod o gynllunio ariannol a byddant yn parhau i gael sylw trwy ddarpariaeth y CRhRC a phrosesau gosod y gyllideb flynyddol. |
| Risgiau | Mae risgiau pennaf yn cynnwys ansicrwydd ynghylch setliadau cyflog cenedlaethol, chwyddiant heb fod yn gyflogau, pwysau costau'r RhGB, symudiadau mewn cyfraddau llog a dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i leddfu'r cynnydd a ragwelir. Mae lliniariadau wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth |



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig

2026 – 2030

1. Pwrpas y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (SATC)

Mae'r SATC yn nodi sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn sicrhau'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer darpariaeth Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) –2024–2029. Mae'r CRhRC yn dynodi risgiau cymunedol ar draws Gogledd Cymru ac yn diffinio'r pum egwyddor, sef Pobl, Atal, Diogelu, Ymateb a'r Amgylchedd, sy'n llywio sut y bydd y Gwasanaeth yn lleihau risg ac yn gwella diogelwch cymunedol.

Yn yr hinsawdd economaidd fyd-eang bresennol, mae rheolaeth arian cyhoeddus yn bwysicach nag erioed ac mae'r SATC yn darparu'r fframwaith ariannol i:

- Sicrhau bod adnoddau'n uniongyrchol gefnogi darpariaeth y CRhRC a Chynlluniau Gweithredu CRhRC blynyddol.
- Ariannu'r asedau, y gweithlu, yr ystâd, y fflyd a'r systemau sydd eu hangen i reoli'r risgiau a ddynodwyd.
- Galluogi cynllunio cynaliadwy dros y tymor canolig, gan gysylltu blaenoriaethau gweithredol ag argaeledd ariannol.
- Cynnal sefyllfa ariannol wydn i gefnogi cynllunio gwasanaeth sy'n seiliedig ar risg hirdymor.

2. Amcanion y Strategaeth

Mae'r SATC yn cynorthwyo i:

- Gefnogi darpariaeth Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029;
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn ystod cyfnod o bwysau chwyddiant a phwysau gweithredol.
- Cynnal cronfeydd wrth gefn digonol i reoli anwadalarwydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Galluogi buddsoddiad mewn gallu gweithredol critigol

3. Negeseuon Allweddol

Aliniad Strategol: Mae'r SATC yn darparu'r fframwaith ariannol i gefnogi cyflawniad CRhRC 2024 - 2029, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu halinio â blaenoriaethau gweithredol a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod.

Rhagolygon Ariannol Mae'r rhagolygon ariannol- tymor canolig yn parhau i fod yn heriol a hynny oherwydd pwysau chwyddiant, costau cyllido cyfalaf a rhaglenni cenedlaethol; fodd bynnag, mae sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod wedi'i hasesu fel bod yn gynaliadwy dros y cyfnod cynllunio.

Ffactorau sy'n rheoli costau a phwysau'r dyfodol: Cyflogau yw maes gwariant a risg ariannol mwyaf yr Awdurdod o hyd, gydag ansicrwydd parhaus ynghylch dyfarniadau cyflog cenedlaethol ochr yn ochr â chwyddiant parhaus heb fod yn gyflogau. Mae'r Strategaeth hefyd yn adlewyrchu pwysau sylweddol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys effaith refeniw'r rhaglen gyfalaf, yr ystâd a chyflwyniad costau'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (RhGB) o 2028/29.

Arbedion effeithlonrwydd a'r defnydd darbodus o gronfeydd

wrth gefn: Caiff y pwysau hyn eu lliniaru trwy arbedion effeithlonrwydd wedi'u cynllunio a gwelliannau mewn cynhyrchiant, ynghyd â'r defnydd darbodus ac o fewn terfynau amser penodol o - o gronfeydd wrth gefn.

Ardoll: Cynhwysir rhagdybiaethau ynghylch yr ardoll dangosol i gefnogi blaengynllunio ar gyfer awdurdodau cyfansoddol, gan gydnabod y bydd penderfyniadau terfynol ynghylch yr ardoll yn cael eu gwneud yn flynyddol.

4. Egwyddorion y Strategaeth

Mae'r SATC yn alinio'n agos â llawer o strategaethau'r GTACG a ddisgrifir yn Atodiad 1, gan sicrhau bod cynllunio ariannol yn cefnogi nodau strategol a gweithredol hirdymor y Gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd, i gynnal disgyblaeth ariannol gref a sicrhau bod gwariant yn aros o fewn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar yr ardoll a bennir.

Bydd Cronfa Gyffredinol ddarbodus yn cael ei chynnal a'i hadolygu'n flynyddol, gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio'n hyblyg lle bynnag y bydd yn darparu gwerth clir. Bydd cronfeydd wedi'u clustnodi'n cael eu defnyddio dim ond at ddibenion y gellir eu cyfiawnhau sydd yn uniongyrchol gynnal amcanion cytunedig ac ymrwymiadau'r CRhRC

Ym mhob penderfyniad, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu gwerth am arian trwy sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, cryfhau prosesau caffael a gyrru gwelliant parhaus. Mae gosod ardoll gynaliadwy a gwneud penderfyniadau tymor canolig wedi'u cynnal gan ragolygon referniw tair blynedd treigl a chynllun cyfalaf deng mlynedd.

Yn olaf, bydd yr Awdurdod, y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân yn parhau i gymryd rhan mewn adolygiadau cenedlaethol o gyllid gwasanaethau tân ac yn parhau i ddadlau dros fodel cyllido teg a chynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru.

5. Rhagolygon economaidd

Mae economi'r DU wedi parhau i brofi twf ymylol. Mae data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) wedi cynyddu 0.1% yn y tri mis hyd fis Rhagfyr 2025, ac yn uwch na Chwarter 4 2024.

Mae amodau'r farchnad lafur wedi parhau i leddfu, gyda diweithdra wedi codi i uchafswm pum mlynedd o 5.2% a chyflogaeth cyflogres yn gostwng, er bod swyddi gwag wedi sefydlogi yn fras.

Mae chwyddiant wedi disgyn ond mae'n dal yn uwch na'r targed, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar 3.4% ym mis Rhagfyr 2025. Mae Banc Lloegr wedi gostwng Cyfradd y Banc i 3.75% ac wedi nodi lleddfu graddol pellach yn ystod 2026.

Ar gyfer Cymru, cynyddodd cyllid craidd ar gyfer awdurdodau lleol 4.5% ar gyfer 2026/27, gan ddarparu gwell sicrwydd tymor byr, er bod pwysau'n parhau i fod yn fwy na thwf cyllido a sefydlogrwydd hirdymor.


Y goblygiadau ar gyfer 2026/27 a thu hwnt:

- Mae pwysau parhaus ar gyllid awdurdodau lleol yn debygol, gan gynyddu'r risg o bwysau ardoll parhaus i'r Awdurdod Tân dros y tymor canolig.
- Bydd gostyngiadau parhaus neu gydgyrnhoi grantiau Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r ddibyniaeth ar gyllid craidd ac yn lleihau hyblygrwydd.
- Disgwylir y bydd cystadleurwydd - parhaus yn y farchnad lafur yn gwneud recriwtio staff a chadw staff mewn rolau gweithredol ac - anweithredol yn heriol o hyd.
- Gallai dyfarniadau cyflog - sector cyhoeddus aros yn uwch na chwyddiant, gan greu pwysau llinell sylfaen- ailadroddus flwyddyn ar ôl- blwyddyn.
- Disgwylir i gostau benthyca ostwng yn arafach, gan effeithio ar fforddiadwyedd -hirdymor y rhaglen gyfalaf a chyfyngu ar y gallu i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae mwy o ansicrwydd mewn trefniadau cyllido gwasanaethau tân cenedlaethol yn golygu -y bydd cynllunio hirdymor yn parhau i ofyn am ofal, modelu senarios a ffocws ar wydnwch ariannol.

6. Y Cyd-destun Ariannol

Ariennir ATA Gogledd Cymru yn bennaf trwy ardoll ar y chwe chyngor cyfansoddol, wedi'i dosrannu yn ôl poblogaeth, heb braesept treth gyngor na chyfraddau busnes wedi'u cadw ar lefel ATA; fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad sydd gan Lywodraeth Cymru ar y gweill ar newidiadau posibl i drefniadau llywodraethu a chyllido yn cyflwyno ansicrwydd ynghylch strwythur a sefydlogrwydd hirdymor -y model hwn.

Derbynnir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau penodol. Mae gwerth y grantiau hyn wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd maent yn cynrychioli tua 1% o'r holl wariant. Yn seiliedig ar gyllideb 2026/27, mae 97.4% o'r gwariant yn cael ei ariannu drwy'r ardoll, gyda'r 1.6% sy'n weddill yn dod o ffynonellau incwm eraill a'r defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn.



7. Y Sefyllfa Ariannol Gyfredol

Cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 yw £51.79m. Mae'r adroddiad monitro refeniw diweddaraf yn dangos tanwariant rhagamcanol o £0.061m, fel yr oedd ar 30 Tachwedd 2025.

| | Cyllideb 2025/26 (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiad (£m) | Amrywiad (%) |
|-------------------------------|-----------------------|---------------|---------------|--------------|
| Gweithwyr | 38.23 | 37.62 | 0.62 | 1.6 |
| Adeiladau | 2.82 | 3.09 | -0.28 | -9.8 |
| Cludiant | 1.33 | 1.49 | -0.16 | -12.2 |
| Cyflenwadau | 6.18 | 5.84 | 0.34 | 5.5 |
| Trydydd Parti | 0.37 | 0.43 | -0.06 | -16.5 |
| Cyllid Cyfalaf | 4.50 | 3.85 | 0.65 | 14.4 |
| Incwm | -1.04 | -1.14 | 0.10 | -9.8 |
| Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn | -0.60 | 0.61 | -1.21 | 201.3 |
| Cyfanswm | 51.79 | 51.79 | 0.00 | 0.0 |

Mae'r Awdurdod yn dal y gyllideb i ddarparu adnoddau ariannol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ymateb a gwarchod rhag tân gweithredol. Mae'r gyllideb Ariannu Cyfalaf yn cynnwys y ddarpariaeth refeniw ar gyfer ad-dalu benthyciadau, costau llog ac incwm buddsoddi.

Y sefyllfa gloi a ragwelir ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar 31 Mawrth 2026 yw £11.491 miliwn, sy'n adlewyrchu trosglwyddiad y tanwariant rhagamcanol o £0.061 miliwn i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

8. Cyd-destun y Gwasanaeth

Mae GTAGC yn cyflawni ei -Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) pum mlynedd, sy'n nodi sut y bydd risgiau ar draws y rhanbarth yn cael eu hasesu a'u lliniaru trwy weithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb wedi'u targedu.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i alinio cynllunio'r gweithlu, modelau criwio a buddsoddiad cyfalaf â blaenoriaethau CRhRC i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn gynaliadwy.

Rhaid- i gynllunio tymor canolig hefyd adlewyrchu'r pwysau a ddisgwylir dros y cyfnod, gan gynnwys chwyddiant cyflogau a phrisiau, anwadalrwydd pensynau ac effeithiau refeniw y rhaglen gyfalaf 10-mlynedd, yn enwedig datblygiad Hwb Awen, Canolfan Hyfforddi newydd, a fydd yn disodli'r safleoedd gwasgarog gydag un cyfleuster modern unwaith y bydd cyllid allanol ar gyfer adeiladu wedi'i sicrhau.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth yn bwrw ymlaen â chynllun peilot i roi cydgytundeb ar waith, gan brofi trefniadau gweithlu newydd i wella ymateb, gwytnwch ac effeithiolrwydd gweithredol. Bydd canlyniadau'r peilot yn llywio cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol, rhagdybiaethau ariannol a dylunio gwasanaethau wrth i'r sefydliad addasu i risg a galw esblygol.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn ffurfio'r cyd-destun gweithredu ar gyfer 2026/27 a thu hwnt, gan siapio sut y mae'r Awdurdod yn blaenoriaethu buddsoddiad, rheoli adnoddau a chynnal gwasanaeth- tân ac achub o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio -ar y gymuned o fewn cyfyngiadau ariannol y tymor canolig.



9. Pwysau Cyllideb Tymor Canolig yng Ngogledd Cymru

Yn siapio'r rhagolygon ariannol tymor canolig ar gyfer GTAGC mae amrywiaeth o bwysau cyllidebol sylweddol a rhyng-gysylltiedig. Mae'r pwysau hyn yn adlewyrchu ffactorau cenedlaethol sy'n rheoli costau a blaenoriaethau strategol lleol ac maent wedi'u hymgorffori yn yr SATC. Mae'r meysydd allweddol yn cynnwys:

(i) Cynydd mewn Cyflogau a Phrisiau

Cyflogau yw pwysau cost mwyaf y Gwasanaeth o hyd, gyda rhagolygon tymor canolig yn adlewyrchu ansicrwydd parhaus mewn dyfarniadau cyflog cenedlaethol (tybir 3.8%, 3.2%, 3%, 2.8% ar gyfer 2026/27–2029/30). Mae galw cynyddol sy'n deillio o ddigwyddiadau tywydd eithafol amlach hefyd yn cynyddu'r pwysau ar gostau cyflogau.

Mae chwyddiant nad yw'n gyflogau'n parhau i effeithio ar ynni, yswiriant, ardrethi busnes, TGCh a gwasanaethau, pob un ohonynt yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaleddau tymor hir ac felly'n gofyn am ddarpariaeth ddarbodus.

(ii) Ôl-groniad cynnal a chadw ystadau

Mae GTAGC, yn yr un modd â Gwasanaethau Tân ac Achub yn genedlaethol, yn wynebu ôl-groniad cynyddol o waith cynnal a chadw ystadau oherwydd oed a chyflwr y gorsafoedd, cyfleusterau hyfforddi a'r adeiladau ategol, y mae llawer ohonynt yn gofyn am fuddsoddiad parhaus i'w cadw'n ddiogel, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion ac yn effeithiol yn weithredol.

Er bod gwariant diweddar wedi canolbwyntio ar waith hanfodol ac adweithiol, mae arolygon cyflwr sy'n dod i'r amlwg a'r strategaeth ystadau sy'n datblygu yn dangos pwysau cynyddol i

fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i ohirio a symud tuag at adnewyddu wedi'i gynllunio yn ystod cylch bywyd, gan sicrhau bod yr ystâd yn addas ar gyfer anghenion gweithredol a gweithlu modern.

(iii) Goblygiadau Refeniw'r Rhaglen Gyfalaf

Gan nad yw'r Gwasanaeth yn derbyn dyraniad cyfalaf, mae -costau cysylltiedig yr Isafswm Darpariaeth Refeniw, llog a benthyca wedi'u hymgorffori yn rhagolygon tymor canolig -y rhaglenni cyfalaf 10 mlynedd gan fod yn rhaid benthyca i'w hariannu Disgwylir y bydd costau benthyca yn codi dros gyfnod y SATC.

(iv) Datblygu Canolfan Hyfforddi Newydd.

Mae'r Ganolfan Hyfforddi'n parhau i fod yn fuddsoddiad strategol mawr a fydd yn disodli safleoedd sydd wedi dyddio gyda chyfleuster modern. Mae GTAGC yn parhau i hunan-ariannu'r holl waith i RIBA Cam 4, gyda gwaith adeiladu yn y dyfodol yn dibynnu ar gymeradwyo cyllid grant. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yma: www.hwbawen.cymru

(v) Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (RhGB)

O 2028/29 ymlaen, mae'r trawsnewidiad i'r RhGB yn cynrychioli pwysau cost sylweddol yn y tymor canolig. Mae'r SATC yn cynnwys darpariaeth o £2.624m yn 2028/29 a £1.485m yn 2029/30, sy'n adlewyrchu costau sy'n cael eu cynnal yn lleol -nad ydynt yn greiddiol cysylltiedig â dyfeisiau, cysylltedd rhwydwaith a threfniadau -rhedeg deuol. Er bod y rhaglen yn cael ei harwain yn genedlaethol, mae ansicrwydd parhaus o hyd ynghylch graddfa a hyd y costau rhedeg- deuol, maint y cymorth cyllido canolog a chwmpas terfynol y gofynion a ariennir yn lleol. Mae'r Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESG) i geisio eglurder a threfniadau cyllido priodol.

10. Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Tymor Canolig

Ochr yn ochr â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ADdF) a gweithredu'r cydgytundeb i gryfhau ymateb gweithredol o fewn pecyn ariannu sefydlog, mae GTAGC yn datblygu ymdriniaeth strwythuredig tymor canolig tuag at effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n adlewyrchu arferion gorau sy'n dod i'r amlwg ar draws sector tân y DU. Mae'r ymdriniaeth hon cydnabod yr angen i gynnal capasiti'r gwasanaeth wrth wella gwerth am arian dros y tymor canolig.

Bydd y Gwasanaeth yn bwrw ymlaen â rhaglen o arbedion effeithlonrwydd heb fod yn arian parod, gan dargedu enillion cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o oddeutu 1-2% y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys optimeiddio'r ystâd, moderneiddio'r fflyd, arbedion effeithlonrwydd mewn caffael a thrawsnewid digidol, gwella effeithlonrwydd gweithredol ac effeithlonrwydd cost heb leihau'r ddarpariaeth rheng flaen.

Yn ogystal, bydd arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian parod yn cael eu rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol. Bydd cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd yn cael eu nodi trwy ddadansoddiad o feincnodi cenedlaethol NFCC ac ystadegau blynyddol CIPFA / Infoshare +, gan sicrhau bod mentrau'n cael eu harwain gan dystiolaeth ac yn debyg i berfformiad y sector.

Amcangyfrifir bod yr arbedion effeithlonrwydd rhyddhau arian parod arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn £470k, sy'n cyfateb i oddeutu 0.9%, gyda disgwyliad y bydd cynnydd cyffredinol mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn fwy na 1%. Bydd

cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei fonitro bob chwarter trwy'r Pwyllgor Cyllid a Chaffael.

11. Gwerth cymdeithasol a lleihau carbon

Ochr yn ochr â sicrhau'r gwerth gorau am arian, mae GTAGC wedi ymrwmo i ymgorffori gwerth cymdeithasol a chefnogi amcanion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru drwy ei benderfyniadau ariannol, caffael a strategol. Mae ystyriaethau gwerth cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio fwyfwy i gynllunio effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gan gydnabod bod lleihau carbon, gwelliant amgylcheddol, datblygu'r gweithlu a budd cymunedol i gyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd sefydliadol hirdymor.

Mae mentrau buddsoddi i arbed, fel cynlluniau ynni adnewyddadwy a mesurau -effeithlonrwydd ynni yn darparu manteision ariannol ac amgylcheddol trwy leihau costau rhedeg tra'n lleihau allyriadau carbon. Mae ymarfer y sector hefyd yn dangos pwyslais cynyddol ar fodolau cyflenwi mewnol, caffael lleol a phrosiectau cydweithredol sy'n cefnogi adeiladu cyfoeth cymunedol a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

Bydd GTAGC yn adeiladu ar y dull hwn trwy ei raglen gyfalaf, gan gynnwys y Ganolfan Hyfforddi newydd arfaethedig, sy'n darparu cyfle arwyddocaol i ymgorffori egwyddorion dylunio modern, carbon isel, lleihau costau oes gyfan, a gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol trwy adeiladu, datblygu sgiliau a budd economaidd lleol.



12. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Mae'r holl bwysau cyllidebol, yr arbedion cyllidebol, argaeledd y cronfeydd wrth gefn a'r rhagdybiaethau ariannu a amlinellwyd yn gynharach yn y Strategaeth hon wedi'u crynhoi isod.

| | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m |
|--|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Cyllideb sylfaenol | 49.246 | 52.389 | 54.788 | 56.866 | 61.851 |
| Dyfarniad Cyflog | 3.20% | 3.80% | 3.20% | 3.00% | 2.80% |
| Pob Staff arall | | 1.130 | 0.597 | 0.626 | 0.523 |
| Diffoddwyr Tân Ar Alwad. | | 0.224 | 0.284 | 0.267 | 0.257 |
| Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn | | 0.511 | 0.303 | 0.428 | 0.412 |
| Twf mewn niferoedd | | 0.327 | 0.133 | 0.122 | 0.113 |
| Chwyddiant Cyflogres | 0 | 2.192 | 1.316 | 1.444 | 1.306 |
| Chwyddiant heb fod yn gyflogau | 0.514 | 0.296 | 0.409 | 0.376 | 0.405 |
| Cynnydd REFCUS | | 0 | 0.250 | 0.250 | 0.250 |
| Cyllid Cyfalaf | | 0.095 | 0.203 | 0.391 | 0.074 |
| Rhwydwaith y Gwasanaeth Brys | | 0 | 0 | 2.624 | 1.485 |
| Incwm | | -0.127 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion arian parod rheolaidd | | -0.057 | -0.100 | -0.100 | -0.100 |
| Gofynion y Gyllideb | 52.389 | 54.788 | 56.866 | 61.851 | 65.270 |
| Arbedion arian parod nad ydynt yn rheolaidd | | -0.413 | -0.220 | -0.187 | -0.150 |
| Defnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn | -0.601 | -0.271 | -0.350 | -1.500 | -1.000 |
| Gofyniad Cyllideb Net | 51.788 | 54.104 | 56.296 | 60.164 | 64.120 |
| Cynnydd yn y Gyllideb | 7.17% | 4.47% | 4.05% | 6.21% | 6.58% |

Mae'r CATC yn crynhoi effaith gronol pwysau cost hysbys ac sy'n dod i'r amlwg dros y cyfnod 2026/27 i 2029/30, gan gynnwys chwyddiant - cyflogau a heb fod yn gyflogau, pwysau twf, costau ariannu cyfalaf a chyflwyniad costau'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys arfaethedig o 2028/29. Mae'r pwysau hyn yn cael eu lliniaru'n rhannol trwy effeithlonrwydd wedi'i gynllunio, rhagdybiaethau incwm a'r defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn, gan llyfnhau proffil cynnydd yn y gyllideb dros y cyfnod. Er gwaethaf y lliniariadau hyn, mae'r cynllun yn dangos gofyniad cyllideb net cynyddol yn y blynyddoedd diweddarach, gan adlewyrchu graddfa gynyddol yr ymrwymadau anochel ac ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid, yn enwedig ar gyfer rhaglenni cenedlaethol.

13. Ariannu Cyfalaf

Mae rhaglen gyfalaf yr Awdurdod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r CRhRC drwy sicrhau bod fflyd, ystâd, offer gweithredol, TGCh a seilwaith hyfforddi'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ddiogel, yn fodern ac yn addas i'r diben. Dros y cyfnod rhwng 2026/27 a 2029/30, mae'r rhaglen gyfalaf yn adlewyrchu gofyniad disodli asedau parhaus a buddsoddiad strategol sylweddol yn y ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig, Hwb Awen.

Cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf dangosol a gynlluniwyd dros y cyfnod o bedair -blynedd yw £81.0m, gyda gwariant blynyddol yn cyrraedd uchafbwynt yn 2027/28 a 2028/29 wrth i brosiect Hwb Awen fynd rhagddo, yn amodol ar argaeledd cyllid grant allanol.

| Rhaglen gyfalaf | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m |
|-------------------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Fflyd | 3.271 | 3.775 | 4.527 | 2.506 | 2.934 |
| TGCh | 0.986 | 0.040 | 0.350 | 0 | 0.125 |
| Offer Gweithredol | 0.233 | 1.861 | 3.877 | 0.394 | 0.446 |
| Tyrau Hyfforddi | 0.350 | 0.350 | 0.350 | 0.350 | 0.350 |
| Cyfleusterau | 1.263 | 0.635 | 0.550 | 3.950 | 2.575 |
| Hwb Awen | 1.333 | 2.265 | 20.564 | 24.748 | 3.453 |
| Amcangyfrif Cyllideb Cyfalaf | 7.436 | 8.926 | 30.218 | 31.948 | 9.883 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1.379 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau refeniw | 1.451 | 1.000 | 1.250 | 1.500 | 1.750 |
| Dyled | 3.746 | 6.139 | 8.404 | 5.700 | 4.680 |
| Grantiau | 0.860 | 0.500 | 20.564 | 24.748 | 3.453 |
| Cyfanswm Ariannu | 7.436 | 8.926 | 30.218 | 31.948 | 9.883 |

Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf: Mae'r Awdurdod yn ariannu ei raglen gyfalaf drwy gyfuniad o gyfraniadau refeniw, benthycyca, defnydd cyfyngedig o gronfeydd wrth gefn a chyllid grant allanol, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae angen benthycyca i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen gyfalaf a gwneir hynny yn unol ag egwyddorion benthycyca darbodus. Mae'r holl gostau llog ac Isafswm Darpariaeth Refeniw cysylltiedig wedi'u hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae cyllid grant allanol yn elfen allweddol o'r rhaglen, yn enwedig ar gyfer Hwb Awen, gydag incwm grant sylweddol yn cael ei ragdybio yn ystod y prif gam adeiladu. Bydd cyflwyno a phroffilio'r rhaglen gyfalaf yn parhau i fod yn amodol ar gadarnhad ac amseriad cyllid grant.



14. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r gofyniad am gronfeydd wrth gefn ariannol wedi'i bennu mewn statud. O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, wrth osod y gyllideb rhaid i'r Awdurdod ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n angenrheidiol i gwrdd â gwariant amcangyfrifedig y dyfodol. Mae cronfeydd wrth gefn yn falansau arian parod a gedwir ar y fantolen, dim ond unwaith y gellir eu defnyddio, ac nid ydynt yn rhan o gyllideb sylfaenol yr Awdurdod.

O dan adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae dyletswydd ar y Swyddog Adran 151 i gynghori ar ddigonolrwydd cronfeydd wrth gefn a chadernid amcangyfrifon y gyllideb, gan ystyried cofrestr risg yr Awdurdod a chynlluniau ariannol tymor canolig. Er y gall cronfeydd wrth gefn ddarparu hyblygrwydd tymor byr, mae canllawiau CIPFA yn glir na ddylid dibynnu arnynt i ariannu gwariant rheolaidd heb gynllun cyllido tymor canolig clir. Cymeradwywyd [Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn](#) yr Awdurdod gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 ac mae'n cael ei hadolygu bob tair blynedd.

Mae'r Awdurdod yn dal Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol i reoli digwyddiadau annisgwyl a Chronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi ar gyfer rhwymedigaethau penodol hysbys neu a ragwelir. Rhagwelir y bydd y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn £1.932m ar 1 Ebrill 2026, sy'n cynrychioli oddeutu 3.5% o'r gwariant refeniw net, yn unol ag arfer da cydnabyddedig. Gellir gweld crynodeb o'r balansau isod.

| Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | Portffolio Balans | Cost Ddangosol Balans | Cost Ddangosol Balans | Cost Ddangosol Balans | Cost Ddangosol Balans | Cost Ddangosol Balans |
|---|-------------------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|-----------------------|
| | 31-Maw-25 £'m | 31-Maw-26 £'m | 31-Maw-27 £'m | 31-Maw-28 £'m | 31-Maw-29 £'m | 31-Maw-30 £'m |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth | | | | | | |
| Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 1.070 | 1.618 | 1.618 | 1.618 | 1.618 | 1.618 |
| Cronfa Log wrth gefn | 0.300 | 0.300 | 0.300 | 0.300 | 0.300 | 0.300 |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 |
| Gwisg / Stoc PPE | 0.768 | 0.768 | 0.768 | 0.768 | 0.768 | 0.768 |
| Newid Trawsnewidiol | 0.851 | 0.851 | 0.851 | 0.851 | 0.851 | - |
| Gwella Cyfleusterau | 0.980 | 0.980 | 0.980 | 0.980 | 0.980 | 0.980 |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | 0.310 | 0.310 | 0.310 | 0.310 | 0.310 | 0.310 |
| Hyfforddiant | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 |
| Digwyddiadau Mawr | 0.150 | 0.150 | 0.150 | 0.150 | 0.150 | 0.150 |
| Gwella Systemau | 0.711 | 0.711 | 0.513 | 0.163 | 0.163 | 0.163 |
| Chwyddiant | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 |
| Adolygiad o Strwythur Cyflog Diffoddwyr Tân | 0.473 | 0.473 | 0.473 | 0.473 | 0.473 | 0.473 |
| Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn | | | | | | |
| Prosiectau Cyfalaf | 0.195 | 0.195 | 0.195 | 0.195 | 0.195 | 0.195 |
| Cynllun Radio | 1.537 | 1.537 | 1.537 | 1.537 | 0.037 | - |
| Gostyngiad Grant | 1.003 | 1.003 | 1.003 | 1.003 | 1.003 | 1.003 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 1.871 | 1.932 | 1.932 | 1.932 | 1.932 | 1.820 |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn | 0.073 | 0.073 | - | - | - | - |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 10.882 | 11.491 | 11.220 | 10.870 | 9.370 | 8.370 |
| Symudiad ym Malansau'r Cronfeydd Wrth Gefn | | 0.609 | -0.271 | -0.350 | -1.500 | -1.000 |
| Gwariant Refeniw Net (NRE) | 48.256 | 51.788 | 54.104 | 56.296 | 60.164 | 64.120 |
| Cronfeydd wrth gefn fel % o'r Gwariant Refeniw Net | 22.6% | 22.2% | 20.7% | 19.3% | 15.6% | 13.1% |

Dros gyfnod y SATC rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn gostwng yn unol â'r defnydd a gynlluniwyd, gyda chronfeydd wrth gefn fel canran o'r gwariant refeniw net yn gostwng o 22.6% i 13.1%. Mae hyn yn adlewyrchu'r - defnydd darbodus ac o fewn amser cyfyngedig o gronfeydd wrth gefn i reoli pwysau hysbys Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod lefelau cronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn ddigonol ac y byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gydag unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

15. Asesiad Risg

Mae'r SATC yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar adeg ei drafftio, ond mae sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn newid yn gyson. Cynhelir asesiad risg ariannol cynhwysfawr ar y broses o bennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf i sicrhau bod yr holl risgiau ac ansicrwydd sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn cael eu nodi. Mae'r Awdurdod yn wynebu amryw o bwysau ariannol sylweddol a allent effeithio ar y sefyllfa yn y tymor canolig. Mae asesiad o debygolrwydd ac effaith pob risg a'r rheolaethau sydd ar waith wedi'u dangos yn Atodiad 2.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod amcangyfrifon y gyllideb wedi'u llunio ar sail gadarn a darbodus.

Mae'r Awdurdod yn wynebu pwysau ariannol mewn sawl maes dros y tymor canolig. Mae'r prif risgiau, ynghyd â'u tebygolrwydd, eu heffaith a'u rheolaethau lliniaru, wedi'u nodi yn Atodiad 2. Mae gwytnwch ariannol wedi'i ategu gan gynllunio ariannol tymor canolig - darbodus, cynnal cronfeydd wrth gefn digonol a dull strwythuredig o ddynodi a rheoli risg ariannol.

Mae'r SATC yn adlewyrchu pwysau hysbys ac sy'n dod i'r amlwg ac yn ymgorffori lliniariadau trwy effeithlonrwydd wedi'i gynllunio a'r defnydd hyblyg, cyfyngedig -o gronfeydd wrth gefn. Er bod y rhagolygon tymor canolig -yn parhau i fod yn heriol ac yn destun ansicrwydd allanol, yn enwedig mewn perthynas â chyllid cenedlaethol, dyfarniadau cyflog a'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, asesir bod gan yr Awdurdod ddigon o wydnwch i amsugno amrywiadau rhesymol mewn rhagdybiaethau heb gyfaddawdu darpariaeth gwasanaethau statudol.

Bydd gwytnwch ariannol yn parhau i gael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses -o osod y gyllideb a thrwy fonitro parhaus -yn ystod y flwyddyn. Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod amcangyfrifon y gyllideb wedi'u llunio ar sail gadarn a darbodus.



17. Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol

Prif ffynhonnell cyllid yr Awdurdod yw'r ardoll ar y chwe awdurdod lleol cyfansoddol, sy'n cael ei chyfrifo'n gymesur â data poblogaeth canol blwyddyn. Mae'r ardoll yn darparu'r cyllid craidd, sefydlog sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau tân ac achub statudol ac i ariannu darpariaeth y CRhRC. Mae cyfraniadau ardoll terfynol yn cael eu cadarnhau bob blwyddyn yn unol ag amserlenni statudol ac yn adlewyrchu gofyniad cyllideb net cymeradwy yr Awdurdod.

Mae'r SATC yn nodi rhagdybiaethau ardoll dangosol dros y cyfnod cynllunio i gefnogi tryloywder a blaengynllunio ariannol ar gyfer awdurdodau cyfansoddol. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn adlewyrchu pwysau cost hysbys ac sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cyflogau, pensiynau, chwyddiant, buddsoddiad yn yr ystâd a newid gweithredol, wedi'u cydbwysu yn erbyn arbedion effeithlonrwydd wedi'u hariannu cynlluniedig, y defnydd o gronfeydd wrth gefn a'r cyllid grant disgwylidiedig. Er bod cynnydd dangosol yn cael ei fodelu dros y tymor canolig, mae'r Awdurdod yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch yr ardoll yn flynyddol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod lefelau ardoll yn sensitif i ansicrwydd allanol, yn enwedig mewn perthynas â dyfarniadau cyflog cenedlaethol, chwyddiant, costau pensiwn a newidiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Felly, mae'r SATC felly yn mabwysiadu dull darbodus o gynllunio ardoll, wedi'i gefnogi gan ddadansoddiad sensitifrwydd, cronfeydd wrth gefn a rhagdybiaethau effeithlonrwydd, i liniaru anwadalrwydd ac osgoi pwysau diangen ar awdurdodau cyfansoddol. Pan dderbynnir

cyllid ychwanegol neu gyllid a gyhoeddwyd yn hwyr, bydd yr Awdurdod yn gweithio'n adeiladol gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod effeithiau'r ardoll yn cael eu rheoli'n dryloyw ac, lle bo hynny'n briodol, ar sail cost-niwtral.

18. Casgliad

Mae'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig yn dangos bod sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod yn gynaliadwy dros y tymor canolig, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfredol a mesurau lliniaru wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn dibynnu ar y defnydd arfaethedig o £3.121m o gronfeydd wrth gefn dros y cyfnod 2026/27 i 2029/30 i reoli pwysau ariannol hysbys ac sy'n dod i'r amlwg wrth gynnal darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r SATC yn darparu fframwaith clir a thryloyw sy'n nodi sut yr ariennir pob blwyddyn o'r cyfnod cynllunio, gan gydbwysu incwm ardoll, arbedion effeithlonrwydd, cyllid grant a'r defnydd darbodus o gronfeydd wrth gefn. Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn aros ar lefel resymol a darbodus, ac amcangyfrifir y byddant yn £11.491m ar 31 Mawrth 2026, gan ddarparu gwytnwch yn erbyn risg ariannol ac ansicrwydd.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gadw ei sefyllfa ariannol dan adolygiad parhaus, gan adlewyrchu newidiadau mewn cyllid, cyflogau, chwyddiant a'r galw am wasanaethau.

Atodiad 1 – Rhyng-ddibyniaeth â dogfennau cyhoeddiedig eraill

| | |
|----|---|
| 1. | Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2024 - 2029 |
| 2. | CRMIP |
| 3. | Strategaeth Rheoli Risg |
| 4. | Strategaeth Gyfalaf 2026-27 |
| 5. | Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026-27 |
| 6. | Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw |
| 7. | Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn |
| 8. | Achos Busnes Amlinellol Hwb Awen |

Atodiad 2 – Asesiad Risg

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|------------------|--|---|
| Costau gweithwyr | <ul style="list-style-type: none"> • Cyllidebau staffio yn seiliedig ar fodolau cyflwyno gwasanaethau cyfredol a chanlyniadau'r Adolygiad o Ddarpariaeth Frys (2023). • Mae cyllideb y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) yn rhagdybio bydd nifer y bobl yn aros yn gyson, nid yw'n tybio llw llawn (tua £3m ychwanegol pe bai'n llawn). Cafodd recriwtio i swyddi Dyletswydd ar Alwad ei gapio ar 15 (30 oedd y nifer yn 2024/25). • Mae gwaith ar y gweill i wella argaeledd yng nghefn gwlad; fodd bynnag ni fydd arbedion yn cael eu gwireddu gan na chafodd opsiynau'n ymwneud ag arbedion a fyddai'n rhyddhau arian parod eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Bydd y cynllun peilot Criwio Cnewyllyn ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael ei fonitro yn ystod 2026/27. • Pan gafodd y gyllideb ei gosod ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, nid oedd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/27 wedi'u cwblhau a defnyddiwyd 3.8% fel rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer yr holl staff. | <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad tâl diffoddwyr tân ar gyfer 2026/27, mae pob pwynt canran yn uwch na'r 3.8% yn risg ariannol o tua £0.270m. • Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cymryd y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os ceir nifer fawr o alwadau ar yr un pryd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. • Gallai heriau recriwtio ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad a lefelau ymddeol uchel gynyddu costau. • Disgwylir y bydd heriau cyfreithiol parhaus (rhwymedigaeth O'Brien/Matthews 2) yn gynhyrchu costau ychwanegol i'r Awdurdod, na fydd modd i'r Gronfa Pensiynau eu talu. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|-------------------------------------|---|--|
| <p>Costau nad ydynt yn gyflogau</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio dull wedi'i seilio ar sero; mae angen achos busnes ar gyfer unrhyw wariant newydd dros £10k. • Mae pwysau chwyddiant, pan fo'n hysbys, yn cael eu hystyried mewn contractau a chostau'r gadwyn gyflenwi. • Mae costau nas oes modd eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion. • Gwariant untro (nid cyflog) o £271k wedi'i ddyrannu, i'w ariannu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. • Lluniwyd cyllidebau gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllidebau a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol ond, o reidrwydd, maent yn cynnwys llawer iawn o amcangyfrif. Lle gellir mesur pwysau costau, mae hyn wedi'i nodi a'i gynnwys ar wahân | <ul style="list-style-type: none"> • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes o risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant. • Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws i'w reoli nag a fu yn y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau yswiriant a thrwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau critigol i fusnes a chostau yswiriant. • Mae cost nwy a thrydan wedi bod yn bwysau hysbys ers 2022/23 o ganlyniad i bwysau costau byd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r farchnad yn parhau i fod yn anwadal, a chaiff hyn ei reoli'n ofalus trwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r contract presennol i ddod i ben yn ystod 2026/27. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|-----------------|---|--|
| Ariannu Cyfalaf | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2026/27 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthycyca. Yn dylanwadu ar y costau hyn mae gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthycyca ar gyfer rhaglen gyfalaf 2026/27 ac effaith cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ail-ariannu benthyciadau sy'n aeddfedu. Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthycyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) ar adeg pennu'r gyllideb, yr amcangyfrifir ei bod yn 4.6% ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol. Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu i'w ddatblygu hyd at RIBA Cam 4. | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ail-ariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27. Ymgwymerwyd â modelu ariannol i asesu fforddiadwyedd yr holl gynigion yn ystod y broses o osod y gyllideb. Mae amseriad a graddfa'r costau sy'n gysylltiedig â'r ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig yn parhau i fod yn destun ansicrwydd, gan nad yw'r Awdurdod eto wedi ystyried yr achos busnes llawn a'r trefniadau cyllido. Er y rhagwelir y bydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau cyllido cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo yn 2027, mae risg barhaus o ran argaeledd ac amseriad cyllid grant Llywodraeth Cymru. Felly, mae darpariaeth wedi'i chynnwys o fewn yr amcangyfrifon cyllideb cychwynnol ar gyfer costau cysylltiedig â gwaith cynllunio a datblygu manwl, gyda gwariant ar adeiladu yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar gymeradwyo cyllid allanol. |
| Incwm | <ul style="list-style-type: none"> Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant. Mae grant Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd cyllid grant Llywodraeth Cymru sy'n weddill yn cael ei dderbyn ar y lefelau presennol. | <ul style="list-style-type: none"> Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, nas rhagwelir cynnydd chwyddiant ar ei gyfer. Nid yw ffrydiau incwm a ragwelir (e.e., gwerthiannau asedau) wedi'u gwarantu. |

| | |
|-------------------|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub gogledd Cymru |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 |
| Swyddog Arweiniol | Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Swyddog Cyswllt | Mark Morgan, Rheolwr Cyflogau |
| Pwnc | Datganiad Polisi Tâl 2026/27 |



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Hysbysu Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'u cyfrifoldebau o ran Deddf Lleoliaeth 2011 (y Ddeddf).
- 2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol i'w gymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol dan sylw.
- 3 Mae'r papur hwn yn nodi'r Datganiad Polisi Tâl arfaethedig ar gyfer 2026/27 sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4 Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chymeradwyo Datganiad Polisi Tâl blynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Rhaid i'r datganiad hefyd gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2017, "Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

ARSYLVADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL

- 5 Cafodd y Datganiad Drafft Polisi Tâl 2026/27 ei ystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16eg o Fawrth 2026. Nododd y Panel Gweithredol fod y Gwasanaeth wedi derbyn hysbysiad o'i achrediad fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol ers drafftio'r adroddiad. Yn amodol ar y gwelliant hwnnw, cymeradwyodd y Panel Gweithredol y datganiad.

ARGYMHELLIAD

- 6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a
 - ii) Chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27

CEFNDIR

- 7 Rhaid paratoi Datganiad Polisi Tâl yn unol â Rhan 1; Pennod 8 (Adrannau 38 – 43) Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig crynodeb o elfennau allweddol y Datganiad Polisi Tâl, gan gynnwys:
- (a) Gwybodaeth ynghylch cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion;
 - (b) cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflogau isaf; ac
 - (c) y berthynas rhwng:
 - (i) cydnabyddiaeth ariannol ei brif swyddogion, a
 - (ii) chydabyddiaeth ariannol y gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.
- 8 Rhaid i'r datganiad nodi:
- (a) y diffiniad o "weithwyr ar y cyflogau isaf" a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod at ddibenion y datganiad; a
 - (b) rhesymau'r Awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.
- 9 Rhaid i'r datganiad hefyd gynnwys polisiau'r Awdurdod sy'n ymwneud â:
- (i) lefel y gydnabyddiaeth ariannol a'i helfennau ar gyfer pob prif swyddog;
 - (ii) cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion pan gânt eu recriwtio;
 - (iii) cynyddiadau ac ychwanegiadau at gydnabyddiaeth ariannol pob prif swyddog;
 - (iv) y defnydd o daliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer prif swyddogion;
 - (v) y defnydd o daliadau bonws ar gyfer prif swyddogion;
 - (vi) sut y telir prif swyddogion pan ddeuant at ddiwedd eu cyfnod mewn swydd neu gyflogaeth â'r awdurdod; a
 - (vii) chyhoeddi a chaniatáu mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol prif swyddogion.
- 10 Rhaid i'r Datganiad Polisi Tâl gael cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod llawn bob blwyddyn a rhaid ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Gall y datganiad gael ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn os ceir cymeradwyaeth briodol.

GWYBODAETH

- 11 Diben y Datganiad Polisi Tâl hwn yw sicrhau bod yr Awdurdod yn dryloyw o ran dangos sut y mae'n pennu cyflogau ei weithwyr, yn enwedig cyflogau prif swyddogion a gweithwyr ar y raddfa gyflog isaf, a hynny trwy nodi pa ddulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau.

GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau, a phenderfyniadau ar gyflogau uwch yn benodol, gan gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod ac at allu dangos bod cyflogau'n cael eu dyrannu yn deg. |
| Cyllideb | Mae dyfarniadau cyflog cytunedig a chyhoeddedig y Cyd-gynghorau Cenedlaethol (NJC) yn cael eu hystyried wrth bennu cyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | O dan adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i lunio Datganiad Polisi Tâl blynyddol. |
| Staffio | Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn cefnogi egwyddorion tryloywder, cyflog cyfartal a chefnogi staff. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae triniaeth gyfartal o ran cyflog yn rhan bwysig o amcanion Cydraddoldeb yr ATA. |
| Risgiau | Mae diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yn arwain at risg gyfreithiol a risg i enw da. |

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Datganiad Polisi Tâl 2026/27

- 1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Prif rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:
 - cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig [Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004](#), a [Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio \(Diogelwch Tân\) 2005](#) (a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006), a [Chynllun Cyfuno 1995](#);
 - cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol; a
 - monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.
- 1.2 Er mwyn cyflawni ei rôl, mae'r Awdurdod yn penodi staff i gyflawni dyletswyddau ar ei ran, ac wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn yr holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r Awdurdod hefyd yn dilyn nifer o egwyddorion allweddol sy'n sicrhau fforddiadwyedd, cyflogau cyfartal, tryloywder a chefnogaeth i'r rhai ar gyflogau isel.
- 1.3 Diben y ddogfen hon yw bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ogystal â darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Awdurdod yn pennu cyflogau ei weithwyr. Mae'n darparu gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion a'r gweithwyr sydd ar y raddfa gyflog isaf. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i benderfynu ar gyflogau'r holl staff.
- 1.4 Mae'r ddogfen yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau ac, yn benodol, ar sut i wneud penderfyniadau am gyflogau uwch.
- 1.5 Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ddogfen flynyddol a baratoir ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol sydd dan sylw ynddo.
- 2.0 Fframwaith deddfwriaethol
- 2.1 Mae Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2012/13 a phob blwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r canllawiau ym mis Tachwedd 2021, "Atebolwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru".

- 2.2 Mae'r Ddeddf yn cynnig diffiniad eang o gydnabyddiaeth ariannol ac mae'n cynnwys cyflogau, lwfansau, buddion mewn nwyddau, cynnydd/gwelliannau mewn hawliau pensiwn a thaliadau terfynu swydd.
- 2.3 Pan fydd yn penderfynu ar gyflog a chydabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a, lle bo'n berthnasol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.
- 2.4 Mae'r Awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ar sail cyflog yn digwydd o fewn ei strwythurau cyflog, a hynny er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan ofynion cyflog cyfartal Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae prosesau gwerthuso swyddi wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad gwrthrychol dros wahaniaethau cyflog rhwng gweithwyr ac i sicrhau bod cyflogau'n adlewyrchiad uniongyrchol o ofynion a chyfrifoldebau'r rôl.
- 3.0 Gwneud penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian
- 3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr yr Awdurdod.
- 3.2 Mae'r Awdurdod yn cefnogi trefniadau cydfargeinio ac yn cefnogi'r darpariaethau presennol ar lefel genedlaethol sy'n llywodraethu cyflogau ac amodau gwasanaeth ar gyfer y grwpiau gweithwyr canlynol:
- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd y Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Aur)
 - Y Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol; Cyfansoddiad, Amodau Gwasanaeth, Cyflogau (Llyfr Glas)
 - Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, Cynllun Amodau Gwasanaeth (Llyfr Llwyd)
 - Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd).
- 3.3 Caiff lefelau cyflog eu hadolygu'n flynyddol trwy ddefnyddio'r trefniadau cydfargeinio hyn a bydd unrhyw daliadau "costau byw" sy'n gysylltiedig ag amodau cytundebol yn cael eu gweithredu ar ôl derbyn hysbysiad gan y corff trafod perthnasol.
- 3.4 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw daliadau 'costau byw' cytundebol i'w brif swyddogion yng nghyd-destun penderfyniadau tebyg ynghylch gweithwyr ar gyflogau is, ac yn unol â chanlyniad y cydfargeinio a amlinellir uchod.

- 3.5 Mae'r holl swyddi sydd dan amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol hefyd yn amodol ar gynllun gwerthuso swyddi'r Awdurdod, sy'n asesu pob rôl yn wrthrychol pan fo swydd newydd yn cael ei chreu, pan fo swydd sydd eisoes yn bodoli yn cael ei newid, neu'n ysbeidiol er mwyn pennu gradd gyflog deg sy'n gyson ar draws y grŵp hwn o staff. Pan fyddant yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.
- 3.6 Yn unol â'r cyfansoddiad, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb ariannol flynyddol gan gynnwys fforddiadwyedd costau gweithwyr.
- 4.0 Rôl y Prif Swyddog Tân
- 4.1 Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a hwy sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth. Dyma swydd lawn-amser a benodir ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol a chan ddilyn proses gystadleuol agored. Mae'r broses ddethol yn cael ei goruchwyllo gan Banel Penodi sy'n cynnwys aelodau'r Awdurdod.
- 4.2 Mae'r Prif Swyddog Tân yn gweithio'n agos gydag aelodau etholedig i gyflawni nodau strategol yr Awdurdod. Mae gan y sefydliad gyllideb referniw flynyddol o tua £54.375 miliwn a chyllideb gyfalaf o £6.661 miliwn ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, gan gyflogi tua 900 aelod o staff.
- 5.0 **Cyflogau'r Prif Swyddogion**
- 5.1 Mae polisi cyflog yr Awdurdod ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion, gan gynnwys y Prif Swyddog Tân, yn cyd-fynd â threfniadau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol. O dan y trefniadau hyn, mae cyflogau Rheolwyr Brigâd yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar lefel genedlaethol er mwyn darparu'r isafswm cyflog ar gyfer prif swyddogion tân.
- 5.2 Pan gânt eu penodi, bydd cydnabyddiaeth ariannol y prif swyddogion yn cael ei gosod ar y cyflog sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r farchnad ac yn cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Hefyd, bydd car yn cael ei ddarparu er mwyn iddynt gyflawni'r swydd.
- 5.3 Mae cydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion hefyd yn destun adolygiad cyflog o dro i dro. Mae'r broses hon yn meincnodi lefelau cyflog y prif swyddog yn erbyn cymaryddion perthnasol mewn awdurdodau tân ac achub eraill. Cafodd y broses adolygu cyflogau ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ystod 2021 a chytunwyd ar yr egwyddorion canlynol:

- i. bydd graddfeydd cyflog yn cael eu cysylltu â'r cyfraddau cyflog sylfaenol cyfartalog sy'n cael eu cydgasglu a'u cyhoeddi gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol, a hynny er mwyn cynnig cymariaethau priodol sy'n benodol i'r sector;
- ii. bydd pob swydd lefel uwch yn cael ei chyflogi ar raddfa tri phwynt, a bydd rhaid i gyflogeion gael arfarniad blynyddol boddhaol cyn y cânt godi i'r pwynt nesaf. Bydd pob cynyddran ar y raddfa yn seiliedig ar ffigwr o £1,500 ar gyfer y Prif Swyddog Tân; a chyfran gymharol ar gyfer y swyddi eraill;
- iii. bydd yr Awdurdod yn talu, ar waelod y raddfa driphwynt, y cyflog sylfaenol cyfartalog ar gyfer awdurdod ym Mand Poblogaeth 2, a fydd yn cynnwys yr holl ddyletswyddau;
- iv. bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol sy'n cael eu trafod a'u cytuno'n genedlaethol yn cael eu cymhwyso'n awtomatig, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos gweithwyr y "llyfr llwyd" a'r "llyfr gwyrdd" (oni fydd gweithiwr yn dewis hepgor unrhyw ran ohono);
- v. bydd y perthnasedd cyflog rhwng swyddi PST, DBST, PSTC a PSC yn cael eu hadfer. Cyfrifir cyflog pob swydd lefel uwch fel cyfran o gyflog y Prif Swyddog Tân fel a ganlyn:

| | Cyflog mewn perthynas â'r PST |
|------------------------------|-------------------------------|
| Prif Swyddog Tân | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 80% |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 75% |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | 60% |

- vi. Bydd maint priodol yn cael ei bennu ar gyfer pob swydd, yn unol â'u lefel, a bydd eu maint yn gyson ar draws y lefel er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael yr un cyflog cyfartal am waith o'r un gwerth; a
- vii. bydd cyflogau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â gofynion y dull 'dau drac' o bennu lefelau tâl ar gyfer Rheolwyr Brigâd fel y rhagnodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Tair blynedd yw'r cyfnod derbyniol.

- 5.4 Ystyriwyd meincnodi tair blynedd ar gyflog y Prif Swyddog Tân gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2024. Canfu hyn fod yr egwyddorion a nodir uchod yn parhau i fod yn ddilys a chadarnhawyd bod tâl y Prif Swyddog Tân yn briodol.
- 5.5 Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw fonysau na gwelliannau ychwanegol megis tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Pan fydd prif swyddogion yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol.
- 5.6 Ar ôl ymddiswyddo neu ymddeol o'u dyletswyddau, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau buddion pensiwn a thâl gwyliau.
- 5.7 Pan fo pecyn diswyddo'n cael ei ystyried ar ôl i brif swyddog gytuno i roi'r gorau i'w ddyletswyddau, ac eithrio am y rhesymau a amlinellir uchod, bydd yr Awdurdod llawn yn cael cynnig i bleidleisio cyn y gellir cymeradwyo unrhyw becyn diswyddo.
- 5.8 Cyhoeddir gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol prif swyddogion fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon blyneddol yr Awdurdod. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod.
- 5.9 Mae costau busnes megis tocynnau trên, milltiroedd ceir, llety dros nos a pharcio yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y sefydliad, sy'n berthnasol i bob gweithiwr.
- 5.10 Mae prif swyddogion yn aelodau o'r cynllun pensiwn perthnasol. Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu cynyddiadau neu welliannau i'r pensiwn y tu hwnt i'r trefniadau safonol.
- 5.11 Y cyfnod rhybudd ar gyfer swyddi prif swyddog yw 3 mis.
- 6.0 Staff ar Lefel Uwch
- 6.1 At ddibenion y Datganiad Polisi Tâl hwn, nid yw'r term "prif swyddog" wedi'i gyfyngu i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ac mae'n cynnwys y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân. Mae hyn yn cynnwys y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a Phrif Swyddogion Cynorthwyol.

6.2 Mae'r swyddi hyn yn ddarostyngedig i ystod o delerau ac amodau:

| Grŵp Gweithwyr | Telerau ac Amodau | Buddion eraill | Trefniadau pensiwn |
|-------------------------------|--|----------------|---|
| Prif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Swyddog Monitro | Darperir gan swyddog a enwir o Gyngor Sir y Fflint o dan drefniant contract | | |
| Trysorydd (swyddog adran 151) | Contract rhan-amser a drafodwyd y tu allan i'r telerau ac amodau cenedlaethol. | | |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Llyfr Aur | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prif Swyddog Cynorthwyol | Llyfr Glas | Darperir car | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

7.0 Rheoli talent

7.1 Mae ffocws strategol yr Awdurdod ar gefnogi a datblygu ansawdd arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cynyddu **capasiti'r timau rheoli presennol, cynllunio datblygiad arweinwyr** y dyfodol, hyrwyddo gwerthoedd arweinyddiaeth ledled y sefydliad a denu arweinwyr effeithiol o sectorau eraill, pan fo hynny'n briodol.

8.0 Tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad

8.1 Ar hyn o bryd, nid oes cynllun tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar waith ar gyfer unrhyw swydd ar draws y Gwasanaeth.

9.0 Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff heblaw am brif swyddogion

9.1 Mae polisi cyflog yr Awdurdod ar gyfer talu gweithwyr nad ydynt yn brif swyddogion yn cyd-fynd â'r **cyfraddau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol** ac a negodwyd drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cenedlaethol cyflogwyr a gweithwyr.

| Grŵp Gweithwyr | Telerau ac Amodau | Buddion eraill | Trefniadau Pensiwn |
|--|-------------------|--|----------------------------------|
| Swyddogion (Rheolwyr Gorsaf, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Ardal) | Llyfr Llwyd | Darperir car ar brydles ar gyfer staff ar y rota dyletswydd hyblyg | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Pennaeth Adrannau Corfforaethol | Llyfr Glas | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Prentisiaid Diffoddwyr Tân | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân |
| Staff yr Ystafell Reoli | Llyfr Llwyd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Diogelwch Tân ac Atal Tanau | Llyfr Gwyrdd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Llyfr Gwyrdd | Dim* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Prentisiaid | Llyfr Gwyrdd | Dim | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| * Gyda nifer fach o swyddi lle bydd angen teithio'n bell neu deithio'n aml, bydd dewis i gael car ar brydles | | | |

- 9.2 Mae'r gweithiwr ar y cyflog isaf wedi'i gyflogi ar bwynt 6 colofn gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd), sy'n cyfateb i £25,989 y flwyddyn o 1 Ebrill 2025. O bryd i'w gilydd, bydd yr Awdurdod yn cyflogi prentisiaid nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr ar y cyflogau isaf' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi o dan gontractau cyflogaeth.
- 9.3 Mae'r canllawiau statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn argymhell defnyddio lluosrifau cyflog er mwyn mesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflog ar draws y gweithlu a chyfraddau cyflog uwch-reolwyr, fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn 'Review of Fair Pay in the Public Sector' Hutton (2010).
- 9.4 Yn ôl y lefelau cyflog o fewn yr Awdurdod yn 2025/26, y lluosrif rhwng y gweithiwr ar y cyflog isaf (cyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn) a'r Prif Swyddog Tân yw 1:6.27.

- 9.5 Pan gynhaliwyd adroddiad Hutton ar gyflog teg yn y sector cyhoeddus, gofynnwyd iddynt ymchwilio i'r achos dros gyflwyno cyfyngiad sefydlog ar wasgariad cyflogau o fewn y sector cyhoeddus, a hynny trwy gyflwyno cyfyngiad a fyddai'n atal unrhyw reolwr sector cyhoeddus rhag ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn y mae'r person ar y cyflog isaf yn y sefydliad yn ei ennill. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae Cod y Llywodraeth ar gyfer yr Arferion a Argymhellir ar Dryloywder Data yn argymhell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a chyflog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod. Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn sylfaenol canolrifol ac enillion y Prif Swyddog Tân yw 1:4.19 (ac eithrio'r system dyletswydd ar alwad). Sylwch mai dim ond cyflogau amser llawn sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn a'i fod yn eithrio lwfansau.
- 9.6 Yn eu datganiad ariannol blynyddol, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, am enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad, ac am y gymhareb rhwng y ddau ffigur hyn er mwyn dangos y berthynas rhwng y ddau.
- 10.0 Cefnogaeth i staff ar gyflogau is
- 10.1 Mae'r Awdurdod yn ymwrwymo i dalu cyflogau teg ac i gefnogi gweithwyr ar gyflogau is ac wedi derbyn achrediad Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, yn unol â'r egwyddorion a hyrwyddir gan y Sefydliad Cyflog Byw.
- 10.2 Mae ystod o fesurau cymorth ychwanegol ar gael i weithwyr, gan gynnwys y Cerdyn Disgownt Golau Glas, sy'n cynnig gostyngiadau gan ystod eang o fanwerthwyr a gwasanaethau. Mae cymorth pellach yn cynnwys cynllun Beicio i'r Gwaith, Rhaglen Cymorth i Weithwyr, gwasanaethau cwnsela, darpariaeth lechyd Galwedigaethol a thalebau gofal plant.
- 10.3 Mae cynllun ffisiotherapi hefyd ar gael i bob gweithiwr. Mae gweithwyr yn cael cymorth ariannol er mwyn gallu atgyfeirio eu hunain ar gyfer therapi am anaf cyhyrsgerbydol neu anhwylderau eraill.
- 11.0 Ychwanegiadau at Gyflogau Gweithwyr Eraill
- 11.1 Lle bo'n briodol, ac yn unol ag amodau gwasanaeth cenedlaethol neu gytundebau lleol, gall unigolion gael lwfans ar ben eu cyflog.
Mae'r enghreifftiau'n cynnwys, ymhlith eraill:
- darpariaeth ar alwad neu y tu allan i oriau
 - argaeledd parhaus
 - cyfrifoldeb ychwanegol
 - lwfans rhent, tanwydd a golau
 - lwfans ffôn
 - cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr
 - lwfansau milltiroedd

12.0 Honoraria

12.1 Gall aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, a hynny dros gyfnod estynedig, gael taliad untro ychwanegol, gyda'r swm yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos dan sylw. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- pan fo gweithiwr yn gwneud gwaith ychwanegol sylweddol dros dro, y tu hwnt i'w cyfrifoldebau arferol; neu
- pan fo gweithiwr yn gwneud cryn dipyn o waith dros eu horiau contract arferol, ond nad ydynt yn gymwys i gael taliadau goramser oherwydd eu safle ar y raddfa gyflog.

12.2 Byddai unrhyw benderfyniad ynghylch honoraria arfaethedig i brif swyddogion angen cymeradwyaeth yr Awdurdod.

12.3 Bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'r holl staff eraill yn cael eu hystyried gan y Pennaeth Adran priodol mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

13.0 Polisi ymadael

13.1 Pan fydd unigolyn yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau o'u gwirfodd, ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol ac eithrio'r hyn sy'n ddyledus at ddibenion cyflog neu daliadau a wneir i unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol wrth ymddeol. Gall taliadau o'r fath gynnwys cyflog a delir yn lle rhybudd, hawliau buddion pensiwn, tâl gwyliau ac unrhyw ffioedd neu lwfansau a delir.

13.2 Gall gweithwyr sydd wedi'u cyflogi dan amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod, hawlio taliad pensiwn ychwanegol a/neu daliad dileu swydd os bydd yr awdurdod yn dewis terfynu eu cyflogaeth yn gynnar, o dan ddisgrisiwn yr Awdurdod mewn perthynas â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd) – sy'n aml yn cael eu galw'n Rheoliadau lawndal ar sail Disgrisiwn.

13.3 Mae gan y Gwasanaeth bolisi ar gyfer trefniadau diswyddo neu ymadael.

13.4 Ar brydiau, bydd cyn-weithwyr yn cael eu hailgyflogi gan y Gwasanaeth. Pan fo cyfanswm eu henillion a'u pensiwn yn uwch na'u cyflog ar ddiwedd eu cyflogaeth wreiddiol, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, gall y pensiwn gael ei leihau yn unol â rheoliadau'r cynllun.

14.0 Trefniadau oddi ar y gyflogres

14.1 Anaml y bydd yr Awdurdod yn talu am wasanaeth unigolion gan ddefnyddio trefniadau oddi ar y gyflogres. Dim ond ar sail eithriadol y byddant yn cael eu hystyried, a hynny ar gyfer darnau arbenigol o waith na cheir capasiti neu arbenigedd mewnol ar eu cyfer. Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau bod dangosydd statws cyflogaeth CThEF yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cyflenwr cyn y gwneir unrhyw daliadau.

15.0 Atodiadau

[Atodiad 1](#) Matrics cyflogau Prif Swyddogion

[Atodiad 2](#) Cyfraddau cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol

[2.1](#) Rolau Diffoddwyr Tân

[2.2](#) Y System Dyletswydd Ar Alwad

[2.3](#) Rolau'r Ystafell Reoli

[Atodiad 3](#) Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, matrics cyflogau

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Cyfraddau Cyflog Prif Swyddogion (fel yr oeddent ym mis Gorffennaf 2025)

| Swydd | Cyflog | Cyflog | Cyflog | % o PST** |
|-------|------------|------------|------------|-----------|
| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | |
| PST* | £159,512 | £161,228 | £162,945 | |
| DBST* | £127,919 | £129,292 | £130,666 | 80% |
| PSTC* | £120,022 | £121,309 | £122,595 | 75% |
| PSC | £96,327 | £97,356 | £98,386 | 60% |

* yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol am drefniadau dyletswydd parhaus

** Mae dyfarniad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol a gafodd ei gytuno'n genedlaethol ac a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2025, gan gymhwyso codiad cyfradd unffurf o £1,500, wedi arwain at amrywiad bychan mewn cymariaethau cyflog, a hynny o oddeutu 0.002% ar gyfer y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, a 0.003% ar gyfer y Prif Swyddog Cynorthwyol. Nid yw'r amrywiadau hyn yn newid egwyddorion cyflog cytunedig yr Awdurdod na pherthnasau cyflog arfaethedig, a byddant yn cael eu haddasu i gydymffurfio â'r canrannau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad cyflog prif swyddog nesaf, a drefnwyd ar gyfer 2027.

| Gwasanaeth a ddarperir yn allanol | Gwerth (y flwyddyn) |
|-----------------------------------|-----------------------------|
| Swyddog Monitro | £ 20,073 (heb gynnwys TAW)* |
| Swyddog Adran 151 | £8,510 |

*yn seiliedig ar gost y llynedd

ROLAU DIFFODD TÂN - CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2025

(mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)

| | Blynyddol sylfaenol £ | Cyfradd sylfaenol yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---------------------|-----------------------------|----------------------------------|--------------------------|
| Diffoddwr Tân | | | |
| Datblygu | 30,384 | 13.87 | 20.81 |
| Cymwys | 38,881 | 17.75 | 26.63 |
| | | | |
| Rheolwr Criw | | | |
| Datblygu | 41,322 | 18.87 | 28.31 |
| Cymwys | 43,104 | 19.68 | 29.52 |
| | | | |
| Rheolwr Gwylfa | | | |
| Datblygu | 44,038 | 20.11 | 30.17 |
| Cymwys A | 45,260 | 20.67 | 31.01 |
| Cymwys B | 48,202 | 22.01 | 33.02 |
| | | | |
| Rheolwr Gorsaf | | | |
| Datblygu | 50,135 | 22.89 | 34.34 |
| Cymwys A | 51,642 | 23.58 | 35.37 |
| Cymwys B | 55,301 | 25.25 | 37.88 |
| | | | |
| Rheolwr Grŵp | | | |
| Datblygu | 57,743 | 26.37 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 59,476 | 27.16 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 64,013 | 29.23 | Amherthnasol |
| | | | |
| Rheolwr Ardal | | | |
| Datblygu | 67,792 | 30.96 | Amherthnasol |
| Cymwys A | 69,823 | 31.88 | Amherthnasol |
| Cymwys B | 74,360 | 33.95 | Amherthnasol |
| | | | |

ROLAU DIFFODD TÂN – CYFRADDAU CYFLOG O 1 Gorffennaf 2025 (SYSTEM DYLETSWYDD AR ALWAD)

(mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)

| | (1) £ y flwyddyn | (2) £ y flwyddyn | (3) £ yr Awr | (4) £ yr achlysur |
|---------------------|------------------------|------------------------|--------------------|-------------------------|
| Diffoddwr Tân | | | | |
| Datblygu | 4,558 | 2,279 | 13.87 | 5.12 |
| Cymwys | 5,832 | 2,916 | 17.75 | 5.12 |
| Rheolwr Criw | | | | |
| Datblygu | 6,198 | 3,099 | 18.87 | 5.12 |
| Cymwys | 6,466 | 3,233 | 19.68 | 5.12 |
| Rheolwr Gwylfa | | | | |
| Datblygu | 6,606 | 3,303 | 20.11 | 5.12 |
| Cymwys A | 6,789 | 3,395 | 20.67 | 5.12 |
| Cymwys B | 7,230 | 3,615 | 22.01 | 5.12 |
| Rheolwr Gorsaf | | | | |
| Datblygu | 7,520 | 3,760 | 22.89 | 5.12 |
| Cymwys A | 7,746 | 3,873 | 23.58 | 5.12 |
| Cymwys B | 9,602 | 4,801 | 29.23 | 5.12 |
| Rheolwr Grŵp | | | | |
| Datblygu | 8,662 | 4,331 | 26.37 | 5.12 |
| Cymwys A | 8,921 | 4,461 | 27.16 | 5.12 |
| Cymwys B | 9,602 | 4,801 | 29.23 | 5.12 |
| Rheolwr Ardal | | | | |
| Datblygu | 10,169 | 5,085 | 30.96 | 5.12 |
| Cymwys A | 10,473 | 5,237 | 31.88 | 5.12 |
| Cymwys B | 11,154 | 5,577 | 33.95 | 5.12 |

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (15% o'r cyflog blynyddol sylfaenol amser llawn, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw ar gyfer gweithwyr ar y system ddyletswydd criwio dydd (7.5% o'r cyflog blynyddol sylfaenol amser llawn, fel y nodir yn Atodiad A)

Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd fesul awr ar gyfer gwaith a wnaed

ROLAU PENODOL YR YSTAFELL REOLI – CYFRADDAU CYFLOG O 1 GORFFENNAF 2025

(mae'r dyfarniad cyflog o 1 Gorffennaf 2026 ymlaen yn dal i fod yn destun trafod cenedlaethol)

| | Blynyddol dol sylfaen ol* £ | Cyfradd sylfaenol yr awr £ | Cyfradd goramser £ |
|---|---|-------------------------------------|--------------------------|
| Diffoddwr Tân (Yr Ystafell Reoli) | | | |
| Datblygu | 28,865 | 13.18 | 19.77 |
| Cymwys | 36,937 | 16.87 | 25.31 |
| Rheolwr Criw (Yr Ystafell Reoli) | | | |
| Datblygu | 39,256 | 17.93 | 26.9 |
| Cymwys | 40,949 | 18.70 | 28.05 |
| Rheolwr Gwylfa (Yr Ystafell Reoli) | | | |
| Datblygu | 41,836 | 19.10 | 28.65 |
| Cymwys A | 42,997 | 19.63 | 29.45 |
| Cymwys B | 45,792 | 20.91 | 31.37 |
| Rheolwr Gorsaf (Yr Ystafell Reoli) | | | |
| Datblygu | 47,628 | 21.75 | 32.63 |
| Cymwys A | 49,060 | 22.40 | 33.60 |
| Cymwys B | 52,536 | 23.99 | 35.99 |
| Rheolwr Grŵp (Yr Ystafell Reoli) | | | |
| Datblygu | 54,856 | 25.05 | Amherthnaso |
| Cymwys A | 56,502 | 25.80 | Amherthnaso |
| Cymwys B | 60,812 | 27.77 | Amherthnaso |

* (95% o'r cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer swyddi diffodd tân perthnasol, fel y nodir yn Atodiad A)


CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2025 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR
**DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GWYRDD (mae'r trafodaethau cyflog ar
 gyfer 26/27 yn parhau)**

| Pwynt ar y Golofn Gyflog | 01-Ebr-25 | |
|--------------------------|------------|---------|
| | y flwyddyn | yr awr* |
| 2 | £24,413 | £12.65 |
| 3 | £24,796 | £12.85 |
| 4 | £25,185 | £13.05 |
| 5 | £25,583 | £13.26 |
| 6 | £25,989 | £13.47 |
| 7 | £26,403 | £13.69 |
| 8 | £26,824 | £13.90 |
| 9 | £27,254 | £14.13 |
| 10 | £27,694 | £14.35 |
| 11 | £28,142 | £14.59 |
| 12 | £28,598 | £14.82 |
| 13 | £29,064 | £15.06 |
| 14 | £29,540 | £15.31 |
| 15 | £30,024 | £15.56 |
| 16 | £30,518 | £15.82 |
| 17 | £31,022 | £16.08 |
| 18 | £31,537 | £16.35 |
| 19 | £32,061 | £16.62 |
| 20 | £32,597 | £16.90 |
| 21 | £33,143 | £17.18 |
| 22 | £33,699 | £17.47 |
| 23 | £34,434 | £17.85 |
| 24 | £35,412 | £18.35 |
| 25 | £36,363 | £18.85 |
| 26 | £37,280 | £19.32 |
| 27 | £38,220 | £19.81 |
| 28 | £39,152 | £20.29 |
| 29 | £39,862 | £20.66 |
| 30 | £40,777 | £21.14 |
| 31 | £41,771 | £21.65 |
| 32 | £42,839 | £22.20 |
| 33 | £44,075 | £22.85 |
| 34 | £45,091 | £23.37 |
| 35 | £46,142 | £23.92 |
| 36 | £47,181 | £24.46 |
| 37 | £48,226 | £25.00 |
| 38 | £49,282 | £25.54 |
| 39 | £50,269 | £26.06 |
| 40 | £51,356 | £26.62 |
| 41 | £52,413 | £27.17 |
| 42 | £53,460 | £27.71 |
| 43 | £54,495 | £28.25 |

*cyfradd fesul awr wedi'i chyfrifo trwy rannu'r cyflog blynyddol â 52.143 wythnos (sef 365 diwrnod wedi'i rannu â 7) ac yna ei rannu â 37 awr (sef yr wythnos waith safonol yn ôl Cytundeb Cenedlaethol y 'Llyfr Gwyrdd')

CYFRADDAU TÂL O 1 EBRILL 2025 AR GYFER STAFF A GYFLOGIR AR
DELERAU AC AMODAU'R LLYFR GLAS
(mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer 26/27 yn parhau)

| Pwynt ar y Golofn Gyflog | 01-Ebr-25 | |
|--------------------------------|------------|--------|
| | y flwyddyn | yr awr |
| 48 | £59,538 | £30.86 |
| 49 | £61,699 | £31.98 |
| 50 | £62,778 | £32.54 |
| 51 | £63,857 | £33.10 |

| | | |
|-------------------|--|---|
| Adrodd i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | |
| Swyddog Cyswllt | Mike Plant - Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | |
| Pwnc | Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-2027 a'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysyllfiedig, a cheisio cymeradwyaeth i'r fersiwn derfynol o'r dogfennau uchod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.
- 3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau i wella'n barhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.
- 4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.
- 5 Mae Cylchlythyr Tân ac Achub Llywodraeth Cymru W-FRSC(2024)06 yn cadarnhau y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

- 6 Dyma'r trydydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP), a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yr Awdurdod 2024-2029. Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal tanau ac argyfyngau eraill ac ymateb iddynt. Ysgrifennwyd yr amcanion i ystyried gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd atynt uchod.
- 7 Dangosodd y lefelau ymateb gynnydd o 42% (397 eleni o 279) ers ymgynghoriad cyhoeddus 2025-26, er bod yr ymatebion y crybwyllwyd eu bod gan aelodau staff yn isel o hyd.
- 8 Roedd y gefnogaeth ar gyfer yr amcanion gwella a llesiant arfaethedig yn gyson uchel ar draws pob un o'r pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel, gan amrywio rhwng 93% a 97%.
- 9 Rhannwyd sylwadau gair am air gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol, neu'r arbenigwr pwnc, i'w hadolygu ac i ystyried pa effaith, os o gwbl, a gaiff yr adborth ar eu hamcanion arfaethedig ar gyfer 2026-27.
- 10 Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i unrhyw un o'r amcanion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- 11 Mae undebau llafur wedi bod yn ymwneud â datblygu'r amcanion llesiant fel rhan o'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ac yn y Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi ym mis Chwefror 2026 cytunodd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur a oedd yn bresennol fod consensws wedi'i gyrraedd ar yr amcanion.

SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL

- 12 Cyflwynwyd y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 i'r Panel Gweithredol ar 16 Mawrth 2026 lle cymeradwyodd yr Aelodau ef i'w gyhoeddi.

ARGYMHELLIAD

- 13 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) Nodi cynnwys yr adroddiad Ymgynghori; a
 - ii) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026–**27 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** cysylltiedig i'w cyhoeddi.

CEFNDIR

- 14 Bydd yr Awdurdod yn sôn am ei gynnydd yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2026-27 yn ei Asesiad Perfformiad Blynyddol yn Hydref 2027.

GWYBODAETH

- 14 Agorwyd yr ymgynghoriad ar gyfer ymatebion rhwng 23 Hydref ac 16 Rhagfyr 2025. Cynhaliodd y Gwasanaeth ymarferiad sicrhau ansawdd data ar y data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) oedd ar gael i sicrhau bod y ffigurau a ddyfynnwyd yn gywir. Fe wnaeth hyn ohirio rhyddhau'r ymgynghoriad o ddau ddiwrnod.
- 15 Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2026-27, a Fersiwn Hawdd ei Ddarllen, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Cyhoeddwyd hefyd Asesiad o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb.
- 16 Cafodd ymatebwyr wahoddiad i lenwi holiadur i ddweud a oeddent yn cytuno y byddai'r amcanion arfaethedig yn cyflawni yn erbyn 'Ein Pum Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' ai peidio. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ychwanegu sylwadau i gefnogi eu barn.
- 17 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar fewnwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân, ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion y talwyd amdanynt yn y wasg ysgrifenedig.
- 18 Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, **ac fe'u** dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliadau Diogel ac Iach ac mewn digwyddiadau ymgysylltu.
- 19 Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron mewn copi caled. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.
- 20 Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.
- 21 Trefnodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb penodol gyda gwahanol grwpiau diddordeb o ran cydraddoldeb.
- 22 Gellir gweld y sylwadau gair am air yn atodiadau Adroddiad yr Ymgynghoriad.

GOBLYGIADAU

| | |
|--------------------------------------|--|
| Amcanion Llesiant | Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf |
| Cyllideb | Amherthnasol |
| Cyfreithiol | Paratowyd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i baratoi a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. |
| Risgiau | Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

Amcanion Llesiant a Gwella

2026 – 2027



Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud

POBL

ATAL


DIOGELU

YMATEB

AMGYLCHEDD

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cyflwyniad | 3 |
| Ein Gwasanaeth | 3 |
| Ein Staff | 4 |
| Ardal Ein Gwasanaeth | 4 |
| Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth | 5 |
| Ein Risgiau a'r Galw | 7 |
| Ein Hegwyddorion | 7 |
| Ein Hegwyddor Pobl | 8 |
| Ein Hegwyddor Atal | 9 |
| Ein Hegwyddor Diogelu | 10 |
| Ein Hegwyddor Ymateb | 11 |
| Ein Hegwyddor Amgylcheddol | 12 |
| Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu | 13 |
| Sut i Roi Adborth | 16 |



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

Cyflwyniad



Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg ac i wella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned, ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r cynlluniau gweithredu blynyddol canlynol bellach wedi'u cyhoeddi, sy'n cynnwys amcanion gwella a lles i'n galluogi i gyflawni yn erbyn ein hamcanion hirdymor. Mae'r ddau gynllun i'w cael [yma](#).

- 2024-25 - wedi'i gyhoeddi Gorffennaf 2024
- 2025-26 - wedi'i gyhoeddi Ebrill 2025

Y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol hwn, ar gyfer 2026-27, yw'r trydydd cynllun blynyddol sy'n cynnwys amcanion a fydd yn parhau i gyflawni yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29.

Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, [yma](#).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.



Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 53 injan dân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.




Gallwch ddarllen mwy am waith y rhai sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn dda, boed nhw'n ddiffoddwyr tân neu'n arbenigwyr busnes, [yma](#).

Ardal Ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn ardal o 6,172 cilomedr sgwâr sydd â phoblogaeth o 687,000, ac sydd â chryn amrywiaeth yn ei thirwedd, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir, ac mae'n ffordd sy'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, gan ymestyn o Gaerdybi i Ddwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg [yma](#).



Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth

Fel pob corff arall yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth [yma](#).

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, a hynny trwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor o 23 Hydref 2025 tan 16 Rhagfyr 2025. Ystyriwyd yr adborth a dderbyniwyd wrth lunio ein cynigion terfynol. Bydd adroddiad ar wahân yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan ar adeg ei gyhoeddi.

Mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella blaenorol i'w gael yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2024-25, [yma](#).

Mae ein hamcanion ar gyfer 2026-27 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).


Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymroi i gefnogi [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), gan groesawu'r dyletswyddau a'r gwaith

a ddaw o fod yn bartner statudol ar draws tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni'n deall

diben a nod y Ddeddf, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar gymunedau ardal y Gwasanaeth.

O ganlyniad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, byddwn yn ystyried effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cofio bod angen ystyried amrywiaeth cyfoethog y bobl sy'n byw, sy'n gweithio, ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru, a byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i wireddu ei Amcanion a, pan fo'n berthnasol, i helpu eraill i wireddu eu hamcanion hwy.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd



Cymru Lewyrchus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn gwneud gwaith arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.



Cymru Gydnerth

Mae ein **Hegwyddor Amgylcheddol** a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at greu Cymru Gydnerth trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon. Trwy ein **Hegwyddor Amddiffyn** byddwn yn ymdrechu i leihau'r nifer o danau gwyllt, a thrwy hynny wella ansawdd aer a gwarchod cynefinoedd naturiol ac ecosystemau.



Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Gyda'n **Hegwyddor Pobl**, byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw gweithlu medrus, dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn hefyd yn nodi potensial staff ac yn gwneud y mwyaf ohono drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Byddwn yn parhau i ymgynghori â staff, undebau llafur a'r cyhoedd ar faterion a chynigion statudol a allai gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.



Cymru Iachach

Byddwn yn cyfrannu at greu Cymru Iachach gyda'n **Hegwyddor Atal**, trwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, a thrwy wneud i bob cyswllt gyfrif trwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodir gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy gynnal ymgyrchoedd aml-asantiaethol, ar sail gwybodaeth, sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol, byddwn yn lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Trwy ein **Hegwyddor Pobl** byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol, a thrwy ein **Hegwyddor Ymateb** byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig a llai poblog.



Gymru o Gymunedau Cydlynus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol** byddwn yn cyfrannu at greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal, neu trwy leihau eu heffaith cymaint ag sy'n bosibl.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd ein **Hegwyddor Pobl** yn cyfrannu at greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a hynny trwy gynnig mynediad at ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy ganiatáu i bobl gyfathrebu â ni yn y Gymraeg, gan gefnogi ein staff i siarad eu hiaith ddewisol yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Trwy ein **Hegwyddor Amgylchedd**, byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân diesel fel eu bod yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen, trwy brynu ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn yn unig, a thrwy gael gwared ar wres nwy a Nwy Petrolïwm Hylif o'n hystad yn raddol.

Gyda'n **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn ddiogel drwy gynnal gweithgareddau ataliol, a hynny gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a thrwy fod yn barod i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Cymunedol.

Trwy ein gwaith **Diogelu**, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau o nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Trwy ein **Hegwyddor Diogelu**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw [yma](#).

Ein Hegwyddorion

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau ac i'r bobl sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn gweithio yma. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion [yma](#).



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

Amcanion ein Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2026–27

Ein Hegwyddor Pobl



Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhellant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026–27?

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gynllun gweithredu gwella mewnol yn Dilyn yr arolwg staff Teulu Tân 2025
- Ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll i staff yr adran Gyllid er mwyn lleihau'r potensial o golled ariannol.
- Gwerthuso'r gweithredu argymhellion o'r adolygiad o ddiwylliant gan Crest, a pharhau i gyflawni yn eu herbyn.
- Archwilio ffyrdd o gefnogi a gwella lechyd a Lles gweithwyr wrth i'w hamgylchiadau bywyd newid.
- Gwella a symleiddio'r prosesau Adnoddau Dynol.
- Cynnal gwelliannau i'r Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwneud gwelliannau Seiberddiogelwch yn unol â'r Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber.
- Adolygu trefniadau Diogelu Data a Llywodraethu, creu cofrestr asedau newydd ac ymgymryd ag adolygiad o'r polisi cadw data.
- Gweithredu Strategaeth Pobl a Sefydliad 2025–30.
- Gweithredu Strategaeth Hyfforddiant a chynllun darparu Hyfforddiant Gweithrediadau a Rheoli.
- Ymgorffori Deddf Llesiant Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015 ledled y Gwasanaeth.
- Parhau i adeiladu ar ein llwyddiant cychwynnol ac ymgorffori ein hymrwymiad i weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar draws pob maes o'r Gwasanaeth.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



Ein Hegwyddor Atal



Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Darparu data o ansawdd i gefnogi'r adran Diogelwch Tân Cymunedol yn y dull newydd sy'n seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach lefel uchel a nodwyd.
- Cyflwyno ymyriadau diogelwch cartref dan arweiniad cudd-wybodaeth sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl preswylwyr yn ein cymunedau. Byddwn yn cyflwyno pedair ymgyrch aml-asiantaeth wedi'u targedu ledled Gogledd Cymru.
- Cydlynu grŵp prosiect i ymchwilio i system newydd i ddisodli System Rheoli Cofnodion Farynor.
- Lleihau marwolaethau a digwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â dŵr trwy addysg ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Gogledd Cymru drwy ymyriadau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gweithredu Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol gynhwysfawr, i leihau cynnau tanau'n fwriadol a diogelu cymunedau.
- Ymgorffori diogelu fel elfen graidd o arfer bob dydd, trwy sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol ar gyfer eu swyddi.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



Ein Hegwyddor Diogelu



Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan wybodaeth o ran ein Rhaglen Arolygu ar sail Risg, er mwyn lleihau anafiadau a marwolaethau oherwydd tân mewn cartrefi ac eiddo nad ydynt yn gartrefi.
- Datblygu pob swyddog goruchwylio a phob swyddog system ddyletswydd hyblyg i Lefel 2 Diogelwch Tân ac Arolygwyr i fframwaith cymhwysedd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Cynnal ymgyrchoedd sicrwydd diogelwch tân busnes misol i hyrwyddo diogelwch tân mewn adeiladau masnachol.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



Pobl

Atal

Diogelu

Ymateb

Amgylchedd

Ein Hegwyddor Ymateb



Darparu ymateb brys effeithiol.

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ymateb i risgiau tân newydd a risgiau tân cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, a mynd i gyfarfodydd y gweithgor aml-asiantaeth Ion Lithiwm.
- Cynnydd gyda'r prosiect arfaethedig ar gyfer Canolfan Hyfforddi a Datblygu newydd yn Llanellwy, a fydd yn diwallu anghenion hyfforddi a datblygu'r diffoddwr tân modern.
- Mabwysiadu argymhellion adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ar sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn 'Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig'.
- Cyflawni cam nesaf y rhaglen amnewid Tyrau Hyfforddiant.
- Adolygu ein harferion gwaith o ran diffoddwyr tân ar alwad.
- Cyflwyno Grŵp Rheoli Parhad Busnes, i adolygu'r prosesau Parhad Busnes presennol ar gyfer y Gwasanaeth.
- Cyflwyno rhaglen o newid i sicrhau bod argaeledd criwiau ymateb ar draws ein cymunedau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- Parhau â'n cynllunio a'n paratoadau ar gyfer y newid i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys dan arweiniad Llywodraeth y DU.
- Parhau i fonitro ac adolygu'r cynlluniau peilot gorsafodd Niwclews a system shift Gwydnwch parhaus yn rheolaidd i wella'r ddarpariaeth frys yn ein hardaloedd gwledig a chynyddu gwytnwch y ddarpariaeth ledled y gwasanaeth.
- Edrychwch i ddisodli Ysgol Llwyfan Uchel gydag ysgol drofwrdd fodern.
- Parhau i brynu injannau tân gyda'r egwyddor 'cab glân' mewn golwg er mwyn lleihau amlygiad o halogion tân i ddiffoddwyr tân.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.



Ein Hegwyddor Amgylcheddol



Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ehangu'r rhwydwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) presennol ar draws y Gwasanaeth, a throsglwyddo i gerbydau trydan.
- Parhau i fwrw ymlaen â'n trawsnewidiad o gerbydau diesel presennol i gerbydau sy'n defnyddio Olew Llysiau wedi'i Hydrodrin (HVO).
- Diweddarau'r System feddalwedd Rheoli Adeiladau.
- Gweithredu'r strategaeth cynnal a chadw ataliol 'Mecanyddol a Thrydanol' newydd arfaethedig.
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fanwl o'n hadeiladau i gryfhau gwaith monitro data amgylcheddol.
- Ehangu cylch gwaith y cynghorwyr pwnc i ymgorffori newid hinsawdd a datblygiadau technolegol wrth gasglu a rhannu gwybodaeth sy'n benodol i safleoedd.
- Ceisio gwella ein hadroddiadau cylch bywyd caffael a'n hymgysylltu â chyflenwyr.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu

Dyma rai enghreifftiau o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol:



Cymru Lewyrchus

- Y nod wrth weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yw gwella'r ddarpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r sefydliad o ddiffoddwyr tân ar alwad ledled Gogledd Cymru, gan gynnig llwybrau at gyflogaeth lawn-amser
- Hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio Microsoft 365 ac i fod yn seiber-ymwybodol.



Cymru Gydnerth

- Rydym eisoes yn sicrhau nad ydym yn torri gwair rhwng Mai a Medi bob blwyddyn ar ein hystad.
- Byddwn yn dal ati i addysgu tîrfeddianwyr am sut i ddefnyddio tir yn gyfrifol, gan gynnwys gadael i anifeiliaid bori a mesurau eraill sy'n atal tanau gwyllt.
- Rydym yn gosod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid duon mewn lleoliadau priodol o amgylch ein hystad.
- Ein nod yw trosi ein Fflyd o Gerbydau Trwm i ddefnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) yn hytrach na Diesel.
- Byddwn yn ceisio trosi ein hystad fel nad oes yna systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau.
- Ein nod yw gosod paneli solar ffotofoltäig yn y mwyafrif o'n safleoedd erbyn 2030.



Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Byddwn yn datblygu strategaeth hyfforddiant a datblygu 2026–2029 yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, gan alluogi ein staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnyhau nhw eu hangen.
- Byddwn yn defnyddio ein hymgyngoriadau â'r cyhoedd, y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r arolygon Teulu Tân a gynhelir bob dwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Cydraddoldeb Canlyniadau Iechyd – diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd – ACE ac ymyriadau ieuencid





Cymru Iachach

- Byddwn yn parhau â'r gwaith o sefydlu prosesau cadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi manau gwyrdd cymunedol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel rhai casglu sbwriel, mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a chynghorau lleol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiadau o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau gwell o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach rhagweithiol, yn seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dod i ddeall esblygiad y bygythiad gan Systemau Storio Ynni Batri, a byddwn yn cynnal ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- Rydym yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, ynghyd ag ymgyrchoedd eraill sy'n annog ffyrdd iach ac egniol o fyw. Rydym yn annog ein staff i fyw mewn ffordd iach ac egniol, a hynny trwy hyrwyddo cynlluniau maetheg a thrwy bennu amseroedd i ddefnyddio ein hystafelloedd ffitrwydd.



Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae rhwydweithiau staff mewnol a grwpiau adnoddau yn creu llwyfannau diogel a chynhwysol lle gall pobl gael gafael ar gyngor, codi pryderon, rhannu syniadau a darparu adborth.
- Trwy ddefnyddio dylunio cynhwysol, mae ein pobl yn lleihau eu hól troed amgylcheddol trwy weithio'n ystwyth, yn hyblyg, ac o bell. Mae ein mentrau rhannu ceir yn effeithiol ac yn helpu ein pobl i leihau costau tanwydd ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae natur y gwaith a wnawn i atal tanau yn golygu bod ein gwasanaeth yn ychwanegu llawer o werth i gymuned Gogledd Cymru, gan gynnig cyngor diogel ac iach sy'n cynnwys diogelwch, iechyd a llesiant. Hefyd, trwy wneud gwaith ymgysylltu gweithredol yn y gymuned yn ystod 2026/27, bydd ein gwasanaeth yn cyflawni rhaglenni, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n meithrin cymunedau sy'n iachach ac yn fwy diogel. Mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu cyfleu gan ddefnyddio ystod o wahanol fethodolegau cyfathrebu, gan wella mynediad i wahanol fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.
- Rydym yn ychwanegu gwerth sylweddol i gymuned Gogledd Cymru drwy gynnal archwiliadau diogel ac iach, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol, ar iechyd ac ar les.
- Rydym yn aelodau gweithgar o amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau pwysig yn y gymuned. Er enghraifft, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru wedi sefydlu Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.





Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff ar lefelau 2 a 3.
- Rydym yn sicrhau bod staff rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â phobl agored i niwed, fel gweithwyr yr Ystafell Reoli a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig dewis iaith rhagweithiol yn unol â'r gwerthoedd a geir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru
- Drwy hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog, rydym yn caniatáu i holl drigolion Gogledd Cymru ac ymwelwyr â'r ardal eu defnyddio yn eu hiaith ddewisol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â Mentrau Iaith ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn amlwg mewn dathliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol lle gall y Gwasanaeth wneud gwaith ymgysylltu



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Byddwn yn adolygu eitemau stoc yn ein Storfeydd ac yn datblygu arferion gweithio sy'n lleihau gwastraff.
- Byddwn yn parhau i newid ein fflyd o gerbydau ysgafn er mwyn defnyddio cerbydau hybrid a thrydan.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyflenwyr ar sail sgôr datblygu Cynaliadwyedd a datblygu dwysedd Carbon.
- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy parhaus ar gyflenwyr, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â threth ac â'r gyfraith, caethwasiaeth fodern, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cyflog Byw Cenedlaethol neu Isafswm Cyflog Byw, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gweithredu mewn modd moesegol.
- Defnyddio cyflenwyr o fewn fframweithiau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol moesegol a chynaliadwy sydd wedi'u pennu ymlaen llaw.
- Rydym wedi cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS ar bob aelod o staff fel rhan o'n mesurau diogelwch, gan sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel i'n gweithwyr ac i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.



Sut i Roi Adborth

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus y fersiwn ddrafft o'r ddogfen hwn o 23ain i Hydref tan 14eg o Rhagfyr 2025.

Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn helpu ni i wneud hyn rydym eisiau sicrhau bod eich barn yn cael ystyriaeth wrth i ni ddarparu ein gweithgareddau a'ch hysbysu chi.

Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynllun hwn, neu sut y gallwn wella ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, rydym eisiau clywed gennych chi.

Ysgrifennwch atom:

Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) Pencadlys
Ffordd Salesbury
Pare Business Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL 17 0JJ

Ffoniwch ni:

07920 084 603

Anfonwch e-bost atom ni ar:

EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru

Gwneud Cais Am Archwiliad Diogelwch Tân Yn Y Cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

Ein dilyn ni

 @northwalesfire

 @northwalesfireservice

 @northwalesfire

 @nwalesfireservice







Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol Drafft

Adroddiad Ymgynghori 2026 - 2027



Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud

POBL

ATAL

DIOGELU

YMATEB

AMGYLCHEDD

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Cefndir | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Methodoleg | 3 |
| Arsylwadau | 5 |
| Y Camau Nesaf | 5 |
| Cipolwg ar yr Ymatebion | 6 |
| Ymatebion Holiadur | 7 |
| Risgiau Cymunedol | 7 |
| MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR POBL' | 9 |
| MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL' | 13 |
| MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU' | 16 |
| MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB' | 17 |
| MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD' | 18 |
| Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu Darparu | 19 |
| Materion Cydraddoldeb | 20 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | 21 |
| Atodiad A | 27 |
| Atodiad B | 35 |
| Atodiad C | 39 |
| Atodiad D | 44 |
| Atodiad E | 46 |
| Atodiad F | 49 |
| Atodiad G | 52 |
| Atodiad H | 56 |
| Atodiad I | 57 |

Cefndir

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

Mae hefyd yn ofyniad statudol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant blynyddol.

Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod eu hamcanion llesiant, a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyhoeddi un adroddiad- Ffynhonnell: Cylchlythyr Tân ac Achub Cymru W-FRSC [W-FRSC\(2024\)06](#).

Dull Gweithredu

Yn ystod mis Ebrill 2021 cymeradwyodd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân y 'Cynllun Rheoli Risg Cymunedol' (CRhRC) fel Safon Tân ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr.

Er bod Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu canllawiau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân i gyhoeddi CRhRC.

Fel rhan o'r '[Safon Tân](#)' dylai gwasanaeth tân ac achub 'ymgyngori'n effeithiol ac ymgysylltu (yn unol â'i drefniadau llywodraethu) â chymunedau, staff a rhanddeiliaid ar gamau priodol o'r broses cynllunio rheoli risg cymunedol'.

Mae'r ddogfen CRhRC yn ceisio nodi'r risgiau a'r heriau disgwylidig y gall y Gwasanaeth eu profi o fewn y pum mlynedd nesaf.

Mae CRhRC 2024-2029 yn gynllun pum mlynedd, wedi'i gefnogi gan gynlluniau gweithredu blynyddol, a dyma'r trydydd cynllun blynyddol (Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-2027) a fydd yn cyfrannu at y CRhRC pum mlynedd 2024-29.

Cafwyd cyfanswm o **397** o ymatebion eleni, sy'n gynydd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol:

- 2024-25 - 223 o ymatebion wedi dod i law
- 2025-26 - 279 o ymatebion wedi dod i law

Gan weithredu ar adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad y llynedd, ychwanegwyd cwestiwn newydd 'Cwestiwn 23: Beth yw eich iaith gyntaf?'. Roedd hyn er mwyn ceisio deall yn well amrywiaeth iaith yr ymatebwyr sy'n ymwneud ag ymateb i'r holiadur. Gellir dod o hyd i ddadansoddiad manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar yr amcanion gwella a llesiant arfaethedig o dan bum egwyddor allweddol a ddatblygwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2023-24:

- Ein Hegwyddor Pobl
- Ein Hegwyddor Atal
- Ein Hegwyddor Diogelu
- Ein Hegwyddor Ymateb
- Ein Hegwyddor Amgylchedd

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig.

Methodoleg

Agorwyd yr ymgynghoriad ar gyfer ymatebion rhwng 23 Hydref a 16 Rhagfyr 2025. Cynhaliodd y Gwasanaeth ymarferiad sicrhau ansawdd data ar y data Cynhwysiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ar gael i sicrhau bod y ffigurau a ddyfynnwyd yn gywir. Fe wnaeth hyn ohirio rhyddhau'r ymgynghoriad o ddau ddiwrnod.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2026-27, yn Gymraeg a Saesneg, ar y wefan Tân ac Achub ynghyd â dolenni'n uniongyrchol i holiadur yr arolwg.

Paratowyd a chyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) hefyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dilynwyd yr arfer gorau a fabwysiadwyd yn ystod ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys unwaith eto, gan gynnwys Egwyddorion Gunning.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar-lein, yn fewnol ar Hwb Tân, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebion y talwyd amdanynt yn y wasg ysgrifenedig.

Argraffwyd taflenni dwyieithog gyda Chod QR arnynt, gan hwyluso mynediad uniongyrchol a hawdd i holiadur yr arolwg ar-lein, ac fe'u dosbarthwyd yn ystod ymweliadau Archwiliad Diogel ac Iach a digwyddiadau ymgysylltu.

Dosbarthwyd cyfanswm o 551 o daflenni fel rhan o Archwiliad Diogel ac Iach.

Crëwyd cyfeiriad e-bost dwyieithog pwrpasol i hwyluso ceisiadau am wybodaeth ychwanegol neu holiaduron mewn copi caled. Crëwyd rhif ffôn symudol pwrpasol i ymateb i unrhyw ymholiadau na ellid eu cyflwyno drwy e-bost.

Anfonwyd llythyrau, yn enw'r Cadeirydd, at bawb ar y Gofrestr Rhanddeiliaid yn eu gwahodd i gymryd rhan.

Trefnodd a hwylusodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ymgysylltiad ag ystod eang o grwpiau oedd yn cynrychioli'r gymuned, a thrwy hynny ddangos sylw dyledus o safbwynt cyfreithiol. Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd sicrhau bod Siaradwr Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau cymunedol er mwyn sicrhau bod ymatebion yn cael eu cofnodi naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ychwanegol tua diwedd y cyfnod ymgynghori, i atgoffa pobl bod y dyddiad olaf iddynt ymateb yn agosáu.

O ran y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, y Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi (JCNC) yw'r fforwm lle mae'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn cwrdd â'r Prif Swyddog arweiniol yn chwarterol ac yng nghyfarfod mis Awst y trafodwyd yr amcanion ac ymgynghorwyd â chynrychiolwyr ar gam ffurfiannol y broses.

Rhoddwyd diweddariadau pellach i'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus, a rhoddwyd digon o wybodaeth i gynrychiolwyr undebau llafur ystyried yr amcanion arfaethedig a digon o amser iddynt ymateb.

Yn gyfan gwbl, derbyniodd yr arolwg ymgynghori gyfanswm o 397 o ymatebion yn ystod y cyfnod wyth wythnos, gyda 386 ohonynt wedi'u cwblhau yn Saesneg a 11 wedi'u cwblhau yn Gymraeg.

Arsylwadau

Roedd y lefelau ymateb 42% yn uwch (279 i 397) nag ymgynghoriad cyhoeddus 2025-26, er bod ymatebion staff tân ac achub yn parhau i fod yn isel.

Diben gosod amcanion yw gwella'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n cefnogi'r egwyddor gynaliadwyedd, a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly er bod lefelau uchel o gefnogaeth ar gyfer yr amcanion arfaethedig, roedd sylwadau, yn gyffredinol, yn ymwneud â ffrydiau gwaith presennol neu weithgareddau busnes fel arfer.

Fodd bynnag, mae'r holl sylwadau wedi'u rhannu â'r Penaethiaid Adran neu'r arbenigwyr pwnc perthnasol i'w hystyried ynghylch a oes angen diwygio unrhyw amcan arfaethedig neu unrhyw amcanion ychwanegol.

Derbyniodd ein Hegwyddor Atal y nifer fwyaf o sylwadau ychwanegol, 100, yn bennaf ynghylch:

- Gwelededd yn y gymuned ac,
- Ymgysylltu â grwpiau sy'n agored i niwed

A chafodd Egwyddor Ein Pobl 95 o sylwadau ychwanegol, ynglŷn â:

- Recriwtio,
- Amrywiaeth a,
- Cadw staff


Yn unol ag Egwyddorion Gunning, mae Tim Arweinyddol y Gwasanaeth wedi rhoi 'ystyriaeth gydwybodol' i'r ymatebion ymgynghori cyn cytuno ar yr amcanion arfaethedig ar gyfer 2026-27.

Y Camau Nesaf

Mae unrhyw wallau teipio neu fân broblemau fformatio eraill a nodwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u cywiro. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu rhannu gyda'r Penaethiaid Adran perthnasol neu'r arbenigwr pwnc perthnasol a'u hadolygu.

Fodd bynnag, gan fod adborth yr arolwg yn dangos cefnogaeth ysgubol i'r Egwyddorion a'r amcanion Llesiant a Gwella, ni fu unrhyw newid i'r Egwyddorion na'r amcanion.

Bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan aelodau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ar 20 Ebrill 2026.






Risgiau Cymunedol

Yn ein cynllun pum mlynedd rydyn ni'n tynnu sylw at y risgiau sy'n ein hwynebu. Oes unrhyw risgiau eraill y dylem fod yn eu hystyried neu'n cynllunio ar eu cyfer yn eich barn chi?

Cwestiwn 1:



Derbyniwyd cyfanswm o 151 o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn.

(Gweler Atodiad A)

Cwestiwn 2: Crynodeb

- Technoleg:** Codwyd pryderon ynghylch ffrïwyr aer, e-feiciau / e-sgwteri, offer fêpio a gwefru. Hefyd, y cynnydd mewn cerbydau trydan ac ychwanegu paneli solar ar doeau.
- Yr Amgylchedd:** Cafwyd sylwadau am danau gwyllt, llifogydd, diogelwch dŵr arfordirol a llanw, ac effaith cyfnodau o dywydd garw ar yr amgylchedd. Hefyd, ceisiadau i ailgyflwyno achub anifeiliaid mawr.
- Yr Adran Gludiant a Seilwaith Gwnaed** cyfeiriadau at ddigwyddiad Twnnel Conwy a digwyddiadau ar yr A55. Soniwyd hefyd am y penderfyniad ynglŷn â'r orsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnig llawer mwy nag Archwiliadau Diogel ac lach a rhaglenni ieuencid. Mae ein gwaith atal yn rhychwantu ystod eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gadw pob cymuned yng Ngogledd Cymru yn ddiogel. Ochr yn ochr ag ymyriadau diogelwch cartref wedi'u targedu, rydym yn cynnal rhaglenni cynhwysfawr sy'n ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch dŵr, lleihau tanau bwriadol a lleddfu llosgi, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, atal trais difrifol, ymgysylltu â'r gymuned, ymgyrchoedd diogelwch tymhorol a mentrau lles ehangach, i gyd yn cyd-fynd â Fframwaith Person-Ganolog Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae ein gwefan yn tynnu sylw at waith parhaus ar draws y meysydd hyn, gan gynnwys cyngor diogelwch, ymgyrchoedd cyhoeddus,

gweithrediadau aml-asiantaethol ac ymgysylltu drwy gydol y flwyddyn â thrigolion ar draws 44 o orsafoedd tân a 6,172 cilomedr sgwâr o gymunedau trefol, gwledig ac arfordirol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, plismona, tai a'r sector gwirfoddol i ganfod y rhai sydd fwyaf mewn perygl ac i gydlynu gweithgarwch atal sy'n amddiffyn pobl yn eu cartrefi, ar y ffyrdd, yn agos i ddŵr ac yn ystod digwyddiadau mawr. Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos dull eang, modern a rhagweithiol o ymdrin â diogelwch cymunedol, un sy'n mynd ymhell y tu hwnt i atal tân traddodiadol ac yn rhoi lles ein holl gymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu gweithgor Ion Lithiwm Systemau Storio Ynni Batris (BESS), gan weithio'n agos gyda'n hadrannau Gweithrediadau Technegol a Hyfforddiant a Datblygu ar offer a hyfforddiant, wrth gynnal gweithgareddau sganio gorwel i sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i gyfarparu i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Dysgu Gweithredol.

Mae arweinydd strategol wedi'i benodi o fewn y Gwasanaeth, i sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r orsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn.




MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR POBL'

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cwestiwn 3:



Derbyniwyd cyfanswm o 90 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad B)

Cwestiwm 4: Crynodeb

- Recriwtio ac Amrywiaeth y Gweithlu: Roedd llawer o'r ymatebion yn trafod y pwyslais ar amrywiaeth yn erbyn blaenoriaethu'r gofynion ieched corfforol a meddyliol sydd eu hangen ar gyfer rôl diffoddwr tân. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys recriwtio mwy o fenywod a rhai o gefndiroedd amrywiol a phobl â phrofiad bywyd. Fodd bynnag, dadleuodd eraill y dylai gallu ddod yn gyntaf.
- Proses Recriwtio a Chyfathrebu: Sylwadau am y broses recriwtio araf; sut mae'n aneglur ac nid yw'n cael ei hysbysebu'n eang. Dilynwyd hyn ag awgrymiadau ar gyfer gwella, megis ymweld â Ffeiriau'r Glas a gwella'r wefan.
- Datblygu a Chadw Staff: Pwyslais cryf ar ddilyniant gyrfu, hyfforddi a chadw staff er mwyn lleihau costau. Cafwyd rhai sylwadau am wella diwylliant a gwella empathi i bobl sy'n profi cyflyrau ieched meddwl.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Recriwtio ac amrywiaeth y gweithlu

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a safonau diffoddwyr tân. Mae'n bosibl hyrwyddo amrywiaeth tra'n cynnal y safonau ieched corfforol a meddyliol sy'n ofynnol ar gyfer rôl diffoddwr tân yn llawn. Nid yw cynyddu amrywiaeth yn golygu gostwng safonau; yn hytrach, mae'n cynnwys ehangu mynediad, cael gwared ar rwystrau diangen, ac annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, tra'n sicrhau bod pob ymgeisydd yn bodloni'r un gofynion gweithredol trwyadl. Mae'r dull hwn yn cefnogi gweithlu cynhwysol heb gyfaddawdu diogelwch, perfformiad neu effeithiolrwydd.

Proses Recriwtio a Chyfathrebu

Mae gwella profiad ymgeiswyr, hygyrchedd a thryloywder yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth. Er mwyn cefnogi gwelliant yn y maes hwn, bydd yr adran Adnoddau Dynol yn gweithredu 'System Orlhain Ymgeiswyr' newydd cyn bo hir. Bydd y system hon yn symleiddio ac yn moderneiddio ein prosesau recriwtio, gan helpu i leihau oedi, gwella cyfathrebu ag ymgeiswyr, a darparu taith recriwtio o'r diwedd i'r diwedd cliriach a mwy effeithlon, gan gynnwys tudalen ymgysylltu wedi'i phersonoli ar gyfer ymgeiswyr.

Yn ogystal, mae ein gwefan recriwtio yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd i wella defnyddioldeb, gwella eglurder y wybodaeth sydd ar gael, a chynyddu gwelededd swyddi gwag cyfredol. Bydd hyn yn galluogi darpar ymgeiswyr i ddeall y broses recriwtio, gofynion rôl, ac amserlenni dangosol yn haws.

Rydym hefyd yn parhau i gryfhau ein gweithgarwch allgymorth ac ymgysylltu, gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau cyflogaeth a recriwtio fel Ffeiriau Ffres a mentrau cymunedol eraill, i sicrhau bod ein rolau yn cael eu hyrwyddo mor eang â phosibl ac yn hygyrch i ystod amrywiol o ddarpar ymgeiswyr. Ar hyn o bryd rydym yn mynychu amrywiaeth o ffeiriau cyflogaeth lle mae adnoddau'n caniatáu, gan gynnwys digwyddiadau mewn lleoliadau fel Prifysgol Bangor.

Mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu ar ein gwefan ac fe'u hyblygir hefyd drwy amrywiaeth o lwyfannau allanol, gan gynnwys Indeed, Y Ganolfan Byd Gwaith, Partneriaeth Pontio Gyrfa (ar gyfer personél y Lluoedd Arfog), Gweithwyr Anabl, Teuluoedd y Lluoedd, Safle Gwaith RAJA, Prifysgol Bangor, a'r Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Yn ogystal, gall unigolion gofrestru ar ein gwefan i dderbyn rhybuddion e-bost pan fydd swyddi gwag newydd yn cael eu cyhoeddi.

Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac i sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus. Felly, mae'r llwyfannau allanol rydyn ni'n eu defnyddio ar hyn o bryd i hysbysebu swyddi gwag yn rhad ac am ddim.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus yn y ffordd rydym yn denu, recriwtio a chyfathrebu â darpar ymgeiswyr. Rydym bob amser yn agored i awgrymiadau pellach ar sut y gellir gwella ein prosesau recriwtio.

Datblygu a Chadw Staff – Iechyd Meddwl

Cynhaliwyd adolygiad yn 2025 mewn perthynas â darpariaethau iechyd meddwl o fewn y Gwasanaeth.

Edrychodd yr adolygiad ar ddata absenoldeb iechyd meddwl i ddeall rhesymau, mathau a phatrymau ar gyfer absenoldeb o'r fath cyn amlinellu'r gefnogaeth bresennol a ddarperir i weithwyr a nodi camau gweithredu ac ymyriadau pellach y gellid eu cyflwyno i gynnig cymorth pellach. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu newidiadau i'r prosesau presennol i gefnogi ymgysylltu rhwng yr Ymgynghorwyr Iechyd, Ffitrwydd a Lles a gweithwyr sy'n absennol a sicrhau hyrwyddo'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn ehangach ar gyfer y gwahanol fathau o gymorth a gynigir, yn rhagflaenol ac yn ystod absenoldeb. Mae argymhellion eraill yn cynnwys hyfforddiant ychwanegol

ar gyfer hyrwyddwyr golau glas presennol, mynediad a chyllid i gymorth iechyd meddwl/cwrsela ar unwaith trwy lechyd Galwedigaethol, ymchwil bellach i ofal iechyd preifat ac a fyddai hyn yn cael ei ariannu gan weithwyr neu a ariennir gan wasanaeth, gwybodaeth ganllaw i deuluoedd ar gefnogi gweithwyr, a hefyd argaeledd gwybodaeth am les ariannol gan fod hyn yn cael ei gydnabod fel ffactor sylfaenol a all achosi neu waethygu straen a phryder.

Camau gweithredu eraill i wella'r gwaith hwn oedd hyfforddiant i staff ar Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, hyfforddiant Bystander sy'n ymwneud ag aflonyddu gwrth-rywiol a hyfforddiant Cefnogi Pobl â Meddyliau Hunanladdiad. Mae'r cyrsiau hyn yn arfogi gweithwyr â gwell gwybodaeth am gyflyrau iechyd meddwl a dulliau gwahanol y gallai fod angen eu hystyried wrth gefnogi a chyfeirio cydweithwyr, yn ogystal â sicrhau bod gweithwyr sy'n darparu'r cymorth yn teimlo bod ganddynt y sgiliau cywir i ddarparu hyn.

Edrych ar ymatebion gan staff GTAGC yn unig:

Cafwyd pum ymateb gan weithwyr GTAGC.

Dadansoddiad sy'n dangos sut ymatebodd gweithwyr GTAGC i'r 'Egwyddor Pobl'.

| I ba lefel ydych chi'n cytuno bod ein hamcanion yn cefnogi'r egwyddor hon? | |
|--|---|
| Cytuno'n gryf | 0 |
| Cytuno i raddau | 2 |
| Anghytuno i raddau | 2 |
| Anghytuno'n gryf | 1 |

Roedd dau sylw ychwanegol, sef:

- Pam ydych chi'n dal i siarad am amrywiaeth, mae angen diffoddwyr tân medrus galluog arnoch chi waeth pa gefndir sydd ganddynt.
- Teimlo y gallai fod â mwy o ffocws ac ymrwymiad ar wella'r diwylliant o fewn y gwasanaeth. Nid yn unig mesur cynnydd argymhellion yr adroddiad crest.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Cydnabyddir bod amrywiaeth yn bwysig ar gyfer adeiladu gweithlu cynhwysol a chynrychioladol, fodd bynnag, mae pwyslais cryf bob amser ar yr angen i flaenoriaethu gofynion corfforol a seicolegol trylwyr y rôl i gynnal diogelwch, effeithiolrwydd a pharodrwydd gweithredol.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod gwella diwylliant sefydliadol yn hanfodol. Mae'r Cynllun Gwella Diwylliant, sy'n ystyried argymhellion CREST, yn rhoi pwyslais clir ac eglur ar newid diwylliannol ehangach. Mae hyn yn cynnwys ymddygiadau arweinyddiaeth, lles staff, diogelwch seicolegol, tegwch, cynhwysiant, a hyder i siarad mewn arferion gwaith o ddydd i ddydd. Bwriad y Cynllun yw ysgogi newid diwylliannol ystyrion a pharhaus ar draws y Gwasanaeth.

Bydd y pwyslais hwn yn siapio sut mae gweithgarwch gwella yn cael ei flaenoriaethu, ei weithredu a'i adolygu, yn hytrach na chanolbwyntio ar fesur cynnydd yn unig yn erbyn argymhellion unigol. Er bod y camau gweithredu a'r argymhellion yn darparu strwythur a sicrwydd allanol, nid ydynt yn ddiben ynddynt eu hunain. Y gwir fesur o lwyddiant fydd a yw staff yn gweld, yn teimlo, ac yn profi newid cadarnhaol mewn ymddygiad, arweinyddiaeth, a ffyrdd o weithio.

Mae'r Hyrwyddwyr Diwylliant yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gwella Diwylliant yn barhaus. Mae eu rôl yn cynnwys ymgysylltu â rhwydweithiau staff, cyrff cynrychioladol, a chydweithwyr ar draws pob adran, gyda ffocws ar ymgorffori arferion cynhwysol, cryfhau ymddiriedaeth, a chefnogi datblygiad diwylliant sy'n agored, parchus a grymuso.




MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR ATAL'

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

Question 5:



Derbyniwyd cyfanswm o 100 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad C)

Cwestiwn 6: Crynodeb

- Gwelededd ac Ymgysylltu â'r Gymuned: Nid yw gwaith atal yn ddigon amlwg mewn cymunedau, gyda Wrecsam ac ardaloedd gwledig yn cael eu crybwyll. Dylai'r Gwasanaeth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol i ledaenu negeseuon diogelwch tân. Mae sylwadau hefyd yn tynnu sylw at y diffyg ymwybyddiaeth o'r risgiau a grybwyllir yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29.
- Grwpiau sy'n Agored i Niwed: Edrych i ehangu diffiniad y Gwasanaeth o 'grwpiau agored i niwed' i gynnwys digartrefedd, defnyddwyr cyffuriau, pobl LHDT+, pobl ifanc a myfyrwyr, ac ar gyfer pobl sy'n profi tlodi.
- Gweithio mewn Partneriaeth: Roedd ymatebwyr yn teimlo bod yr egwyddor atal yn rhy gyfyng a bod diffyg manylder. Mae angen i'r Gwasanaeth weithio'n agosach gydag elusennau, darparwyr iechyd, a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â risgiau.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnig llawer mwy nag Archwiliadau Diogel ac Iach a rhaglenni ieuencid. Mae ein gwaith atal yn rhychwantu ystod eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gadw pob cymuned yng Ngogledd Cymru yn ddiogel. Ochr yn ochr ag ymyriadau diogelwch cartref wedi'u targedu, rydym yn cynnal rhaglenni cynhwysfawr sy'n ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch dŵr, lleihau tanau bwriadol a lleddfu llosgi, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, atal trais difrifol, ymgysylltu â'r gymuned, ymgyrchoedd diogelwch tymhorol a mentrau lles ehangach, i gyd yn cyd-fynd â Fframwaith Person-Ganolog Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae ein gwefan yn tynnu sylw at waith parhaus ar draws y meysydd hyn, gan gynnwys cyngor diogelwch, ymgyrchoedd cyhoeddus,

gweithrediadau aml-asiantaethol ac ymgysylltu drwy gydol y flwyddyn â thrigolion ar draws 44 o orsafoedd tân a 6,172 cilomedr sgwâr o gymunedau trefol, gwledig ac arfordirol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, plismona, tai a'r sector gwirfoddol i ganfod y rhai sydd fwyaf mewn perygl ac i gydlynu gweithgarwch atal sy'n amddiffyn pobl yn eu cartrefi, ar y ffyrdd, yn agos i ddŵr ac yn ystod digwyddiadau mawr. Gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos dull eang, modern a rhagweithiol o ymdrin â diogelwch cymunedol, un sy'n mynd ymhell y tu hwnt i atal tân traddodiadol ac yn rhoi lles ein holl gymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn defnyddio dull atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar y person, gan ddilyn canllawiau cenedlaethol gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae hyn yn golygu ein bod yn nodi ffactorau risg unigol, fel oedran, iechyd, symudedd, ysmegu, amddifadedd neu bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain ac yn canolbwyntio ar gymorth lle mae'r risg o niwed difrifol yn cael ei brofi i fod ar ei uchaf. Mae data cenedlaethol a lleol yn dangos bod pobl hŷn a'r rhai sydd â gwendidau cymhleth yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu neu eu lladd mewn tân, felly nid yw blaenoriaethu'r grwpiau hyn yn gyfyngol; dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o atal niwed. Rydym yn defnyddio data'r GIG a data aml-asiantaethol, hanes digwyddiadau a mynegeion amddifadedd i wneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl, gyda chefnogaeth ein model Archwiliad Diogel ac Iach haenog.

Gall bregusrwydd fod yn bresennol unrhyw le yn ein cymunedau, ac mae ein dull gweithio'n adlewyrchu hynny. Er ein bod yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o niwed yn sgil tân yn ystadegol, mae ein cynnig atal yn eang, cydweithredol ac wedi'i gynllunio i wella diogelwch ledled Gogledd Cymru. Nid yw'n gul, ond yn gymesur, wedi'i arwain gan dystiolaeth ac yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn deall bod bregusrwydd yn bodoli ym mhob cymuned, gan gynnwys ardaloedd gwledig lle gall ffactorau fel bod yn ynysig, pellter oddi wrth wasanaethau ac amodau amgylcheddol gynyddu'r risg o niwed. Dan arweiniad Fframwaith sy'n Canolbwyntio ar y Person Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, rydym yn defnyddio gwybodaeth wedi ei chasglu, data digwyddiadau a gwybodaeth leol i nodi'r bobl sydd fwyaf mewn perygl, lle bynnag y maent yn byw, a sicrhau bod ein gweithgaredd atal yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar y person. Yn hollbwysig, mae llawer o'r rhai sydd fwyaf mewn perygl mewn cymunedau gwledig yn cael eu hadnabod trwy asiantaethau partner dibynadwy, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, byrddau diogelu a grwpiau gwirfoddol lleol y mae eu hatgyfeiriadau yn ein galluogi i gyrraedd unigolion a allai fod wedi'u hynysu, yn anoddach cysylltu â nhw neu'n amharod i geisio cymorth. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar bartneriaeth yn sicrhau y gallwn roi'r gefnogaeth gywir i'r trigolion mwyaf agored i niwed ar draws pob rhan o Ogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod yn llwyr fod pobl sy'n byw mewn tlodi, gyda salwch difrifol, anabledd neu anghenion iechyd cymhleth ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac mae ein CRhRC a'n Strategaeth Atal wedi'u hadeiladu o amgylch adnabod a chefnogi'r grwpiau hyn yn union. Wedi'i arwain gan Fframwaith sy'n Canolbwyntio ar y Person Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, rydym yn asesu risg yn seiliedig nid yn unig ar oedran ond ar amddifadedd, salwch hir-dymor, problemau symudedd, amhariad gwybyddol a'r heriau amgylcheddol ehangach y mae pobl yn eu hwynebu. Mae ein dull gwaith sy'n cael ei arwain gan ddeallusrwydd yn defnyddio data ar amddifadedd, iechyd, hanes digwyddiadau ac amgylchiadau byw i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu niweidio gan dân neu argyfyngau eraill. Yn hollbwysig, mae llawer o'r trigolion yr effeithir arnynt fwyaf gan dlodi neu salwch yn cael eu hadnabod trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid dibynadwy o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, byrddau diogelu, darparwyr tai ac asiantaethau gwirfoddol, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd pobl a allai fod wedi'u hynysu, yn sâl neu'n llai abl i geisio cael cymorth eu hunain. Ymhell o anwybyddu'r grwpiau hyn, mae ein cynllun yn eu canoli'n fwiadol, gydag Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u targedu, ymyriadau diogelwch cymunedol a chefnogaeth aml-asiantaethol gyda'r nod o leihau niwed i'r rhai mwyaf agored i niwed ledled Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod bod yn agored i niwed yn gymhleth a gall ddeillio o lawer o ffactorau personol ac amgylcheddol gwahanol, a dyna pam rydym yn dilyn Fframwaith Canolbwyntio ar y Person sy'n seiliedig ar dystiolaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn hytrach na dibynnu ar restr syml o "bobl agored i niwed". Mae sawl peth yn dylanwadu ar fregusrwydd gan gynnwys cyfuniad o oedran, anabledd, salwch hir-dymor, problemau symudedd, iechyd meddwl, ysmegu, amddifadedd, amgylchiadau byw a'r gallu i ymateb mewn argyfwng — pob ffactor wedi ei nodi yn ein Polisi a Strategaeth Atal. Oherwydd y gall y ffactorau hyn newid dros amser ac amrywio rhwng unigolion, rydym yn defnyddio dull a arweinir gan ddeallusrwydd sy'n ystyried amgylchiadau unigryw pob person, wedi'i gefnogi gan ddata fel gwybodaeth GIG Caerwysg, hanes digwyddiadau a mynegeion amddifadedd. Yn hollbwysig, mae llawer o'r bobl sydd â'r risg uchaf yn cael eu nodi trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid dibynadwy ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, byrddau diogelu, tai a gwasanaethau gwirfoddol, gan ein helpu i gyrraedd unigolion nad ydynt fel arall yn hysbys i ni. Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar risg wirioneddol yn hytrach na labeli, gan ein galluogi i gynnig y cymorth atal cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir.




MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR DIOGELU'

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

Cwestiwn 7:



Derbyniwyd cyfanswm o 54 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad D)

Cwestiwn 8: Crynodeb

- Egluro'r Egwyddor: Nid yw'n glir beth mae'r egwyddor hon yn ei chynnwys a pha fath o fusnesau sy'n cael eu dosbarthu fel rhai risg uchel. Mae'r cynllun yn brin o fanylion o'i gymharu â'r Egwyddorion eraill.
- Diogelwch a Chymorth Tân Busnes: Cymorth i ddiogelu busnesau a bywoliaethau drwy archwiliadau diogelwch tân. Fodd bynnag, dylid cwblhau mwy o archwiliadau ar westai, llety gwyliau, llefydd tecawê a thafarndai.
- Risgiau Gwledig a Diwydiannol: Risgiau tymhorol a grybwyllwyd, fel cartrefi gwyliau a thai haf. Roedd risgiau diwydiannol yn cynnwys sôn am Cadburys a Kronospan yn y Waun.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Trwy raglen arolygu sy'n seiliedig ar risg, atgyfeiriadau gan bartneriaid aml-asantiaeth, cwynion a gweithgaredd ar ôl tân, mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu busnesau penodol yn seiliedig ar feini prawf, a thrwy hynny ddal landlordiaid a pherchnogion busnes i gyfrif am risgiau posibl a gwirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r holl fathau o fusnes a grybwyllwyd gan aelodau'r gymuned yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu cynnwys yn helaeth yn ein rhaglen arolygu. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn defnyddio data digwyddiadau a gwybodaeth atgyfeirio i nodi tueddiadau sy'n siapio blaenoriaethau.




MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR YMATEB'

Darparu ymateb brys effeithiol.

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

Cwestiwn 9:



Derbyniwyd cyfanswm o 72 o sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn. (Gweler Atodiad E)

Cwestiwn 10: Crynodeb

- **Argaeledd a Chwmpas:** Pryderon yn gyffredinol ynghylch a oedd peiriannau tân, gorsafoedd tân a lefelau staffio yn ddigonol ar draws ardal y gwasanaeth. Ceisiadau dro ar ôl tro i beidio â chau gorsafoedd tân.
- **Amseroedd Ymateb:** Angen amser ymateb cyflym a'u monitro. Pryderon ynghylch amseroedd ymateb araf mewn ardaloedd gwledig.
- **Heriau Recriwtio:** Diffyg hysbysebu ar gyfer swyddi gwag, problemau proses recriwtio, cadw a'r angen am staff mwy dibynadwy.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw fwriad i gau unrhyw orsafoedd tân. Mae'r Gwasanaeth wedi cynyddu nifer y gorsafoedd tân amser cyflawn (o wyth i 10) yn dilyn cyflwyno prosiect peilot yng ngorsafoedd tân Dolgellau a Phorthmadog, sydd bellach yn gweithredu system â chriw dydd, a thrwy hynny wella gorchudd tân ar draws gwahanol ardaloedd gwledig yn Ne Gwynedd. Er mwyn lleddfu unrhyw bryderon pobl sy'n byw mewn rhannau gwledig o Wrecsam, mae gorsaf dân Wrecsam ac ardaloedd cyfagos y Waun a Thre loan yn cwmpasu'r ardal hon yn effeithiol. Yn ogystal, mae trefniadau trawsffiniol gyda GTA Swydd Amwythig i sicrhau bod gorchudd tân effeithiol yn cael ei ddarparu i ardaloedd gwledig penodol sydd wedi'u lleoli i'r de-ddwyrain o Wrecsam.

Mae'r Gwasanaeth wedi profi heriau parhaus ynghylch recriwtio pobl i rôl diffoddwr tân ar alwad a rhai rolau gwasanaeth corfforaethol. Mae gan y Gwasanaeth dim recriwtio ac argaeledd pwrpasol, a'u unig ffocws yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio ac argaeledd ar alwad, ac mae'r tîm Adnoddau Dynol yn cynnal gwerthusiad parhaus o'r holl weithgareddau recriwtio.




MANYLU AR 'EIN HEGWYDDOR AMGYLCHEDD'

Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Cwestiwn 11:



Derbyniwyd cyfanswm o 75 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon.

(Gweler Atodiad F)

Cwestiwn 12: Crynodeb:

- **Newid Hinsawdd:** Nid yw'r cynllun yn rhoi digon o bwyslais ar newid hinsawdd, llifogydd, a risgiau sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r risgiau, er enghraifft y llygredd o danau fferm.
- **Arferion Eco-Gyfeillgar:** Cefnogaeth ar gyfer newid (lle bo'n ymarferol bosibl) i gerbydau trydan neu HVO. Ailgylchu ar orsafoedd.
- **Costau:** Trafod y gost yn erbyn y budd o weithredu newidiadau eco.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Mae'r gwasanaeth wedi bwriadu lleihau eu hól troed carbon a dod yn fwy effeithlon o ran ynni trwy brosiectau amrywiol sydd i'w gweld yn [Strategaeth Amgylcheddol y gwasanaeth 2023-2030](#).

Meysydd Eraill mewn Perthynas â'r Gwasanaethau rydyn ni'n eu

Darparu

Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.

A oes unrhyw feysydd eraill mewn perthynas â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yr hoffech i ni eu hystyried?

Derbyniwyd cyfanswm o 76 o sylwadau pellach ar gyfer yr egwyddor hon. (Gweler Atodiad G)

Cwestiwn 13: Crynodeb

- Heriau Gwledig: Ceisiadau am fwy o welededd mewn ardaloedd gwledig. Ceisiadau dro ar ôl tro i ddod ag achub anifeiliaid mawr yn ôl, sy'n achosi straen i anifeiliaid a phobl leol. Pryderon ynghylch tanau gwyllt a digwyddiadau argyfwng wedi'u lleoli ar ffermydd.
- Ymgysylltu ac Addysg: Mwy o ymgysylltiad rhagweithiol, gan gynnwys addysg ysgol a choleg. Hyrwyddo diogelwch tân gyda myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr newydd a'r rhai o dramor.


Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Mae ein gwaith atal yn mynd yn llawer ehangach na diogelwch tân yn y cartref. Mae ein strategaeth yn cynnwys diogelwch cymunedol, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch dŵr, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, atal trais difrifol a rhaglen gref o ymgysylltu ag ieuenctid, gan gynnwys Cadetiaid Tân, Ffenics a gweithio gyda Sefydliad CPD Lerpwl. Rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau diogelu, awdurdodau lleol, iechyd, heddlu, tai a sefydliadau'r trydydd sector fel y gallwn adnabod a chefnogi pobl o bob oed nad ydynt efallai yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill.

Mae gan ein gweithgareddau atal gynllun ymgysylltu â'r gymuned gadarn (sy'n cyd-fynd â chalendr ymgyrchoedd) sy'n ein galluogi i ymweld a hyrwyddo ystod o wasanaethau gan gynnwys Gwiriadau Diogel ac Iach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai ystod ac amrywiaeth y grŵp rydyn ni'n ymweld â nhw fod yn ehangach, o ran daearyddiaeth a grwpiau cymunedol sydd weithiau'n cyd-fynd ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig.

Materion Cydraddoldeb

Cwestiynau 14 a 15: Oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill y dylen ni fod yn meddwl amdany'n nhw?



Cwestiwn 15: Crynodeb

- Hygyrchedd iaith: Cynnig sgiliau sgwrsio yn y Gymraeg a chefnogaeth yn Saesneg fel rhan o'r broses recriwtio. Gwella ymwybyddiaeth iaith a gwahaniaethau diwylliannol o fewn cymunedau lleol.
- Ffocws Cydraddoldeb: Mae'r Gwasanaeth yn rhoi gormod o bwyslais ar dargedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai recriwtio ganolbwyntio ar y person gorau ar gyfer y rôl, waeth beth fo'u rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu sgiliau iaith.
- Rhwystrau i Grwpiau Penodol: Bydd anwybyddu gwahaniaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn creu rhwystrau i recriwtio.

Ymateb y Gwasanaeth Tân i'r sylwadau a dderbyniwyd:

Mae adroddiad dadansoddiad Effaith cydraddoldeb penodol wedi'i ddatblygu ochr yn ochr ag adroddiad ymgynghori'r gwasanaeth ynglŷn â'i Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2026-2027 yn dilyn y cyfnod ymgynghori rhwng 20 Hydref 2024 a 14 Rhagfyr 2025. Mae ymgysylltu penodol â gwahanol grwpiau diddordeb cydraddoldeb yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi galluogi pobl ar draws pob nodwedd warchoddedig i roi adborth ynghylch yr egwyddorion arfaethedig, eu canfyddiadau o ran risg ac i asesu a allai unrhyw un o'r cynlluniau arfaethedig roi grwpiau penodol o bobl neu gymunedau dan anfantais.

Nod cyffredinol y dadansoddiad effaith cydraddoldeb hwn yw tynnu sylw at themâu penodol (yn enwedig o ran cydraddoldeb mynediad a chyfle) a ddaeth i'r amlwg o'r adborth yn ystod ymgynghoriad CRMP 2026-27. O'r dadansoddiad hwn, gellir nodi risgiau posibl o wahaniaethu a gellir gweithredu lliniaru yn unol â hynny. Fel y'i diffinnir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, bydd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig sy'n dod o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac o fewn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau posibl ar y Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Gwybodaeth Ychwanegol


Roedd ymateb i'r cwestiynau canlynol yn ddewisol.

Cwestiwn 16: Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu grŵp, rhowch wybod i ni pwy rydych chi'n ei gynrychioli a ble rydych chi/pa faes rydych chi'n ei gwmpasu.


Crynodeb o rai yn unig o'r grwpiau lleol a ymatebodd.

- Grwpiau Paned a Sgwrs
- Myfyrwyr o Brifysgolion Bangor a Wrecsam
- Grwpiau Cymorth Dementia
- Y Groes Goch Wrecsam
- Grŵp LHDTTC+ Trawsryweddol Unigryw
- Mind Dyffryn Clwyd


Cwestiwn 17: Ydych chi'n un o gyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?




Cwestiwn 18: Dewiswch un o'r canlynol i nodi pa ardal Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru rydych yn byw ynddi, yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi.




Cwestiwn 19: Pa grŵp oedran ydych chi?



Cwestiwn 20: Rhywedd – beth ydy eich hunaniaeth rhywedd?



Cwestiwn 21a 22: Hil/Ethnigrwydd - pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?







Cwestiwn 23: Beth yw eich iaith gyntaf?


Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi rhestru'r Gymraeg neu'r Saesneg fel eu hiaith gyntaf, mae'n galonogol gweld amrywiaeth ieithoedd lleiafrifol eraill yn cael eu cynrychioli ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad

| Iaith Gyntaf | Nifer yr Ymatebion |
|-------------------|--------------------|
| Saesneg | 178 |
| Heb Ateb | 137 |
| Cymraeg | 32 |
| Arabeg | 11 |
| Cymraeg a Saesneg | 7 |
| Pwyleg | 6 |
| Ffrangeg | 3 |
| Hindi | 3 |
| Punjabi | 3 |
| Pwyleg a Saesneg | 2 |
| Somialeg | 2 |
| Bengali | 1 |
| Bwlgareg | 1 |
| Tsieceg | 1 |
| Dari a Pashto | 1 |
| Dari a Farsi | 1 |
| Cymraeg/Gaeleg | 1 |
| Almaeneg | 1 |
| Groegeg | 1 |
| Gujarati / Hindi | 1 |
| Hindi / Punjabi | 1 |
| Portiwgaleg | 1 |
| Wcreineg | 1 |
| Wrddw a Saesneg | 1 |
| | |
| Cyfanswm: | 397 |


Cwestiynau 24 a 25: Anabledd - ydych chi'n anabl neu a oes gennych gyflwr iechyd hirdymor?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|----------|-----|-----|---|
|  | Oes | 108 | 27% |  |
|  | Nac Oes | 201 | 51% | |
|  | Heb atal | 88 | 22% | |





Cwestiwn 26: Cyfeiriadedd Rhywiol




Ymatebion wedi eu dangos yn ôl canran ers gweithredu'r CRhRC.



Cwestiynau 27 a 28: Crefydd a/neu Gred – ydych chi'n gysylltiedig ag unrhyw grefydd, ffydd neu system gred benodol?

| Dadansoddiad yn ôl Ymateb | | | | |
|---|----------|-----|-----|---|
|  | Ydw | 156 | 39% |  |
|  | Nac ydw | 138 | 35% | |
|  | Heb atal | 103 | 26% | |

Ymatebion wedi eu dangos yn ôl canran ers gweithredu'r CRhRC.



Sylwadau ac Ymatebion ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Gweler Atodiad H)

Cafodd negeseuon a oedd yn hyrwyddo cymryd rhan yn yr ymgynghoriad eu rhoi ar Facebook a Twitter drwy gydol y cyfnod ymgynghori yn ogystal â fideos gan staff yn esbonio sut i gymryd rhan. Talwyd am hysbysebion hefyd ar Facebook ac Instagram yn targedu'r cyhoedd ledled Gogledd Cymru gan eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Atodiad A

Sylwch fod sylwadau ailadroddus, lle maent yn ymddangos, oherwydd fod ymatebion lluosog wedi eu cofnodi ar yr un ffurflen ymgynghori.

| Cyf | RISGIAU ERAILL – SYLWADAU YCHWANEGOL | Arolwg Id |
|-----|---|-----------|
| 1 | Perygl o danau gwyllt. | 4 |
| 2 | Newid arweinyddiaeth GTAGC i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni yn ystod unrhyw drawsnewid. | 6 |
| 3 | Byddai atgoffa o'ch cynllun pum mlynedd yn ddefnyddiol. O ystyried y boblogaeth sy'n cynyddu'n barhaus yn G Cymru, mae UNRHYW ostyngiad mewn cwmpas gweithredol yn enwedig yn ardal Wrecsam yn annerbyniol. Nid oes gan y cyhoedd unrhyw ddealltwriaeth go iawn o'ch amcanion. | 7 |
| 4 | Eich diffyg cyllid - eich anhawster i dalu dyletswyddau cadw - pwysau cynyddol tanau gwyllt. | 9 |
| 5 | Rhaid gwella argaeledd eich offer yn enwedig Offer Arbennig. | 12 |
| 6 | Credaf y byddai'n fuddiol cynnwys dyletswyddau'r gwasanaeth tân o dan y Ddeddf Civil Contingencies (2004). Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gofynion ychwanegol a osodir ar y gwasanaeth tân. | 16 |
| 7 | Offer chwarae gemau electroneg diffygiol sy'n dechrau torri. | 19 |
| 8 | Poblogaeth gynyddol, nifer y datblygiadau tai, stadiwm pêl-droed newydd ac effaith ar draffig ar ddiwrnodau gêm. Nifer cynyddol o tecawê. Dim sôn am garchar Berwyn yr wyf yn credu bod eich gwasanaeth yn mynychu'n rheolaidd. Dim sôn am e-sgwteri a nifer yr e-feiciau heb eu rheoleiddio a'u haddasu yn yr ardal. Rydych chi'n sôn am newid hinsawdd, ond dim byd penodol i'n hardal. | 32 |
| 9 | Mynd i'r afael â'r defnydd o dân gwyllt! Arddangosfeydd tân gwyllt trefnedig posibl yn unig. Dim gwerthiant i'r cyhoedd. Very distressing for henders, animals etc. and dangerous in the wrong hands! Rwy'n teimlo'n gryf iawn am y mater hwn. | 35 |
| 10 | 1. Mae ffrîwyr aer yn bryderus. 2. Poptai lefel llygaid. Mae pobl yn rhoi cadach llestri dros y top (popty drapio!). Perygl tân. 3. Plygiwr persawr / – mynd yn boeth. 4. Mae canhwyllau persawrus yn mynd yn boeth gan achosi i bobl eu gollwng. 5. Bloc sgwâr mawr / aml-ategyn mewn cartrefi gwyliau (hen iawn) peryglus! | 36 |
| 11 | 1. Mae ffrîwyr aer yn bryderus. 2. Poptai lefel llygaid. Mae pobl yn rhoi cadach llestri dros y top (popty drapio!). Perygl tân. 3. Plygiwr persawr / – mynd yn boeth. 4. Mae canhwyllau persawrus yn mynd yn boeth gan achosi i bobl eu gollwng. 5. Bloc sgwâr mawr / aml-ategyn mewn cartrefi gwyliau (hen iawn) peryglus! | 37 |
| 12 | 1. Mae ffrîwyr aer yn bryderus. 2. Poptai lefel llygaid. Mae pobl yn rhoi cadach llestri dros y top (popty drapio!). Perygl tân. 3. Plygiwr persawr / – mynd yn boeth. 4. Mae canhwyllau persawrus yn mynd yn boeth gan achosi i bobl eu gollwng. 5. Bloc sgwâr mawr / aml-ategyn mewn cartrefi gwyliau (hen iawn) peryglus! | 38 |
| 13 | Gorsaf bŵer heb ei grybwyll yn eich cynllun. Risgiau enfawr i'w hystyried. | 41 |
| 14 | Ceir nad ydynt yn nodi ar Stryd y Farchnad, rhai yn mynd i fyny'r bryn a rhai yn mynd i'r ardal siopa. Mae'n beryglus i gerddwyr sy'n ceisio croesi'r ffordd. | 42 |

| | | |
|----|--|-----|
| 15 | Ymweld â chartrefi yn rheolaidd i wirio a oes ganddynt larymau sy'n gweithio. | 46 |
| 16 | Marchogion ceffylau diystyriol, a gyrwyr. | 75 |
| 17 | Ceffylau, beiciau, sgwteri, rhedwyr. Angen bod yn ymwybodol o'u hamgylchoedd yn fwy ac nid ydynt yn berchen ar y ffordd. | 76 |
| 18 | Gyrwyr / beicwyr peryglus. | 77 |
| 19 | Vapes a chargers. | 79 |
| 20 | Vapes rhad. Gwefrydd yn gorboethi - dim ffiwsiau! Sibrydion am gynhyrchion rhad yn dod i mewn o China. | 82 |
| 21 | Vapes. Snus - Cwodyn o dybaco wedi'i bweru o dan y wefus ar gyfer nicotin. Codenni nicotin. | 86 |
| 22 | Llifogydd. Coed ar ochr y ffordd. | 88 |
| 23 | Parcio diystyriol ar ffyrdd cul. | 89 |
| 24 | Coed sy'n edrych mewn cyflwr peryglus, a allai achosi damwain. Arwyddion ffordd cudd. Codi tâl ar feiciau trydan. | 90 |
Disgwylir i'r Bwrdd ategu a gwella trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, fe'i cynlluniwyd i weithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion wrth iddynt weithredu yn rhinwedd swydd rheolwr y cynllun.

3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Roedd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys deg aelod fel a ganlyn:

- Pump o gynrychiolwyr y cyflogwyr yn cynnwys tri aelod o'r Awdurdod, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy enwebedig) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pump o gynrychiolwyr y cyflogeion – y mae pedwar ohonynt o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol â'r Awdurdod ac un yn cynrychioli'r system dyletswydd ar alwad.

Ceir crynodeb o'r aelodaeth ar gyfer 2025/26 isod:

| Enw | Rôl | Yn cynrychioli | Dyddiadau (yn cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer rhan o'r flwyddyn) |
|----------------------------|--|----------------|--|
| Bryan Apsley | Aelod ATA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Dafydd Edwards (Cadeirydd) | Trysorydd yr Awdurdod | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| John Brynmor Hughes | Aelod ATA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Gwynfor Owen | Aelod ATA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Dawn Docx | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân | Cyflogai | 17/07/2025 hyd heddiw |
| Stuart Millington | Cymdeithas yr Arweinwyr Tân | Cyflogai | 30/01/2025-15/05/2025 |
| Paul Kay | Cymdeithas y Swyddogion Tân | Cyflogai | Blwyddyn lawn |
| Geraint Evans | Cynrychiolydd y system dyletswydd ar alwad | Cyflogai | Blwyddyn lawn |
| Terry Ledden | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogai | Blwyddyn lawn |
| Rebekah Uden | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogai | Blwyddyn lawn |

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol canlynol yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau;
- Rheolwr Pensiynau'r Gwasanaeth; ac
- Arweinydd Technegol (trefniant ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru).

Cadeirydd y Bwrdd

Bydd rôl Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei chylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd Dafydd Edwards yn Gadeirydd am y cyfnod 2025/26, i gynrychioli'r cyflogwr. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi'i enwebu i eistedd ar Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Trefnwyd i'r Bwrdd gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, a chynhaliwyd y cyfarfodydd ar y dyddiadau canlynol:

- 15 Mai 2025
- 17 Gorffennaf 2025
- 2 Hydref 2025
- 21 Ionawr 2025

4.0 Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf) nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau'n ymwneud ag aelod o fwrdd pensiwn. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o amharu ar y modd y mae person yn arfer ei swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'r Ddeddf yn glir nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ynddo'i hun yn wrthdaro buddiannau, felly ni fyddai hynny'n atal aelod o'r cynllun rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl i sicrhau nad yw'n dod yn wrthdaro gwirioneddol ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Yn ogystal, mae gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd a chaiff unrhyw fuddiannau a nodir gan Aelodau eu cofnodi fel y gellir cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Ni wnaed datganiadau gan unrhyw Aelod, ymgynghorydd nac unrhyw un a fynychodd gyfarfodydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi Gwrthdaro Buddiannau yma:

[Polisi Gwrthdaro Buddiannau](#)

5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n ofyniad statudol yn ôl Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i ymglyfarwyddo â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, a datblygu gwybodaeth amdanynt, i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rhaid i bawb a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth am y gyfraith yn ymwneud â phensiynau a dealltwriaeth ohoni, ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth arall.

Dylai fod gan aelod o'r Bwrdd ddealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol i'w rôl yn y meysydd canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion sy'n cael eu gorfodi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; gan gynnwys
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ar ôl cael eu penodi, mae'n ofynnol i Aelodau gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino i Aelodau newydd o'r Bwrdd a sesiynau hyfforddi parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd i'r holl Aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a ddarperir i Aelodau unigol a'r Bwrdd cyfan. Anogir Aelodau'r Bwrdd i nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain fel bod yr hyfforddiant a ddarperir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol. Darperir hyfforddiant trwy becyn cymorth sector cyhoeddus y rheoleiddiwr pensiynau, trwy ddiwyddiadau allanol fel y rhai a ddarperir gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a thrwy hyfforddiant mewnol.

6.0 Rhaglen Waith 2025/26

Cyfarfu'r Bwrdd ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol a diffiniwyd cwmpas ei waith gan y Cylch Gwaith. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i'w hystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Diwygiwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer 2025/26 i leihau nifer yr aelodau sy'n ofynnol i gyflawni cworwm i dri (chwech yn flaenorol). Yn ogystal, dylai pob cyfarfod gael o leiaf un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd cyflogeion.

Gellir dod o hyd i'r Cylch Gwaith trwy'r ddolen ganlynol:

[Bwrdd Pensiwn Lleol - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026, cafodd y materion penodol canlynol eu hystyried gan y Bwrdd:

- Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gwaith;
- Ystyried yr her gyfreithiol genedlaethol sy'n ymwneud â'r trefniadau cynllun pensiwn trosiannol (Dyfarniad McCloud);
- Ystyried y mater cyfreithiol sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad (Dyfarniad O'Brien);
- Diweddariadau mewn perthynas â phrasiad GAD 2020 gan gynnwys cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru;
- Adolygu a chyflwyno'r cynnig ar gyfer newidiadau cyfradd cyfraniadau cyflogeion yn dilyn prasiad GAD 2020;
- Adolygiad o'r Polisi Disgresiwn wedi'i ddiweddarau sy'n cwmpasu'r cynlluniau;
- Diweddariadau gan Fwrdd Cyngori Cynlluniau Cymru;
- Diweddariad gwybodaeth a hyfforddiant;
- Diweddariadau ar bryderon a godwyd trwy'r drefn datrys anghydfodau fewnol; a
- Diweddariad ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac adolygiad i'r gofrestr risg.
- Mae materion o bwys i'w huwchgyfeirio i'r Rheolwr Cynllun yn cynnwys gweinyddu heriau cyfreithiol.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol:

- Datganiadau o Fuddiant;
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- Adroddiad Diweddarau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n canolbwyntio ar aelodaeth a chŵynion mewnol ac achosion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Pensiynau;
- Adroddiad Diweddarau'r Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn cadarnhau cydymffurfiaeth â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ac ansawdd data;
- Diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar y cynllun;
- Diweddariad Bwrdd Cyngori'r Cynllun;
- Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r BPLI;
- Y Gofrestr Risg; a
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod llawn.

Ers sefydlu'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi'i lywio gan aelodau'r Bwrdd a chan y swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae rhai adroddiadau rheolaidd wedi cael eu datblygu, sef:

- Adroddiad Diweddarau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddarnau sylweddol o waith yn ymwneud â phensiynau, ac sy'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn sbarduno trafodaeth ar lefel y Bwrdd am effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn a sut mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn helpu i gyflawni pwrpas y Bwrdd, sef sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol;
- Adroddiad Diweddarau Cronfa Bensiwn Dyfed, sy'n cael ei baratoi gan y gweinyddwyr ac sy'n rhoi sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Yn ogystal â darparu diweddariadau rheoleiddiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion llwyth gwaith penodol, megis cysoni â'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, achosion o dor-diogelwch a lefelau gweithgarwch ar y teclyn 'Fy Mhensiwn Ar-lein'; a
- Rhannau penodol o'r Gofrestr Risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun ac a gyflwynir i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau. Mae hyn yn galluogi i'r Bwrdd gadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion y cyfarfodydd Bwrdd uchod, a gellir cael gafael arnynt trwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Bwrdd Pensiwn Lleol](#)

7.0 Rhaglen Waith 2026/27

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith sy'n cael ei hystyried ym mhob cyfarfod. Gan fod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod yn ôl yr angen. Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer 2026/27 fel y nodir isod:

Blaenraglen Waith y Bwrdd Pensiwn Lleol 2026/27

| Eitem agenda | Cyfarfod 1 | Cyfarfod 2 | Cyfarfod 3 | Cyfarfod 4 |
|--|---|------------|------------|------------|
| Adolygu'r aelodaeth a chadarnhau dyddiadau cyfarfodydd | X | | | |
| Adroddiad diweddarau'r Gwasanaeth | X | X | X | X |
| Adroddiad diweddarau'r Gweinyddwr | X | X | X | X |
| Heriau cyfreithiol a materion rheoleiddiol | X | X | X | X |
| Bwrdd Cynghori'r Cynllun i Gymru | X | X | X | X |
| Y Gofrestr Risg | X | X | X | X |
| Cynefino Aelodau | Mae hyn yn mynd rhagddo wrth i aelodau newydd gael eu penodi i'r BPLI | | | |
| Dadansoddiad o anghenion hyfforddi | X | | | |
| Diweddariad hyfforddiant | X | X | X | X |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau – Cod Ymarfer | | X | X | X |
| Adroddiad Blynyddol a'r Cylch Gorchwyl | X | | | |
| Diweddariad Polisi yn ôl Disgresiwn | X | | | |
| Adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chronfa Bensiwn Dyfed | X | | | |
| Eitemau arwyddocaol i'w huwchgwyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub | X | X | X | X |

Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2015.

Rheoli'r Cynllun

2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Cyflawnir ei swyddogaethau yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod, fel yr awdurdod gweinyddu:
 - i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
 - i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodwyd mewn perthynas â'r cynllun gan y Rheoleiddiwr Pensiynau;
 - i sicrhau bod Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân yn cael eu llywodraethu a'u gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed;
 - rôl y Bwrdd fydd goruchwyllo'r materion hyn ac nid gwneud penderfyniadau;
 - i wneud unrhyw waith perthnasol yn ôl y gofyn; ac
 - unrhyw faterion eraill y gall rheoliadau'r cynllun eu pennu.
4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.
5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, a Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun yn ei rôl fel Rheolwr y Cynllun.
6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:
 - adolygu prosesau gwneud penderfyniadau, polisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
 - ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch pensiynau;

- ceisio sicrwydd bod y perfformiad gweinyddol yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod a bod y trefniadau monitro yn ddigonol ac yn gadarn;
- ystyried effeithiolrwydd cyfathrebu â chyflogwyr ac aelodau'r cynllun gan gynnwys adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu; ac
- ystyried a gwneud sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Ymdrinnir ag unrhyw gŵyn neu honiad o dorri'r Rheoliadau sy'n cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Amllder Cyfarfodydd a Rhoi Gwybod am Gyfarfodydd

8. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; bydd pedwar cyfarfod yn cael eu trefnu ym mhob blwyddyn ariannol.
9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn rhoi gwybod i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod, a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.
10. Darperir y papurau dri diwrnod gwaith cyn pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd Pensiwn Lleol.
11. Bydd holl agendâu, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd nad ydynt yn gyfrinachol, yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, ynghyd â Chylch Gwaith y Bwrdd a manylion am aelodaeth y Bwrdd.

Aelodaeth

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na 10 aelod (yn gyfan gwbl) a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau'r cynllun (cyflogeion). Bydd y rhain fel a ganlyn:

| | |
|------------------------------|--|
| Etholaeth | Diffiniad/Cyfyngiadau |
| Cyflogwr | I gynrychioli'r Awdurdod |
| Aelod o'r Cynllun (cyflogai) | I gynrychioli holl aelodau'r cynllun (gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr) |

13. Bydd cyfnod holl aelodau'r Bwrdd yn eu swydd yn cyd-fynd ag etholiadau'r cyngor ac felly rhagwelir y bydd yr aelodaeth yn parhau tan 2027. Gall aelodau, ar ddiwedd eu tymor, fynegi dymuniad i gael eu hystyried ar gyfer eu haillethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i bob aelod:
 - ymdrechu i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd;
 - cydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gynhyrchwyd gan y Rheolwr Pensiynau; a
 - sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.
15. Bydd gan bob Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelodau'r Cynllun hawl unigol i bleidleisio.
16. Rhaid rhoi cyfle cyfartal i holl aelodau Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân gael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.
17. Er mwyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr i'r Bwrdd, ceisir enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn cynrychioli'r cyflogwr.
18. Er mwyn penodi cynrychiolwyr aelodau'r cynllun (cyflogeion) i'r Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy'r Cynrychiolwyr Adrannol a Fforwm yr Undebau Llafur a gofynnir am enwebiadau pellach drwy roi hysbyseb ar wefan yr Awdurdod. Lle derbynnir mwy na thri enwebiad bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân i'w penodi'n ffurfiol.
19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolydd cyflogwr yn gadael cyflogaeth y cyflogwr y mae'n ei gynrychioli, ni fydd bellach yn gymwys i eistedd ar y Bwrdd.
20. Os bydd aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu os bydd yn methu â bodloni'r gofynion presenoldeb a hyfforddiant allweddol fel y nodir yn (13) uchod, bydd deiliadaeth yr aelod hwnnw'n cael ei hadolygu. Yn achos cynrychiolydd aelodau, gwneir hyn gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun, a all wneud argymhelliad i ddiddymu'r aelodaeth os ystyrir bod angen. Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn i unrhyw argymhelliad gael ei wneud. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.
21. Os yw cynrychiolydd cyflogwr neu aelodau'r cynllun yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddynt ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, gan roi o leiaf mis o rybudd.
22. Bob dwy flynedd, bydd Cadeiryddiaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yn newid am yn ail rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

23. Swyddogaeth cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd fydd:
- cytuno ar, a gosod yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd
 - rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno
 - sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos y parch dyledus i'r **broses a bod yr holl safbwyntiau'n cael eu clywed a'u hystyried yn llawn**
 - ymdrechu cymaint â phosibl i gael consensws fel canlyniad
 - sicrhau bod y camau gweithredu a'r rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir yn glir ac yn cael eu cofnodi'n gywir.
24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir presenoldeb personol ym mhob cyfarfod gan holl aelodau'r Bwrdd heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer eilydd. Fodd bynnag, byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu, ond byddent yn gyfrifol am gynnal eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiynau.
25. Gall y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol unigolion nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo'r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol lle byddai hynny'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai'r aelodau cyfetholedig yn cael pleidleisio.

Cworwm

26. Rhaid i dri aelod o'r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod fod â chworwm, i gynnwys un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd gweithiwr. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod a bod cworwm, yna rhaid i'r aelodau sy'n mynychu ddewis Cadeirydd i lywyddu'r cyfarfod hwnnw.

Gwybodaeth a Sgiliau

27. Rhaid i aelod o'r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â'r canlynol:
- deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y pedwar Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân;
 - unrhyw bolisiau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau perthnasol i weinyddu'r Cynlluniau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod a Chronfa Pensiwn Dyfed.
28. Rhaid i aelod o'r Bwrdd feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir yn y Rheoliadau.
29. Mater i aelodau unigol y Bwrdd yw bod yn fodlon bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau'n briodol fel aelod o'r Bwrdd.

30. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i loywi a diweddarau eu gwybodaeth. Mae'n ofynnol felly i aelodau'r Bwrdd gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.
31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis o ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoleiddiwr Pensiynau.
32. Yn ystod cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, rhaid i aelodau'r Bwrdd ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau

33. Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau ymddygiad uchaf ac felly bydd y 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad yr aelodau a pholisïau diogelu data'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gwaith hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ni ddylai aelod o'r Bwrdd fod â buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai achosi rhagfarn wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi yn rhinwedd aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yn unig.
34. Felly, bydd yn ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn unol â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae angen y datganiadau hyn fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelodaeth yr aelod.

Adrodd

35. Disgwylir i'r Bwrdd gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod a ddylai gynnwys:
 - crynodeb o waith y Bwrdd a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
 - manylion meysydd o bryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo ac argymhellion a wnaed;
 - manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut cafodd y rhain eu rheoli;
 - unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi â Rheolwr y Cynllun;
 - manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd ac anghenion hyfforddi a nodwyd; a
 - manylion unrhyw dreuliau a chostau yr aethpwyd iddynt gan y Bwrdd ac unrhyw dreuliau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

- 36 Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i'r Bwrdd ei lunio, bydd cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.
- 37 Pe bai gan y Bwrdd bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i'w hadrodd ar lefel uwch na'r arfer (i'r Rheolwr Pensiynau) dylent adrodd i'r Prif Swyddog Tân. Gall hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, achlysuron pan fydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar argymhellion blaenorol. Mewn achosion eithafol megis toriad sylfaenol o Reoliadau neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Cydnabyddiaeth Ariannol


- 38 Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei chyfyngu i ad-daliad o'r treuliau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt wrth fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant y Bwrdd. Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau'r Bwrdd yn darparu'r capasiti priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn ei ddiwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad mewn cyflog.
- 39 Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau dim hwyrach nag un mis ar ôl y gwariant.

Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

- 40 Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod gan ddangos:
- enwau a manylion aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol;
 - sut mae aelodau'r cynllun a chyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol;
 - cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd;
 - cylch gwaith llawn a pholisïau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a sut maent yn gweithredu; a
 - phroses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

Adolygu

- 41 Mabwysiadwyd y Cylch Gwaith hwn yn ffurfiol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015 a chaiff ei adolygu'n flynyddol, neu pan fydd newidiadau statudol neu reoleiddiol.
- 42 Mae'r Prif Swyddog Tân wedi'i awdurdodi i wneud mân newidiadau, yn sgil newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddarau trefniadau yn sgil ffactorau allanol eraill.

| | | |
|-------------------|---|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Gareth Owens, Clerc a Dafydd Edwards, Trysorydd | |
| Swyddog Cyswllt | Gareth Owens, Clerc (01745 535286) | |
| Pwnc | Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2026/27 | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 I hysbysu'r Aelodau am y cyfraddau arfaethedig ar gyfer tâl aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae swyddogaeth pennu lwfansau cynghorwyr wedi'i throsglwyddo o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC). Mae adroddiad diweddaraf y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gydnabyddiaeth aelodau wedi'i atodi ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny sy'n effeithio ar aelodau Awdurdodau Tân ac Achub.

ARGYMHELLION

- 3 Gofynnir i'r Aelodau:
 - i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau a chydabyddiaeth ariannol yr aelodau o 1 Ebrill 2026; a
 - ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddarau rhestr cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2026/27 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cynghorau, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan y DBCC;

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

CEFNDIR

- 5 Mae'r swyddogaeth o benderfynu pa lefel o daliad y dylid ei wneud i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi'i throsglwyddo i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol ag arfer ei ragflaenydd, paratôdd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol adroddiad drafft ar gyfer ymgynghori ac mae bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

GWYBODAETH

- 6 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn defnyddio enillion cyfartalog ledled Cymru fel sail i'w gyfrifiadau mewn perthynas â chynghorwyr etholedig ar brif gynghorau.

"Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, ei bod yn briodol cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd y cyflog sylfaenol yn gyson â thair rhan o bump o ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) 2022 i Gymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2023, sef y ffigur diweddaraf sydd ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad."

- 7 Yna, mae'r Panel yn cysylltu'r taliad ar gyfer aelodau'r ATA â'r taliad i'r prif gynghorwyr

"Yn unol â phenderfyniad y Panel i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, bydd lefel cydnabyddiaeth aelodau cyffredin yn APCau a ATAAu hefyd yn cynyddu yn unol ag ASHE.

Bydd cydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion yn parhau'n gysylltiedig â chyflog uwch-aelod Band 3 prif gyngor. Felly, bydd eu helpen rôl felly yn cynyddu'n unol â hynny. Bydd cysylltiad Dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau ac uwch swyddi eraill a delir â Band 5 yn parhau. ..."

- 8 Ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub mae penderfyniadau'r Panel fel a ganlyn:

| | Cyflog 2025/26 o 1 Ebrill 2025 | Cyflog 2026/27 o 1 Ebrill 2026 | Cynnydd |
|---|-----------------------------------|-----------------------------------|---------|
| Cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin ATA | £2,788 | £2,968 | 6.46% |
| Cyflog uwch ar gyfer Cadeirydd ATA | £12,674 | £13,490 | 6.44% |
| Uwch gyflog i Ddirprwy Gadeirydd ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | £6,743 | £7,177 | 6.44% |

9 Yn ychwanegol at yr uchod:

- Mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth i Awdurdodau Tân ac Achub wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y fframwaith presennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol;
- Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog ATA;
- Mae uwch gyflog ATA yn cynnwys cyflog sylfaenol ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus; ac
- Ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn uwch gyflog band 1 neu fand 2 (swyddi â thâl ar y Cabinet/Gweithrediaeth) dderbyn cyflog gan unrhyw ATA y maent wedi eu henwebu iddo. Lle bo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.

10 Cadeirydd yr Awdurdod yw Cadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a dim ond un cyflog y gall ei hawlio. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu o dan y categori "Cadeirydd y Pwyllgor neu uwch swydd arall".

Aelodau Annibynnol

11 Mae'r ffi sy'n cael ei thalu i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi aros yr un fath eto. Cafodd y Panel sylwadau i'r perwyl nad oedd y gyfradd wedi cynyddu ers pum mlynedd ac felly y dylid ei chynyddu. Fodd bynnag, nododd y Panel:

"12. Y tro diwethaf i'r IRPW uwchraddio cyflog aelodau cyfetholedig prif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol (NPA) ac awdurdodau tân ac achub (FRA) oedd yn ei adroddiad blynyddol² yn 2022 a chynnwys aelodau lleyg o bwyllgorau cydweithredol corfforaethol (CJC) yn ei adroddiad atodol³ yn 2024. Roedd y cyfraddau wedi'u cysylltu â chyfraddau penodiadau cyhoeddus a delir gan Lywodraeth Cymru, nad ydynt wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd.

13. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad o'r cyfraddau hyn, a bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig a lleyg awdurdodau perthnasol. "

- 12 Mae'r ffi ddyddiol yn cael ei chapio ar uchafswm o bedwar diwrnod llawn y flwyddyn ar y cyfraddau canlynol:

| | Cyfradd ddyddiol 2025/26 o 1 Ebrill 2025 | Cyfradd ddyddiol 2026/27 o 1 Ebrill 2026 |
|---------------------------------|--|--|
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Ffi ddyddiol o £268 (£134 am hanner diwrnod) | Ffi ddyddiol o £268 (£134 am hanner diwrnod) |
| Aelod Annibynnol | Ffi ddyddiol o £210 (£105 am hanner diwrnod) | Ffi ddyddiol o £210 (£105 am hanner diwrnod) |

Lwfansau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal

- 13 Ni fu unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy'n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Atgoffir yr Aelodau y cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018 y gellir hawlio cynhaliaeth pan fydd aelodau oddi cartref am bum awr neu fwy; mae hyn yn cyd-fynd â rheolau CThEF.

- Cynhaliaeth

£28 y dydd Lwfans dydd ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast, lle nad yw wedi'i ddarparu yn y tâl dros nos. Rhaid bod i ffwrdd am bum awr neu fwy i wneud cais am gynhaliaeth.

- Llety

£200 y noson Llundain
£95 y noson Mannau eraill
£30 y noson Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

- Mae'r gyfradd fesul milltir yn parhau i fod yn 45c y filltir.

- 14 Atgoffir yr Aelodau hefyd, er mwyn cefnogi aelodau presennol ac annog amrywiaeth, ac yn unol ag argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, bod yr Awdurdod yn ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion os cyflwynir derbynebaw fel a ganlyn:

- Ar gyfer gofal cofrestredig – costau gwirioneddol
- Ar gyfer gofal anghofrestredig - hyd at gyfradd uchaf sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

- 15 Rhaid i'r Awdurdod hefyd gyhoeddi bob blwyddyn gyfanswm y taliadau a wneir i bob aelod. Cyhoeddir yr amserlen hon yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

GOBLYGIADAU

| | |
|--|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2025/26 | Mae'r cynnydd hwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| Cyfreithiol | <p>Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau Aelodau o awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.</p> <p>Yn unol â Rheoliadau a chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr flynyddol o Gydabyddiaeth Ariannol i Aelodau sy'n nodi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn unol â'r lefelau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau a bennir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol terfynol. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cyngorau gael eu cyfleu i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud.</p> |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Ystyrir nad yw'n berthnasol |



Comisiwn
Democratiaeth a
Ffiniau Cymru

Democracy
and Boundary
Commission Cymru

Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth

2026-27

cdffc.llyw.cymru
cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Rhagair | 3 |
| Pennod 1. Cyflwyniad | 4 |
| Taliadau ymaddasu | 4 |
| Rolau uwch | 4 |
| Cynghorau cymuned a thref (CCTh) | 5 |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) | 5 |
| Aelodau cyfetholedig a lleyg | 5 |
| Cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) | 5 |
| Ymgysylltu | 6 |
| Pennod 2. Methodoleg | 7 |
| Pennod 3. Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol 2026-27 ... | 8 |
| Pennod 4. Penderfyniadau ar gyfer 2026-27 | 9 |
| Penderfyniad 1/2026: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau | 9 |
| Penderfyniad 2/2026: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau | 9 |
| Penderfyniad 3/2026: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh) | 11 |
| Penderfyniad 4/2026: Taliadau i aelodau'r APC a'r ATA | 11 |
| Penderfyniad 5/2026: Aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig | 12 |
| Penderfyniad 6/2026: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh) | 12 |
| Pennod 5. Crynodeb o'r penderfyniadau ar gyfer 2026-27 | 14 |
| Pennod 6. Penderfyniadau cyfredol o flynyddoedd blaenorol | 15 |

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg gan Calan.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2026–27 gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r penderfyniadau ynghylch cyflog, treuliau, a buddion ar gyfer aelodau prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yn weithredol o 1 Ebrill 2026. Mae cydnabod gwasanaeth aelodau etholedig yn hollbwysig, gan fod y gwaith hwn yn cefnogi'r fframwaith democrataidd ehangach yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiwn ar gael ar ein gwefan [Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | CDFfC](#).

Dyma ein hadroddiad cyntaf ers cymryd cyfrifoldeb am y maes hwn, a reolwyd yn flaenorol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Diolchwn i'r Panel am eu fframwaith cynhwysfawr ac i Lywodraeth Cymru am eu cymorth yn ystod y cyfnod pontio.

Cyflwynir y penderfyniadau ar gyfer 2026–27 yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi datblygu'r rhain yn unol â'r fframwaith a sefydlwyd gan y Panel. Mae ein sylw yn troi bellach at baratoi'r adroddiad nesaf, a fydd yn cynnwys adolygiad trwyadl o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol a'r mecanweithiau a ddefnyddir ar gyfer addasiadau blynyddol, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Yn unol â [Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013](#), mae'n ofynnol i ni ystyried taliadau ymaddasu priodol i gynghorwyr sy'n colli eu seddi mewn etholiadau ac i gynghori Llywodraeth Cymru yn unol â hynny.

Byddwn hefyd yn gwerthuso'r strwythur cydnabyddiaeth ariannol presennol ar gyfer swyddi uwch mewn prif gynghorau ac ar gydbwyllgorau corfforedig i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Hefyd, byddwn yn adolygu'r mynegai a ddefnyddir ar gyfer addasiadau cydnabyddiaeth ariannol blynyddol ac yn ailasesu llwyth gwaith aelodau etholedig i sicrhau digollediad teg.

Trwy gydol y broses hon, byddwn yn ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i hysbysu ein penderfyniadau.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i ysgrifenyddiaeth y Comisiwn am eu cymorth gwerthfawr wrth ddatblygu'r adroddiad hwn.



Karen Jones

Cadeirydd

Pennod 1. Cyflwyniad

1. Mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA). Rydym yn ymwybodol o waith PACGA yn y gorffennol ac yn diolch iddynt am eu hadroddiad etifeddiaeth¹.
2. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith taliadau unwaith yn unig ym mhob cylch etholiadol. Bydd yr adroddiad cyn pob etholiad llywodraeth leol yn ystyried newidiadau mawr i'r fframwaith, gyda'r rhai rhyngddynt yn canolbwyntio ar uwchraddio blynyddol. Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad drafft hwn ar gyfer 2026-27 yn ystyried uwchraddio symiau lle bo hynny'n briodol ond yn gadael y fframwaith heb ei newid. Bydd yr adroddiad nesaf, ar gyfer 2027-28, y mae'n ofynnol i ni ei gyhoeddi erbyn diwedd Chwefror 2027, yn diweddarau'r fframwaith ar gyfer yr aelodau hynny a fydd yn cael eu hethol yn etholiadau lleol Mai 2027.
3. Mae llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025–26 yn amlinellu sawl amcan allweddol i'r Comisiwn o ran cydnabyddiaeth ariannol:
 - Asesu'r angen posibl am daliadau ailsefydlu a chefnogi swyddogion gyda deunyddiau briffio ar gyfer unrhyw ystyriaethau rheoleiddio cysylltiedig.
 - Ailedrych ar y Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Rolau Uwch ar draws Prif Gynghorau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
 - Archwilio'r meincnod presennol sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Enillion yr Awr, ochr yn ochr â gwerthusiad o lwyth gwaith aelodau.

Taliadau ymaddasu

4. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ystyried pa daliadau, os o gwbl, y dylai prif gynghorau eu gwneud i gynghorwyr sy'n sefyll i gael eu hailethol ond sy'n aflwyddiannus. Rydym wedi ceisio cydbwysu anghenion aelodau etholedig wrth iddynt beidio â bod yn gynghorwyr mwyach yn erbyn cyllidebau cynghorau, gan ystyried, os yw'n briodol, y rhai sy'n derbyn symiau o rolau uwch o fewn eu cyngor.
5. Mae'r Comisiwn wedi dyfarnu y dylid sefydlu cynllun taliadau ymaddasu. Rydym wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn a yw'n bwriadu drafftio rheoliadau i hyn fod yn weithredol ar gyfer etholiadau lleol 2027. Os bydd yn cytuno, byddwn yn cynnal ymgynghoriad wedyn ar sut y dylai cynllun edrych yn rhan o'n gwaith ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf.

Rolau uwch

6. Bydd y Comisiwn yn arolygu awdurdodau, eu haelodau a'u cyrff cynrychioliadol i weld a yw'r fframwaith presennol o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rhai sydd â rolau uwch yn

¹ [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad etifeddiaeth | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

cydnabod yn briodol ymrwymiad amser a chyfrifoldebau'r rolau hynny. Byddwn yn cynnwys unrhyw benderfyniad sy'n dilyn o'r ymchwil hon yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

Cynghorau cymuned a thref (CCTh)

7. Roedd PACGA wedi symleiddio'r gofynion adrodd ar gyfer CCTh yn flaenorol i annog aelodau i dderbyn lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, a bydd gwaith yn parhau i fonitro effaith hyn.
8. Mae'r gyfradd y cyflwynwyd datganiadau i'r Comisiwn wedi bod yn sylweddol is na phan roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am y maes hwn. Cyflwynodd llai na 50% o gynghorau eu datganiadau i ni. Cyhoeddodd 9% o gynghorau eu datganiadau ar eu gwefannau heb eu hanfon ymlaen atom ni. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyrff cynrychioladol i archwilio pa gymorth ychwanegol y gallwn ei gynnig i gynghorau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC)

9. Mae CBC yn fath cymharol newydd o gorff. Mae pob un o'r pedwar pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y prif gynghorau yn ei ardal a chadeirydd unrhyw awdurdod parc cenedlaethol sy'n gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ei ffiniau. Mae'r arweinwyr hyn yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu rôl o fewn eu cyrff priodol.
10. Mae pob pwyllgor wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau i ymdrin â meysydd arbenigol ac mewn un achos Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
11. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch pa un a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn briodol i adlewyrchu'r ymrwymiad amser ychwanegol a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â CBC, ac yn cynnwys unrhyw benderfyniad yn ei adroddiad blynyddol 2027-28.

Aelodau cyfetholedig a lleyg

12. Uwchraddiodd y PACGA gydnabyddiaeth ariannol aelodau cyfetholedig prif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol (APC) ac awdurdodau tân ac achub (ATA) ddiwethaf yn ei adroddiad blynyddol 2022² a chynhwysodd aelodau lleyg cyd-bwyllgorau corfforedig (CBC) yn ei adroddiad atodol 2024³. Roedd y cyfraddau yn gysylltiedig â'r cyfraddau penodiadau cyhoeddus a dalwyd gan Lywodraeth Cymru, nad ydynt wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd.
13. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad o'r cyfraddau hyn a bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg awdurdodau perthnasol.

Cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

14. Bydd y Comisiwn yn ystyried ar gyfer ein hadroddiad nesaf a yw'n parhau i fod yn briodol i gydnabyddiaeth ariannol gael ei chysylltu â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o elfen Cymru ei Harolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

² [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022 | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

³ [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adolygiad o dâl i aelodau lleyg ar cyd-bwyllgorau corfforedig | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

Ymgysylltu

15. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol, a Chymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru fel y cyrff cynrychioliadol ar draws y teulu llywodraeth leol, yn ogystal ag awdurdodau unigol, ac yn ystyried eu barn wrth i ni wneud ein penderfyniadau, gan barhau i ystyried effaith ein penderfyniadau ar gyllidebau awdurdodau.

Pennod 2. Methodoleg

21. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth o ran cydnabyddiaeth ariannol.
22. Paratowyd papur dystiolaeth ac ymchwil gennym eleni i dynnu ynghyd y gwahanol ffynonellau o wybodaeth a ystyriwyd gan y Comisiwn wrth wneud ei Benderfyniadau drafft. Darparodd hwn amrywiaeth eang o ddata, dystiolaeth, a ffactorau cyd-destunol i hysbysu proses gwneud penderfyniadau'r Comisiwn o ran ei Benderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Roedd hyn yn cynnwys:
 - Data ar enillion wythnosol cyfartalog y DU a Chymru, gan gynnwys ASHE.
 - Tueddiadau cyflog y sectorau cyhoeddus a phreifat
 - Cyfraddau chwyddiant blynyddol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys set ddata costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr
 - Meincnodau, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yn yr Alban
 - Ymchwil ar lwyth gwaith cynghorwyr
 - Safbwyntiau ac agweddau at gydnabyddiaeth ariannol ac amrywiaeth (Llywodraeth Cymru)
 - Data a gasglwyd ar nifer y cynghorwyr sy'n manteisio ar becynnau cydnabyddiaeth ariannol a buddion
 - Data ar gyllid awdurdodau lleol
23. Bydd y set lawn o dystiolaeth ac ymchwil a ystyriwyd yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan.
24. Roeddem yn bresennol yng Nghynhadledd Flynyddol 2025 CLILC, a byddwn yn parhau i fynychu yn y blynyddoedd i ddod, fel y gall cynghorwyr ac arweinwyr glywed am ystod lawn swyddogaeth y Comisiwn, cynnwys cydnabyddiaeth ariannol, a thrafod eu safbwyntiau â ni.
25. Roeddem hefyd yn bresennol yng Nghyd-gynhadledd 2025 y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer ein hadroddiad drafft, ac fe wnaethom siarad â nhw am dueddiadau o ran aelodau cynghorau cymuned a thref yn hawlio lwfansau.
26. Clywsom bryderon am rai materion yn ystod y flwyddyn.
27. Roedd arweinwyr yn rhai o'r cynghorau cymuned a thref mwy yn teimlo bod eu swyddogaeth yn haeddu mwy o gydnabyddiaeth ariannol na'r hyn a gynigiwyd ar y pryd. Roeddem yn credu y gallem ystyried rhywbeth mwy cyfatebol i'r hyn a delir i gynghorwyr cyffredin mewn prif gynghorau. Rydym yn nodi'r pryder hwn a byddwn yn gofyn am safbwynt mwy manwl gan y sector cynghorau cymuned a thref yn rhan o'n gwaith ymchwil ar gyfer adroddiad 2027-28.
28. Mynegodd aelodau cyfetholedig a lleyg o brif gynghorau safbwynt nad oedd eu cydnabyddiaeth ariannol wedi cael ei chynyddu ers rhai blynyddoedd, a bod ei gwerth wedi cael ei herydu o ganlyniad. Rydym yn disgwyl canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o gyfraddau penodiadau cyhoeddus fel y gallwn ystyried pa effaith y dylai hynny ei chael i aelodau cyfetholedig a lleyg.
29. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hystyriaethau naill ai'n uniongyrchol neu drwy adborth ar ein hadroddiad drafft.

Pennod 3. Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27

30. Cyhoeddwyd ein hadroddiad drafft ar 23 Medi 2025 ar gyfer ymgynghoriad wyth wythnos o hyd, a ddaeth i ben ar 18 Tachwedd 2025.
31. Gofynnwyd i randdeiliaid a'r cyhoedd gynnig eu hadborth ar ein penderfyniadau arfaethedig. Derbyniwyd cyfanswm o 26 o ymatebion, y cwbl drwy e-bost i cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i bawb a ymatebodd ac mae'n cydnabod y gyfradd ymateb isel. Byddwn yn adolygu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud ar gyfer yr adroddiad nesaf.
32. Ystyriodd y Comisiwn y sylwadau yn ofalus cyn iddo wneud ei benderfyniadau terfynol. Mae'r holl sylwadau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddiadau a golygiadau.
33. Mynegodd nifer o ymatebion bryder â'n defnydd parhaus o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyflogau canolrifol yng Nghymru, a'r cynnydd y mae'r rheini wedi ei ddynodi ar gyfer blwyddyn olaf cylch etholiadol llywodraeth leol. Rydym yn cydnabod y pryder hwnnw ac wedi ymrwymo i wneud gwaith ymchwil ar yr amrywiaeth o fesurau sydd ar gael. Rydym yn cadw'r cysylltiad ag ASHE ar gyfer yr adroddiad hwn fel y gwnaethom ni, a'r Panel o'n blaenau, ymrwymo i'w wneud ar gyfer y cylch hwn, ond byddwn yn ymgynghori ar y mynegai i'w ddefnyddio ar gyfer cynnydd ar draws y cylch etholiadol nesaf yn rhan o'r gwaith tuag at ein hadroddiad ar gyfer 2027-28.
34. Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd ac wedi dod i'r casgliad y bydd y penderfyniadau drafft yn cael eu mabwysiadu ar gyfer 2026-27. Maent wedi eu cynnwys ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

Pennod 4. Penderfyniadau ar gyfer 2026-27

35. Bydd y penderfyniadau canlynol yn berthnasol i'r holl daliadau y disgwylir iddynt gael eu talu ym mlwyddyn ariannol 2026-27.
36. Mae aelodau yn cadw'r hawl i optio allan o unrhyw daliad, yn llawn neu'n rhannol. Penderfyniad unigol i aelodau yw hwnnw. Ni chaniateir i awdurdodau wneud penderfyniad cyfunol i optio allan o daliadau gorfodol.

Penderfyniad 1/2026: Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

37. Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i'r holl aelodau etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am gyfrifoldeb cynrychiolaeth gymunedol a chyfranogiad yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar drefn gyfwerth ag amser llawn o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ymrwymiad amser hwn, ac ni chynhigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2026-27.
38. Mae'r Comisiwn yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus a'r effaith y bydd ei benderfyniadau yn ei chael ar gyllidebau prif gynghorau. Mae'r Comisiwn hefyd yn ymwybodol o'n nodau a'n hamcanion i ddarparu pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac i annog amrywiaeth o gynrychiolaeth.
39. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn iawn cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027. Bydd y cyflog sylfaenol yn cael ei alinio â thair rhan o bump o ASHE Cymru gyfan 2024⁴, y ffigur diweddaraf oedd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn. Y cyflog sylfaenol fydd £21,044, cynnydd o 6.4% ar 2025-26.

Penderfyniad 2/2026: Cyflogau a delir i aelodau uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

40. Mae pob cyflog uwch yn cynnwys y taliad cyflog sylfaenol. Mae'r gwahanol lefelau o gyfrifoldeb ychwanegol pob rôl a rhwng pob rôl yn cael eu cydnabod mewn fframwaith bandio. Ni chynhigir unrhyw newidiadau i fandiau eleni.
41. Bydd yr elfen gyflog sylfaenol yn cael ei chodi yn unol ag ASHE a bydd yr un cynnydd hefyd yn berthnasol i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3, 4 a 5, gan roi cynnydd o 6.4% i bob rôl.
42. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) felly fydd £78,917. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu drwy gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhablau 1 a 2 isod.

⁴ [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024 \[HTML\] | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

Tabl 1: cyflogau sy'n daladwy i aelodau sylfaenol, uwch, dinesig a llywyddol prif gynghorau

| Disgrifiad | Swm |
|--|---------|
| Grŵp A | |
| Band 1 arweinydd | £78,917 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £55,242 |
| Band 2 aelod gweithredol | £47,350 |
| Grŵp B | |
| Band 1 arweinydd | £71,025 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £49,717 |
| Band 2 aelod gweithredol | £42,615 |
| Grŵp C | |
| Band 1 arweinydd | £67,079 |
| Band 1 dirprwy arweinydd | £46,955 |
| Band 2 aelod gweithredol | £40,247 |
| Pob prif gyngor | |
| Cyflog sylfaenol | £21,044 |
| Band 3 cadeirydd pwyllgor (os talwyd) | £31,567 |
| Band 4 arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf | £31,567 |
| Band 5 arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill (os talwyd) a dirprwy bennaeth dinesig | £25,253 |
| Pennaeth dinesig (os talwyd) | £31,567 |
| Dirprwy bennaeth dinesig (os talwyd) | £25,253 |
| Aelod Llywyddol (os talwyd) | £31,567 |
| Dirprwy aelod llywyddol (sylfaenol yn unig) | £21,044 |

Tabl 2: Grwpiau Cyngor yn ôl poblogaeth

| Grŵp A Poblogaeth dros 200,000 | Grŵp B Poblogaeth 100,000 i 200,000 | Grŵp C Poblogaeth hyd at 100,000 |
|---|--|---|
| Caerdydd Rhondda Cynon Taf Abertawe | Pen-y-bont ar Ogwr Caerffili Sir Gaerfyrddin Conwy Y Fflint Gwynedd Casnewydd Castell-nedd Port Talbot Sir Benfro Powys Bro Morgannwg Wrecsam | Blaenau Gwent Ceredigion Sir Ddinbych Ynys Môn Merthyr Tudful Sir Fynwy Torfaen |

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddion a delir i aelodau etholedig.

Penderfyniad 3/2026: Cyflogau ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu (CBTCh)

43. Bydd cyflog cadeirydd CBTCh yn parhau i gael ei alinio â Band 3 a bydd yn cael ei osod ar £10,522.
44. Mae cyflog is-gadeirydd wedi'i osod ar 50% o gyflog y Cadeirydd a bydd yn £5,261.
45. Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn y maes hwn.

Penderfyniad 4/2026: Taliadau i aelodau'r APC a'r ATA

46. Ffurfiwyd a 3 parc cenedlaethol yng Nghymru; Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, i ddiogelu tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu APC ar gyfer pob parc. Mae APCau yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses benodiadau cyhoeddus. Mae aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol
47. Ffurfiwyd y tri ATA yng Nghymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Mae ATAAu yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau ym mhob ardal gwasanaeth tân ac achub.
48. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, mae lefel y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyffredin APCau ac ATAAu hefyd yn cael ei chynyddu yn unol ag ASHE.
49. Bydd y gydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Bydd eu helpen rôl yn cynyddu yn unol â hynny. Bydd dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau a swyddi uwch cyflogedig eraill yn parhau i fod yn gysylltiedig â Band 5. Nodir manylion llawn lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau APCau a ATAAu yn Nhabl 3.

Tabl 3: Taliadau i aelodau APC ac ATA

| APCau | Swm |
|---|---------|
| Cyflog sylfaenol aelod cyffredin | £5,936 |
| Cadeirydd | £16,458 |
| Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un) | £10,144 |
| Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall | £10,144 |
| ATAAu | Swm |
| Cyflog sylfaenol aelod cyffredin | £2,968 |
| Cadeirydd | £13,490 |
| Dirprwy gadeirydd (pryd penodir un) | £7,177 |
| Cadeirydd pwyllgor neu swydd uwch arall | £7,177 |

50. Heblaw am y cynnydd uchod, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig eleni.

Penderfyniad 5/2026: Aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig

51. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAAu dalu ffioedd ar y cyfraddau yn Nhabl 4 isod i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.
52. Bydd yr holl benderfyniadau yn yr adran hon sy'n ymwneud ag aelodau cyfetholedig yn berthnasol yn yr un modd i aelodau lleyg CBC sydd â hawliau pleidleisio o 31 Gorffennaf 2024.
53. Rhaid i'r swyddog priodol o fewn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod. Pan fydd y cyfarfod wedi'i bennu am ddiwrnod llawn, bydd y ffi yn cael ei thalu ar y sail hon hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen o fewn 4 awr.
54. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog priodol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Tabl 4: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg (sydd â hawliau pleidleisio)

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a mwy |
|---|--------------------------|---------------------------|--------------------------|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau ac archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Cadeiryddion lleyg CBCau | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau Cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau lleyg cyffredin CBCau | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau Cyffredin Pwyllgorau Safonau; Pwyllgor Craffu Addysg; Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n eistedd ar Bwyllgorau Safonau Prif Gyngor | £26.25 | £105 | £210 |

Penderfyniad 6/2026: Taliadau i aelodau cynghorau cymuned a thref (CCTh)

55. Gall CCThau ddewis talu iawndal am golled ariannol i'w haelodau, pan fo colled o'r fath wedi digwydd yn sgil mynychu dyletswyddau cymeradwy. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynnal yr aliniad â chyfradd ddyddiol ASHE fel a ganlyn:
 - Hyd at £67.45 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr.
 - Hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr.
56. Heblaw am y newid hwn i'r iawndal am golledion ariannol, ni wneir unrhyw newidiadau i daliadau i aelodau CCTh. Nodir y gydnabyddiaeth ariannol sy'n ddyledus yn Nhablau 5 a 6 isod.

Tabl 5: Taliad costau ychwanegol (fesul grŵp) ar gyfer holl aelodau CCThau

| Math o daliad | Grŵp 1 | Grŵp 2 a 3 | Grŵp 4 a 5 |
|-----------------------------------|--|--|--|
| Taliad costau ychwanegol | £156 yn orfodol i bob aelod | £156 yn orfodol i bob aelod | £156 yn orfodol i bob aelod |
| Rôl uwch | £500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 7 | £500 yn orfodol i 1 aelod; yn ddewisol i hyd at 5 | Yn ddewisol i hyd at 3 aelod |
| Maer neu gadeirydd | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £1,500 |
| Dirprwy faer neu gadeirydd | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £500 |
| Lwfans presenoldeb | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 | Yn ddewisol hyd at uchafswm o £30 |
| Colled ariannol | Dewisol | Dewisol | Dewisol |
| Teithio a chynhaliaeth | Dewisol | Dewisol | Dewisol |
| Costau gofal neu gymorth personol | Gorfodol | Gorfodol | Gorfodol |
| Nwyddau traul swyddfa | £52 yn orfodol neu addaliad llawn i'r holl aelodau | £52 yn orfodol neu addaliad llawn i'r holl aelodau | £52 yn orfodol neu addaliad llawn i'r holl aelodau |

Tabl 6: Grwpiau CCTh yn ôl etholwyr

| Grŵp | Etholwyr |
|------|-----------------|
| 1 | dros 14,000 |
| 2 | 10,000 i 13,999 |
| 3 | 5,000 i 9,999 |
| 4 | 1,000 i 4,999 |
| 5 | o dan 1,000 |

Os yw incwm neu wariant blynyddol cyngor cymuned neu dref yn barhaol yn fwy na £200,000, byddant yn cael eu symud i'r grŵp mwyaf nesaf.

Pennod 5. Crynodeb o'r penderfyniadau ar gyfer 2026-27

1/2026

57. Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau wedi'i osod ar £21,044.

2/2026

58. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £78,917. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u pennu gan gyfeirio at hyn ac fe'u nodir yn Nhabl 1.

3/2026

59. Bydd cyflog cadeirydd CBTCh yn cael ei osod ar £10,522. Cyflog is-gadeirydd fydd £5,261.

4/2026

60. Mae cyflog sylfaenol aelodau APC ac ATA wedi'i gynyddu fel y nodir yn Nhabl 3.

5/2026

61. Mae'r ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleig y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u nodi yn Nhabl 4.

6/2026

62. Mae'r iawndal dewisol am golledion ariannol ar gyfer aelodau CCTh yn cael ei gynyddu i:

- hyd at £67.45 am bob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr
- hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond heb fod yn fwy na 24 awr

63. Mae'r holl daliadau eraill i aelodau CCThau yn aros yr un fath ag yr oeddynt yn y blynyddoedd blaenorol.

Pennod 6. Penderfyniadau cyfredol o flynyddoedd blaenorol

64. Mae'r penderfyniadau canlynol yn ddigyfnewid o'u cymharu â rhai'r blynyddoedd blaenorol, ond maent yn cael eu hailddatgan yma er mwyn cyflawnrwydd.

Cyflogau sy'n daladwy i aelodau uwch, dinesig a llywyddol y Prif Gyngorau

65. Mae'r terfyn ar gyfer y cyflogau uwch sy'n daladwy (cap), yn parhau i fod ar waith. Mae hyn wedi'i nodi yn Nhabl 7 isod.

Tabl 7: Uchafswm nifer yr aelodau cyngor sy'n gymwys i gael taliad cyflog uwch

| Cyngor | Grŵp | Nifer y cyngorwyr | Uchafswm cyflogau uwch sy'n daladwy |
|--------------------------|------|-------------------|-------------------------------------|
| Caerdydd | A | 79 | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | A | 75 | 19 |
| Abertawe | A | 75 | 19 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | B | 51 | 18 |
| Caerffili | B | 69 | 18 |
| Sir Gaerfyrddin | B | 75 | 18 |
| Conwy | B | 55 | 18 |
| Y Fflint | B | 67 | 18 |
| Gwynedd | B | 69 | 18 |
| Castell-nedd Port Talbot | B | 60 | 18 |
| Casnewydd | B | 51 | 18 |
| Sir Benfro | B | 60 | 18 |
| Powys | B | 68 | 18 |
| Bro Morgannwg | B | 54 | 18 |
| Wrecsam | B | 56 | 18 |
| Blaenau Gwent | C | 33 | 16 |
| Ceredigion | C | 38 | 17 |
| Sir Ddinbych | C | 48 | 17 |
| Ynys Môn | C | 35 | 17 |
| Merthyr Tudful | C | 30 | 15 |
| Sir Fynwy | C | 46 | 17 |
| Torfaen | C | 40 | 17 |

Cyngorau Grŵp A: poblogaeth dros 200,000

Cyngorau Grŵp B: poblogaeth 100,000 i 200,000

Cyngorau Grŵp C: poblogaeth hyd at 100,000

Cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch

66. Swyddi o fewn y prif gyngor (Penderfyniad 7 o 2022)

- Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag 1 swydd uwch o fewn ei awdurdod.
- Ni ddylid talu cyflog uwch a chyflog dinesig i aelod etholedig.
- Mae pob cyflog uwch a dinesig yn cynnwys cyflog sylfaenol.

- Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag 1 dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uwch ar gyfer y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at y cyflog uwch ar gyfer aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r cyflog uwch sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

Cyfyngiadau ar daliadau am swyddi y tu allan i'r prif gyngor

- Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC neu ATA y maent wedi'u penodi iddo.
- Maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr APC neu'r ATA. (Penderfyniad 8 o 2022)
- Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw daliad gan gyngor cymuned neu dref y maent yn aelod ohono. Maent yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan y cyngor cymuned neu dref. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio. (Penderfyniad 9 o 2022)

Cefnogaeth i aelodau etholedig prif gynghorau

- Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sicrhau bod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gefnogaeth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngwrwyd digonol sy'n rhoi mynediad electronig i wybodaeth briodol. (Penderfyniad 10 o 2022)
- Dylai cymorth o'r fath fod heb unrhyw gost i'r aelod unigol. Rhaid i'r awdurdod priodol beidio â gwneud didyniadau o gyflogau aelodau fel cyfraniad tuag at gost cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu ei fod yn angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd aelodau. (Penderfyniad 11 o 2022)

Cyflogau uwch a chynorthwywyr penodol neu ychwanegol y weithrediaeth

- Gall prif gynghorau wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y Fframwaith presennol (Penderfyniad 12 o 2022).
- Bydd y Comisiwn yn penderfynu fesul achos beth fydd y cyflog uwch priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth (Penderfyniad 13 o 2022).
- Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

- Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol i bob aelod etholedig cymwys prif gynghorau (Penderfyniad 16 o 2022).

Darpariaethau absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau

- Yn yr adran hon, mae "absenoldeb teuluol" yn cyfeirio at absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu a rhieni o fusnes swyddogol.
- Diffinnir y gwahanol gategoriâu hyn yn [Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol \(Cymru\) 2013](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y gwahanol fathau o absenoldeb yn [absenoldeb o gyfarfodydd awdurdodau lleol: absenoldeb teuluol \[HTML\] | LLYWODRAETH. CYMRU](#).

78. Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol o dan y rheoliadau gwreiddiol neu unrhyw ddiwygiad i'r rheoliadau ni waeth beth fo'r cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol. (Penderfyniad 17 o 2022)
79. Pan fydd deiliad cyflog uwch yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol, bydd yn parhau i dderbyn y cyflog am gyfnod yr absenoldeb. (Penderfyniad 18 o 2022)
80. Mae'n fater i'r awdurdod benderfynu a ddylid penodi dirprwy. Bydd yr aelod etholedig sy'n cymryd lle'r deiliad cyflog uwch sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu felly. (Penderfyniad 19 o 2022)
81. Os yw penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy o gyflogau uwch nag uchafswm y nifer o gyflogau uwch sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynnyddol y PACGA, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm am gyfnod y dirprwyad. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful pe byddai'n golygu bod nifer y cyflogau uwch yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae angen cymeradwyaeth benodol Gweinidogion Cymru mewn amgylchiadau o'r fath. (Penderfyniad 20 o 2022)
82. Cafodd Cyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys ym Mhenderfyniad 20 o 2022, ond roedd newidiadau dilynol i nifer y cynghorwyr ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud ei gynnwys yn yr eithriad hwn yn ddiangen.
83. Pan fydd cyngor yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig ar gyfer absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu'r Comisiwn am y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad (Penderfyniad 21 o 2022).
84. Rhaid diwygio atodlen cydnabyddiaeth ariannol y cyngor i adlewyrchu goblygiadau absenoldeb teuluol (Penderfyniad 22 o 2022).

Taliadau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer deiliaid cyflog uwch prif gynghorau

85. Mae'r fframwaith yn darparu trefniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch hirdymor i ddeiliaid cyflog uwch. Mae'r trefniadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad yr adroddiad hwn.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)

86. Mae talu cyfraniad at gostau gofal a theithio a chynhaliaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â CBC wedi bod yn berthnasol i holl aelodau CBAu ers 2022.
87. Mae taliadau i aelodau lleyg cyfetholedig CBC wedi'u cynnwys isod o dan y pennawd Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, APC ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Taliadau i awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub

88. Ni ddylai aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch APC (Penderfyniad 27 o 2022).
89. Mae cyflog uwch APC yn cynnwys cyflog sylfaenol yr APC (Penderfyniad 28 o 2022).
90. Ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC y maent wedi'u penodi iddo. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio (Penderfyniad 29 o 2022).
91. Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un cyflog uwch ATA (Penderfyniad 34 o 2022).
92. Mae cyflog uwch ATA yn cynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus (Penderfyniad 35 o 2022).

93. Ni chaiff aelodau prif gyngor sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA y maent wedi'u henwebu iddo. Pryd y mae'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio (Penderfyniad 36 o 2022).

Aelodau cyfetholedig prif gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg o Gyd-bwyllgorau Corfforedig

94. Mae amser teithio i leoliad cyfarfod ac yn ôl i'w gynnwys yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol). (Penderfyniad 39, 2022)
95. Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd o flaen llaw gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadledau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu. (Penderfyniad 41 o 2022)
96. Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig y gall y swyddog priodol benderfynu ar ei faint cyn y cyfarfod (Penderfyniad 5 o 2023).
97. Rhaid i bob awdurdod, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, sicrhau bod pob aelod cyfetholedig sydd â hawl pleidleisio yn cael cymaint o gefnogaeth ag sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gost i'r aelod unigol (Penderfyniad 42 o 2022).
98. Mae aelodau cyfetholedig a lleyg awdurdodau perthnasol sydd â hawliau pleidleisio hefyd yn gallu hawlio taliadau teithio, cynhaliath, gofal a chymorth personol fel y nodir yn yr adrannau isod.

Costau teithio a chynhaliath

99. Mae'r cyfraddau ad-dalu milltiroedd, costau teithio eraill a chostau cynhaliath y gellir eu hawlio gan aelodau prif gyngorau, APCau, ATAAu, a'u haelodau cyfetholedig, ac aelodau CBCau a'u haelodau lleyg wedi'u nodi isod.
100. Gall Cynghorau Cymuned a Thref ddewis ad-dalu costau teithio a/neu gynhaliath. Pan fydd yr opsiwn i ad-dalu wedi'i wneud, rhaid i hyn gydymffurfio â'r hyn a nodir yn y canllawiau teithio a chynhaliath.

Costau milltiroedd

101. Rhaid i ad-daliad fod ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau EF (CTHEF).⁵

Costau teithio eraill

102. Rhaid ad-dalu pob hawliad arall am deithio, gan gynnwys mewn tacsï os hwn yw'r unig ddull teithio neu'r dull mwyaf priodol, ar y gost wirioneddol sydd i'w gweld ar dderbynebaw.

Costau cynhaliath

103. Mae'r cyfraddau uchaf ar gyfer taliadau cynhaliath wedi'u nodi isod ar sail hawliadau a gyflwynir gyda derbynebaw:
- £28 fesul cyfnod o 24 awr fel lwfans ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu
 - £200 ar gyfer aros yn Llundain dros nos

⁵ [Teithio — cyfraddau a lwfansau milltiroedd a thanwydd - GOV.UK](#)

- £95 ar gyfer aros mewn mannau eraill dros nos
- £30 ar gyfer aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos

Costau Gofal a Thaliadau Cymorth Personol

104. Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal plant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:
- costau gofal ffurfiol (cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru neu gyfwerth) i'w talu yn unol â thystiolaeth
 - costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) i'w talu hyd at uchafswm cyfradd sy'n cyfateb i'r cyfraddau awr Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw⁶ ar yr adeg yr ysgwyddir y costau
105. Rhaid i hyn fod ar gyfer y costau ychwanegol a ysgwyddir gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig yn briodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy. Dim ond ar ôl cyflwyno derbynebau gan y darparwr gofal y bydd y taliad yn cael ei wneud (Penderfyniad 43 o 2022).

Cynghorau cymuned a thref

106. Dim ond cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod sydd angen eu dangos ar ffurflenni adrodd. Y rhain yw'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio o gartref a'r lwfans nwyddau traul cyfradd benodol o £52 a'r costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn unol â'r adroddiad ar gostau gofal a lwfansau cymorth personol. (Penderfyniad 8 o 2024)
107. Ni chaiff aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw, arweinydd, dirprwy arweinydd neu aelod gweithredol) dderbyn unrhyw daliad gan unrhyw gyngor cymuned neu dref, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. (Penderfyniad 53 o 2022)
108. Gall cynghorau cymuned a thref benderfynu ad-dalu eu haelodau mewn perthynas â chostau teithio a/neu gynhaliaeth am fynychu dyletswyddau cymeradwy. Pan fo'r opsiwn i ad-dalu wedi'i gymryd, rhaid cymhwyso'r canllawiau costau teithio a chynhaliaeth. (Penderfyniad 46 a 47 o 2022)

⁶ [Beth yw'r Cyflog Byw Gwirioneddol? | Sefydliad y Cyflog Byw](#)

Atodiad: taliadau absenoldeb oherwydd salwch i ddeiliaid cyflog uwch prif gynghorau

Mae fframwaith y Comisiwn yn darparu trefniadau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch hirdymor i ddeiliaid cyflog uwch fel a ganlyn:

- Diffinnir salwch hirdymor fel absenoldebau ardystiedig dros 4 wythnos.
- Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu hyd nes y bydd cyfnod swydd yr unigolyn yn dod i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf (ond os caiff ei ailbenodi bydd unrhyw falans sy'n weddill o'r 26 wythnos yn cael ei gynnwys).
- O fewn y paramedrau hyn, gall deiliad cyflog uwch ar absenoldeb o herwydd salwch hirdymor barhau i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os dyna yw penderfyniad yr awdurdod.
- Yr awdurdod sy'n penderfynu a ddylid penodi dirprwy, ond bydd y dirprwy yn gymwys i gael y cyflog uwch sy'n briodol i'r swydd.
- Os yw penodi dirprwy cyflogedig yn golygu bod gan yr awdurdod fwy o gyflogau uwch nag uchafswm y nifer o gyflogau uwch sydd i'w talu gan yr awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blyneddol, caniateir ychwanegiad am gyfnod y dirprwyad. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful pe byddai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn derbyn cyflog uwch. Ni fyddai yn berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod gweithredol y cyngor pe byddai'n golygu bod gan y cabinet fwy na 10 swydd, yr uchafswm statudol).
- Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwyad cyflogedig, rhaid i'r Comisiwn gael gwybod o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad beth yw'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd amcangyfrifedig y dirprwyad. Rhaid diwygio Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol awdurdodau yn unol â hynny.
- Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig prif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid swyddi uwch gan eu bod yn parhau i dderbyn cyflog sylfaenol am o leiaf 6 mis ni waeth beth fo'u presenoldeb ac mae unrhyw estyniad y tu hwnt i'r amserlen hon yn fater i'r awdurdod.

| | |
|-------------------|--|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 |
| Swyddog Arweiniol | Clerc i'r Awdurdod |
| Swyddog Cyswllt | Gareth Owens |
| Pwnc | Penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod |



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Argymhell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn penodi David Davies i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Rhaid i'r Awdurdod benodi Aelodau Annibynnol i'w Bwyllgor Safonau. Mae'r rhain yn bobl heb unrhyw gysylltiad â gwleidyddiaeth na'r awdurdod sy'n cael eu cyfethol i'r Awdurdod. Roedd angen dau Aelod Annibynnol ar yr Awdurdod ac mae wedi cynnal ymarfer recriwtio agored i ddewis ymgeiswyr addas.

ARGYMHELLIAD

- 3 Argymhellir bod Aelodau:
 - i) **Yn penodi David Davies am gyfnod o bedair blynedd o 20 Ebrill 2026 ymlaen; ac**
 - ii) **Yn diolch i Julia Hughes a Sally Ellis am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.**

CEFNDIR

- 4 Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Safonau sefydledig. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, y mae pedwar ohonyn nhw'n Aelodau Annibynnol a dau'n gynrychiolwyr o'r Awdurdod. Mae Aelodau Annibynnol yn bobl nad ydynt yn gynghorwyr nac yn swyddog gyda'r Awdurdod nac unrhyw awdurdod lleol arall. Mae pobl sydd wedi bod yn gynghorwyr neu'n swyddogion yn y gorffennol yn gallu gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol ar ôl i gyfnod o 2 flynedd o leiaf fynd heibio. Mae hyd y cyfnod hwnnw'n hirach os yw'r person wedi dal swydd uwch mewn awdurdod lleol.

- 5 Mae Julia Hughes a Sally Ellis wedi gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol ers 1 Medi 2019. Nhw yw Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd presennol y pwyllgor. Maent wedi gwasanaethu am ddau dymor yn y swydd ac felly ni ellir eu hailbenodi. Felly roedd angen i'r Awdurdod recriwtio aelodau i gymryd eu lle.
- 6 Mae deddfwriaeth fanwl yn llywodraethu recriwtio Aelodau Annibynnol.

GWYBODAETH

- 7 Hysbysebwyd y swyddi gwag yn y North Wales Chronicle (sy'n gwasanaethu Bangor, Caernarfon a'r ardaloedd cyfagos), y Journal (sy'n gwasanaethu Rhyl, Prestatyn, Abergele a'r ardaloedd cyfagos), Denbighshire Free Press (sy'n gwasanaethu Sir Ddinbych, Yr Wyddgrug a'r ardaloedd cyfagos), a'r Wrexham Leader (yn gwasanaethu Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos) yn ogystal ag ar wefan yr Awdurdod. Fe'u dosbarthwyd hefyd i Swyddogion Monitro a'u postio ar wefannau cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Tachwedd 2025. Derbyniwyd pum cais mewn ymateb i'r hysbyseb, ac roedd pedwar ohonynt ar y rhestr fer.
- 8 Ar 26 Mawrth cyfarfu panel cyfweld i gyfweld â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Cefnogwyd y panel gan y Clerc, Gareth Owens a Louise McCabe-Allen, Dirprwy Bennaeth AD. Roedd yn cynnwys:

| | |
|--------------------------------|---|
| Y Cynghorydd Dylan Rees | Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol |
| Y Cynghorydd Gareth Sandilands | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio |
| Sally Ellis | Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| Gareth Pritchard | Aelod o'r Pwyllgor Safonau |
| Noela Jones | Person lleyg |

- 9 Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y Panel yn fanwl rinweddau a chryfderau'r pedwar ymgeisydd a daeth i'r casgliad bod David Davies.
- 10 Mae'r Panel yn argymhell bod yr Awdurdod yn penodi David Davies yn weithredol o 20 Ebrill 2026 ar gyfer yr uchafswm tymor cyntaf a ganiateir o chwe blynedd.
- 11 Dyma fydd aelodaeth y Pwyllgor a'r cyfnodau y byddant yn eu swydd:

Aelodau Annibynnol

| | |
|------------------|---------------------------------|
| Gill Murgatroyd | 01/09/19 - 31/08/27 (ail dymor) |
| Gareth Pritchard | 01/09/19 - 31/08/27 (ail dymor) |
| David Davies | 20/04/26 – 19/04/32 |


Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub

Y Cyng Brynmor Hughes 07/06/2022 – 10/05/2027

Y Cyng Ian Hodge 20/05/2025 – 10/05/2027

GOBLYGIADAU

| | |
|--|--|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

| | | |
|-------------------|---|---|
| Adroddiad i | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |  |
| Dyddiad | 20 Ebrill 2026 | |
| Swyddog Arweiniol | Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | |
| Swyddog Cyswllt | Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael | |
| Pwnc | Alldro Dros Dro 2025–26 | |

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ragolygon gwariant cyfalaf a refeniw 2025/26, fel yr oedd ar 31 Fawrth 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyllideb refeniw net o £51.788m ar gyfer 2025/26, i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn cynnal y cap cyllideb hwn, cytunwyd ar nifer o fesurau anghylchol, gan gynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn.
- 3 Yn seiliedig ar y gwariant hyd at 31 Fawrth, rhagwelir bellach y bydd y gwariant refeniw yn £51.654 miliwn, sy'n danwariant o £0.134 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol a symudiadau i gronfeydd wrth gefn.
- 4 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf o £6.100m ar gyfer 2025/26, wedi'i hategu gan £2.589m mewn cyllid treigl o flynyddoedd blaenorol. Mae'r rhaglen gyfalaf yn profi llithriad ar gynlluniau, a rhagwelir y bydd gwariant yn £5.009m gyda gofyniad i dreiglo cyllid o £4.625m.
- 5 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26, rheolwyd risgiau ariannol allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r gweithlu, yn benodol goramser, dyrchafiadau dros dro, a chostau sy'n gysylltiedig â salwch, sy'n cael eu gyrru gan y galw ar yr ochr weithredol a newidiadau sefydliadol. Chwyddiant a phwysau ar y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar gostau heblaw cyflogau (cyfleustodau, gwasanaethau trydydd parti) a'r rhaglen gyfalaf, yn ogystal ag anwadalrwydd cyfraddau llog a risg ailgyllido ein benthyciadau. Mae'r risgiau hyn yn cael eu monitro'n weithredol gan y Pwyllgor Cyllid a Chaffael Gwasanaethau ac yn cael eu cofnodi ar gofrestr risg yr Awdurdod.

ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

- i) **nodi'r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y nodir yn yr adroddiad;**
- ii) **nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydnabod bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a**
- iii) **Cymeradwyo'r symudiadau i mewn i ac allan o'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd a'r Gronfa Gyffredinol.**

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr aelodau o'r blaen.

CEFNDIR

- 8 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Cafodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £51.788m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.
- 9 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau hefyd ystod o fesurau anghylchol sy'n angenrheidiol i gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2025/26, a oedd yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.
- 10 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £6.100m i weithgor Craffu ar Gyllideb yr Aelodau ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod hefyd.
- 11 Mae'r adroddiad monitro cyllideb hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

GWYBODAETH

Y GYLLIDEB REFENIW

- 12 Cyflogau: Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 70% o'r gwariant gros ac mae cyllideb staffio 2025/26 yn £38.233m, gan gynnwys mesurau a gymerwyd wrth osod y gyllideb i gynnwys gwariant o fewn y ffigur a gymeradwywyd. Fodd bynnag, nodwyd bryd hynny fod y trafodaethau cyflog cenedlaethol yn dal i fynd rhagddynt.
- 13 Roedd y broses o osod y gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025/26 yn 3% ar gyfer yr holl staff. Canlyniad dyfarniad cyflog Ebrill 2025 ar gyfer staff llywodraeth leol oedd cynnydd o **3.2%**, gyda'r dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân hefyd yn setlo ar 3.2% o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen.

- 14 Costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau: Mae'r rhagolygon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn seiliedig ar ymrwymadau a gwariant hysbys ar hyn o bryd. Wrth i diwedd y flwyddyn ariannol gael ei chwblhau, mae'r rhagolygon yn parhau i fod yn destun newid.
- 15 Incwm: Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, ceir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag addaliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau. Hefyd, mae'r Awdurdod wedi elwa o incwm ychwanegol o secondiadau a grant untro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi chwyddiant cyflogau ar gyfer 2025/26.
- 16 Cost refeniw cyfalaf: Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir tanwariant ar y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf a'r gostyngiad mewn MRP yn dilyn defnyddio CERA (Gwariant Cyfalaf a godir ar y Cyfrif Refeniw).

RHAGOLWG ALLDRO REFENIW AR GYFER 2025/26

- 17 Mae'r adroddiad yn rhagweld tanwariant o £0.134m, sy'n cyfateb i 0.3% o'r gyllideb. Mae'r dadansoddiad i'w weld isod.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiad (£m) | Amrywiad (%) |
|-------------------------------|---------------|---------------|---------------|--------------|
| Gweithwyr | 38.233 | 37.447 | 0.786 | 2.1% |
| Adeiladau | 2.818 | 3.338 | (0.520) | -18.4% |
| Trafnidiaeth | 1.327 | 1.663 | (0.336) | -25.3% |
| Cyflenwadau | 6.182 | 5.750 | 0.432 | 7.0% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.367 | 0.449 | (0.083) | -22.6% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 4.501 | 4.224 | 0.277 | 6.1% |
| Incwm | (1.039) | (1.217) | 0.178 | -17.1% |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (0.601) | (0.000) | (0.601) | 100.0% |
| Rhagolwg Alldro | 51.788 | 51.654 | 0.134 | 0.3% |

COSTAU GWEITHWYR

- 18 Mae costau cyflogeion yn rhan sylweddol o'r gyllideb (dros 70% o'r costau gros) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau ar gyfer cyflogeion, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Rhagwelir tanwariant o £0.786m ar gyfer 2025/26.

- 19 Mae'r gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y diffoddwyr tân yn y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) er mwyn mynd i'r afael â'r peiriannau sydd ar gael. Pan osodwyd cyllideb 2025/26, roedd 474 o bersonél yn y System Dyletswydd Ar Alwad, a gwnaed darpariaeth i gynyddu'r capasiti i gael 15 swydd arall. Roedd hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gryfhau'r capasiti wrth gefn a chynnig darpariaeth hanfodol.
- 20 Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos bod hyn yn parhau i fod yn her sylweddol. Yn dilyn gostyngiad yn y nifer dros fisoedd yr haf, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n hwyrach yn y flwyddyn, gan adlewyrchu recriwtio llwyddiannus. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae'r mesur cyfwerth â 100%, sy'n adlewyrchu oriau contractiol, yn parhau'n sylweddol is na'r lefel wreiddiol a gyllidebwyd ac wedi dangos gostyngiad bach dros gyfnod y flwyddyn.

| Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad | Cyllideb 2025/26 | Maw-25 | Meh-25 | Med-25 | Tach-25 | Maw-26 |
|---|------------------|--------|--------|--------|---------|--------|
| Nifer | 489 | 490 | 487 | 484 | 503 | 502 |
| Cyfwerth â 100% | 390 | 367 | 364 | 357 | 366 | 363 |

- 21 Mae'r tanwariant yng nghyllideb staff y System Dyletswydd Ar Alwad yn adlewyrchu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal ag amrywiadau mewn elfennau cyflog megis ffioedd ymarferion, lwfansau hyfforddi, a thaliadau gweithgaredd.
- 22 O fewn y grŵp staff llawn amser, ac yn debyg i'r RDS, bu gostyngiad yn y sefydliad dros fisoedd yr haf. Dilynwyd hyn gan ymgyrch recriwtio llwyddiannus a ddechreuodd ym Medi 2025, ynghyd â chwblhau cwrs trosi ar gyfer 12 aelod o staff.

| Dadansoddiad Diffoddwyr Tân Llawn Amser | Cyllideb 2025/26 | Maw-25 | Meh-25 | Med-25 | Tach-25 | Maw-26 |
|---|------------------|--------|--------|--------|---------|--------|
| Nifer | 208 | 209 | 202 | 204 | 216 | 210 |

- 23 Yn Chwarter 3 symudodd trefniadau niwclews ymlaen i gyfnod peilot, gyda gweithredu llawn yn Chwarter 4, gan ddarparu gorchudd yn ystod y dydd yn Nolgellau a Phorthmadog o fewn y gyllideb bresennol. Ers mynd yn fyw, mae criwio niwclews eisoes wedi gwella argaeledd mewn ardaloedd gwledig, gan gefnogi trefniadau criwio mwy gwydn a lleihau'r ddibyniaeth ar dyniadau fyr rybudd mewn lleoliadau sy'n anoddach eu staffio.

- 24 Mae recriwtio i swyddi arbenigol o fewn adrannau corfforaethol wedi parhau i fod yn anodd yn ystod 2025/26, a disgwylir tanwariant dros y flwyddyn lawn. **Mewn ymateb, mae prentisiaid yn cael eu defnyddio'n gynyddol i lenwi swyddi, gan gefnogi cynllunio olyniaeth tymor hwy.**

COSTAU NAD YDYNT YN YMWNEUD Â CHYFLOGAU

- 25 Rhagwelir y bydd gorwariant o (£0.230m) yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau, sy'n cwmpasu Adeiladau, yr Adran Gludiant, Cyflenwadau, Taliadau Trydydd Parti, a Chyllid a Thaliadau Cyfalaf.
- 26 Mae gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau yn cael ei adolygu'n barhaus gan ddeiliaid y gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod y blaenamcanion yn parhau i fod yn rhesymol ac er mwyn rheoli costau na ellir eu hosgoi.
- 27 Mae'r rhagolwg adeiladau yn dangos gorwariant o (£0.520m) sy'n cael ei yrru gan sawl ffactor. Mae'r rhain yn cynnwys caffael contract glanhau newydd, sy'n ymgorffori gofynion glanhau ychwanegol ar gyfer yr orsaf gnewyllyn. Bydd angen arbedion effeithlonrwydd er mwyn gwrthbwysu'r costau hyn yn 2026/27, rydym yn amcangyfrif y bydd yn £0.055m. Yn ogystal, mae £0.047m wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith strategaeth ystadau, a fydd yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn os bydd angen, a £0.028m ar gyfer adroddiad cyflwr systemau mecanyddol a thrydanol. Mae pwysau pellach o ran costau wedi codi o waith adweithiol sy'n uwch na'r gyllideb, er bod y rhain wedi'u lliniaru'n rhannol gan ostyngiadau mewn costau cyfleustodau.
- 28 Ers mabwysiadu IFRS 16, mae costau prydles bellach yn cael eu cofnodi o fewn cyllidebau adrannol, e.e. adeiladau neu drafnidiaeth, er mwyn gwella gwelededd gwariant. Ar gyfer 2025/26, mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y prydlesi hyn o fewn y cyllid cyfalaf. O ganlyniad, mae unrhyw orwariant lleol o fewn adrannau yn cael ei wrthbwysu yn erbyn y gyllideb ariannu cyfalaf.
- 29 Mae taliadau trydydd parti yn fwy na'r gyllideb o (£0.083m), a ddyrannwyd, yn bennaf oherwydd cynnydd uwch na chwyddiant yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.
- 30 Mae'r pwysau cost a nodir uchod yn cael eu lliniaru gan danwariant mewn Cyflenwadau o ganlyniad i effeithlonrwydd o £0.168m, ynghyd ag oedi wrth fudo system allweddol yn y Ganolfan Reoli o ar-safle i'r cwmwl, a disgwylir i ddigwydd yn 2026/27, gyda chost o £0.242m.
- 31 Mae'r rhagolwg ar gyfer cyllid cyfalaf ar hyn o bryd o fewn y gyllideb. Mae hyn oherwydd costau prydles sydd wedi gwrthbwysu gorwariant adrannol, a chynlluniau cyfalaf a ariannwyd o refeniw yn ystod 2024/25, sydd wedi lleihau'r isafswm sy'n daladwy ar gyfer darpariaeth refeniw yn 2025/26 o £0.277m.

INCWM

- 32 Yn ogystal â'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys yr incwm disgwyliedig o ffioedd, taliadau a grantiau. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl ar adeiladau a rennir gydag endidau eraill a chytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau amrywiol.
- 33 Rhagwelir y bydd yr incwm £0.178m yn uwch na'r gyllideb. Mae'r gorgyflawniad hwn oherwydd i'r Awdurdod gael £0.084m trwy werthu cerbydau, lefelau uwch o incwm nag a ragwelwyd ar gyfer cyflenwi prentisiaethau gyda Choleg Llandrillo, a £0.051m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu i dalu cost dyfarniadau cyflog uwchlaw'r rhagdybiaeth safonol o 3%. Mae'r cyllid ategol hwn yn adlewyrchu'r setliadau o 3.2% ar gyfer staff y llyfr llwyd a'r llyfr gwyrdd ac mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pwysau cost eleni.

RHAGLEN GYFALAF

- 34 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen wariant cyfalaf o £6.100m ar gyfer 2025/26, gyda £2.589m ychwanegol wedi'i gario ymlaen o flynyddoedd blaenorol oherwydd llithriad yn y rhaglen gyflawni. Ar 31 Mawrth, roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf gwirioneddol yn £5.009m, o'i gymharu â'r cynllun cyfalaf heb ei ariannu cyffredinol o £8.689m.
- 35 Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid gohirio nifer o gynlluniau cyfalaf a gynlluniwyd, gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â'r system rheoli mynediad FOB newydd a'r prosiect datgarboneiddio yng ngorsaf y Rhyl. Roedd disgwyl i'r cynllun yn y Rhyl gael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol ac roedd wedi'i gefnogi gan £0.648m o gyllid grant cyfalaf a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i gostau cynyddol a'r prisiau tendro a dderbyniwyd, mae'r prosiect wedi'i atal dros dro a bydd yn cael ei ailasesu yn 2026/27 er mwyn sicrhau bod datrysiad gwresogi a dŵr poeth priodol yn cael ei weithredu sy'n cyflawni gwerth am arian.
- 36 O ganlyniad i lithriad yn y rhaglen gyfalaf, rhagwelir y bydd cyllid cario ymlaen o £4.625m i 2026/27. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau a ohiriwyd, prosiectau Cyfleusterau, a chaffael cerbydau ac offer gweithredol. Disgwylir i wariant cyfalaf sylweddol ar brosiectau Cyfleusterau gael ei wneud yn ystod Chwarter 1 2026/27, gan gynnwys gwaith gorsafoedd yn Nolgellau, Porthmadog a Bangor, adeiladu tyrau hyfforddi yn Llangefni a Dinbych, a gwaith adnewyddu toeau yng Ngholwyn Bay a'r Fflint.

| Enw/Disgrifiad o'r Prosiect | Cyllideb (£m) | Gwirioneddol £m | Arian Treigl £m |
|---------------------------------|---------------|-----------------|-----------------|
| Fflyd | 2.392 | 1.792 | 0.764 |
| Cyfleusterau | 1.385 | 0.452 | 0.806 |
| TGCh | 0.232 | 0.180 | 0.171 |
| Gweithrediadau Technoleg | 0.395 | 0.317 | 0.000 |
| Amgylchedd | 0.080 | 0.066 | 0.012 |
| Gweithiau adweithiol | 1.616 | 0.000 | 1.616 |
| Is-Gyfanswm | 6.100 | 2.806 | 3.368 |
| Cyllideb Dreigl | | | |
| Fflyd | 0.037 | 0.037 | 0.000 |
| Cyfleusterau | 1.092 | 0.449 | 0.310 |
| TGCh | 0.000 | 0.160 | 0.000 |
| Gweithrediadau Technoleg | 0.850 | 0.182 | 0.432 |
| Amgylchedd | 0.610 | 0.120 | 0.514 |
| Is-Gyfanswm | 2.589 | 0.949 | 1.256 |
| Cynllun Cyfalaf Heb ei Ariannu | 8.689 | 3.755 | 4.625 |
| Grantiau yn ystod y Flwyddyn | | | |
| Cyfleusterau – Y Rhyl | 0.648 | 0.058 | 0.000 |
| Cynllun Cyfalaf wedi ei ariannu | 0.648 | 0.058 | 0.000 |
| Hwb Awen | 0.000 | 1.253 | 0.000 |

37 Caiff y rhaglen gyfalaf ei hariannu drwy gymysgedd o fenthycy cyfalaf o £3.397m, Cyfraniadau Refeniw tuag at Wariant Cyfalaf (CERA) o £1.450m, a chyllid grant cyfalaf o £0.162m. Ceir manylion pellach yn y tabl ategol.

| Cyllid | Swm £m |
|---|-----------|
| Benthycy | 3.397 |
| Gwariant cyfalaf a godir ar y Cyfrif Refeniw (CERA) | 1.450 |
| Cyllid Grant | 0.162 |
| Cyfanswm | 5.009 |

BENTHYCA

- 38 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthycy allanol, ond yn y tymor byr, mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthycy mewnol.
- 39 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthycy mewnol lle mae hyn yn bosibl ar sail dros dro. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthycy cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifir gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian parod sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balans a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, bydd angen newid y benthycy mewnol i fenthycy allanol.

- 40 Ym mis Mawrth 2026, sicrhaodd yr Awdurdod fenthyciad awdurdod lleol tymor byr newydd o £2 filiwn ar gyfradd llog o 6.35%, gyda'r ad-daliad wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2026. Trefnwyd y benthyciad hwn i fodloni anghenion llif arian uniongyrchol hyd nes y derbynnir yr incwm a ragwelir ym mis Ebrill 2026. Er bod benthyciadau masnachol neu fenthyciadau gan y PWLB ar gael ar gyfraddau llog is, roeddent yn gofyn am delerau ad-dalu hwy, a fyddai wedi arwain at gostau cyffredinol uwch.

DEFNYDDIO'R GRONFA GYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI

- 41 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau'r dyfodol ac i fod yn rhwyd ddiogelwch rhag heriau ariannol tymor byr o ganlyniad i alwadau i weithredu neu bwysau annisgwyl, megis tanau gwyllt.
- 42 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi clustnodi £8.938m o gronfeydd wrth gefn o 1 Ebrill 2025, sydd wedi'u cronni yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithriad mewn recriwtio a chyflawni prosiectau. Hefyd, mae cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u sefydlu er mwyn ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system, a gwelliannau i'r gwasanaeth.
- 43 Mae'r alldro dros dro yn tybio na fydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlynol wedi'u symud i gronfeydd wrth gefn naill ai oherwydd ansicrwydd ynghylch atebolrwydd yn y dyfodol neu i dalu costau untro na chwblhawyd yn ystod 2024/25:

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) |
|-------------------------------|---------------|---------------|
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (0.601) | |
| • Amh | | 0.000 |
| Symud i Gronfeydd Wrth Gefn: | 0.000 | |
| • Pensiwn | | 0.525 |
| • Cartél Tryciau | | 0.134 |
| Cyfanswm | (0.601) | 0.659 |

Tabl 3: Symudiadau i ac o gronfeydd wrth gefn

* Mae'r ffigurau a gynhwysir yn nhabl 3 yn niferoedd dangosol a fydd yn cael eu mireinio yn ystod prosesau diwedd y flwyddyn.

GOBLYGIADAU

| | |
|--------------------------------------|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiadau ariannol a chynnal cyllideb gytbwys. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |